



kimkat.org – Gwefan Cymru a Chatalonia

www.kimkat.org/amryw/1_testunau/sion_prys_117_sioni-or-pant_0218k_PDF_3263k.pdf

10-09-2019

Teitl: **Shoni o'r Pant. Un o Enwogion Aberdar.**

Awdur: Ifan Bryndu.

Cyhoeddiad: Papur Pawb, Caernarfon.

Blwyddyn: 1900.

Ffynhonnell: Newyddiaduron Arlein Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

"Dyna le ffamws, yntefa Shoni?" sibrydai Ianto gan wenu; "bachan ma hwn yn well na first-class y Taff Vale, ond yw a?"

Ceir fersiwn ar ffurf tudalen IAH = Iaith Arwyddnodi Huperdestun / Hypertext Markup Language = HTML yn y fan hon:

www.kimkat.org/amryw/1_testunau/sion_prys_117_sioni-or-pant_0218k.htm

10 Mawrth 1900

PENNOD I. PWY, AC O BA LE?

PENNOD II. YR EXCURSION I GAERDYDD.

Delweddau F7602-F7608

.....

17 Mawrth 1900

PENNOD III. YR EXCURSION ETO.

Delweddau F7609-F7614

.....

24 Mawrth 1900

PENNOD IV. HELYNT YR HEDDLYS.

Delweddau F7615-F7621

.....

31 Mawrth 1900

PENNOD V. CINIO FAWR SHONI.

PENNOD VI. Y BWCAS.

Delweddau F7622-F7629

.....

7 Ebrill 1900 7626

PENNOD VI. (Parhad)

PENNOD VII. TAITH I LUNDAIN.

Delweddau F7630-F7636

.....

14 Ebrill 1900

PENNOD VIII. Y GINIO YN LLUNDAIN.

PENNOD IX. MYN'D I WEL'D BETSY.

Delweddau F7637-F7644

.....

21 Ebrill 1900

PENNOD X. CYRDDAU'R COFFEE TAVERN.

PENNOD XI. YMWELIAD MR HENRY RICHARD

Delweddau F7645-F7654

.....

28 Ebrill 1900

PENNOD XII. TAITH SHONI I SWITZERLAND.

Delweddau F7656-F7665

.....

5 Mai 1900

PENNOD XIV. CAN SIMON PHYLIP.

PENNOD XV. TAITH I'R GOGLEDD.

Delweddau F7667-F7671

.....

12 Mai 1900

PENNOD XVI. DIWEDDGLO

Delweddau F7676-F7681

.....



(delwedd 8112)

SHONI O'R PANT:

(UN O ENWOGION ABERDAR.)

I.—PWY, AC O BA LE?

Y MAE yn hollol briodol i gyplysu y gair "enwog" gydag enw Shoni o'r Pant. Rhaid addef na fu yn aelod Seneddol, nac yn aelod cynghor plwyfol erioed, o ran hyny. Os nad wyf yn camsynied, yr unig anrhydedd a ddaeth i'w ran yn y cyfeiriad hwnw oedd, i Shoni gael ei ddewis yn un o ddeuddeg i fyned at Mr Rollins, percheneg y lofa, lle y gweithiai, i geisio codiad cyflog; a thro arall yn un o un ar bymtheg i dynu cerbyd Mr Rollins, drwy ystrydoedd y pentre, pan ddychwelodd y boneddwr hwnw o'i daith yn yr America.

Dyna'r ddaau ddigwyddiad pwysig yn hanes Shoni fel cynnrychiolydd ei gydweithwyr. Gyda llaw, cofier mai haliar ydoedd, ac mai cynnrychioli haliars yr oedd yn yr amgylchiadau uchod.

Ond beth yw gwaith haliar? Wel, hala, wrth gwrs! Y syniad: Ddim yn gwybod beth yw haliar! "Haliar" yw "haulier" y Sais — y dyn sy'n gyru'r ceffylau sy'n llusgo y trams yn y glo-feydd.

Y peth nesaf a ofynir fydd: "Beth yw pwl glo?" Digon tebyg na wyddai neb, y tuallan i blwyf Aberdar, pwy oedd ein gwrthddrych, a pha beth a wnaeth. Y mae yn enwog, er hyny, ac erys yn enwog tra y bydd un o'i hen gyfeillion uwchben y dywarchen.

Beth yw enwogrwydd? Onid seren yn syrthio? Fflachio yn dlos am foment, ac yna diffanu o'r golwg am byth. Y mae ambell un yn llosgi ac yn goleuo yn hwy na'r llall, ond lludw fyddant oll yn y diwedd.

Wel yr oedd Shoni o'r Pant yn enwog. Nid oedd blentyn trwy y plwyf poblog, na dyn na dynes braidd, nad oeddynt yn adnabod ein gwrthddrych. Os oedd rhyw gynnulliad mwy na'i gilydd, yn unrhyw fan, gellid penderfynu y byddai Shoni yno. Nid oedd o bwys beth fyddai natur y cyfarfod; pa un ai gorymdaith clwb, cymanfa ganu, ymladdfa, cyfarfod pregethu, "mass-meeting" o weithwyr, Punch and Judy, frae gwragedd, neu arwerthfa, ac yn neillduol excursion. Yr oedd Shoni wrth ei fodd pan glywai am excursion.

Yn mhob cynnulliad gellid bod yn sicr o weled Shoni yn bresennol. Ac eithrio cyfarfodydd crefyddol, efe fyddai bywyd y lle. Nid oedd yn y plwyf un tebyg iddo am roddi hwyl i siaradwr. Yr oedd ei "Clywch, clywch," "Ffamws," a "Da iawn, bachan," &c., yn sicr o danio calon yr areithiwr mwyaf safndrwm. Pwy all anghofio gwen foddhaus y diweddar Mr Henry Richard, A.S., ar y llwyfan, yn nhy y farchnad, yn Aberdar, yn traethu ar wleidyddiaeth, pan oedd Shoni yn gwaeddi yn awr ac eilwaith: "Well done, Mr Richards, go on." Yr oedd y bachan o'r Pant, fel y galwai ei hun weithiau, wrth fodd ei galon adeg yr etholiad, a chwynai yn fynych na fuasem yn cael etholiadau blynyddol.

Cofier, nad derbyn yr athrawiaeth hono wnaeth oddiwrth Radicaliaid Lloegr nac oddiwrth y Chartists gynt chwaith. Yr oedd y syniad yn wreiddiol hollol iddo. Credai o galon mewn etholiad blynyddol. Ychydig iawn o olwg oedd ganddo ar y cynghorau plwyfol, dosparthol a sirol. Methodd yn lan a deall y rhai hyn. Tystiai nad oedd ynddynt ddim daioni, neu y buasai ychydig mwy o fwstwr adeg yr etholiad.

Dylasid nodi mai enw gwreiddiol Shoni oedd John Thomas, ac iddo gael ei eni yn y Pant, gerllaw Dowlais. Symudodd y teulu i Aberdar pan oedd Shoni tua dwyflwydd oed. Bu y tad farw yn fuan ar ol hyn, gan adael ei deulu bychan

F7602

o ddau fab a merch, yn ngofal ei weddw. John oedd yr ieuengaf o'r plant.

Yr oedd y fam yn greadures ddigon diddrwg, ac nid oedd yn credu mewn curo ei phlant i foddio neb. Yr oedd hyn yn un o erthyglau mwyaf pendant ei chredo. Erthygl arall a gredai oedd, mai ganddi hi yr oedd y plant glanaf, goreu, a mwyaf deallgar yn Aberdar. Tystiodd hynny lawer gwaith, ac nid oedd digon o dalent yn y byd i'w darbwyllo i greu dim yn amgen. Chwareu teg i Mrs Thomas!

Wrth gwrs, yr oedd y plant eu hunain o'r un farn a'u mam. Nid oedd John yn rhyw hoff iawn o'r ysgol ddyddiol. Pan ddeuai swyddog y plwyf i ymholi yn ei gylech, tystiai Mrs Thomas mai selni oedd yr achos; fod y meddyg yn barnu fod ei ymenydd yn ormod i'w gorph, ac felly ei fod yn cael cur mawr yn ei ben, &c. Yr unig adegau y byddai clefydau y llanc yn ymosod arno oedd tua naw o'r gloch yn y bore, a dau yn y prydawn. Yr oedd yn galed i edrych ar ei wyneb yr adegau hyn, gan fel yr ymnyddai gan y boen. Wrth gwrs, nid yr un fath boen a ddioddefai bob amser. Weithiau cai y ddannodd, bryd arall, brathiadau yn ei goes, neu rywle arall. Ychydig o amser y parhai yr ymosodiad.

I wneyd 'stori faith yn fyr: tyfodd y bachgen yn ddyn; diflanodd yr enw John Thomas, ac adnabyddid Shoni fel "Shoni o'r Pant," gan bawb ond ei fam. Priododd y brawd a'r chwaer, ac aeth y fam i fyw at ei merch, a Shoni gyda hi, wrth gwrs.

Tuedd Shoni oedd gwamalrwydd gydag ambell i beth. Mewn rhai pethau, ar y llaw arall, yr oedd, ys dywedai "fel y Bank of England." I fanylu ychydig, er mwyn deall ei anianawd, gellid cyweyd fod yna dri o bethau yr oedd bob amser yn barod am danynt, ac yn disgwyl wrth-ynt, a dyma hwy: Cinio, "excursion," ac etholiad cyffredinol. Denai sefydlogrwydd i'r golwg ynddo mewn un peth arall. Yr oedd yn rhaid iddo bob amser gael ei ffordd ei hun.

Mewn pethau ereill, rhaid cyfaddef ei fod yn hynod wamal. Am dymhor, ysmociai yn feunyddiol; ond yn sydyn ac annisgwyladwy, lluchiai ei getyn o dan y tan, a dyna derfyn ar ysmocio am rai misoedd. Yr un modd gydag yfed: Weithiau gwelid ef ar y spri am fis cyfan; ac yna troai yn ddirwestwr selog, ond distaw, am dymhor maith. Ni fyddai Shoni byth yn cyhoeddi ar benau y tai ei fod yn llwrymwrthodwr, ac yn cymhell ereill i fod felly. Yr unig arwydd a geid fyddai ei weled yn dod gartref yn gynnar ddydd Sadwrn, yn estyn swm o arian i'w fam, yn talu ei chwaer, ac yn myned i'w wely yn syth ar ol ymolchi, neu ynte yn myned trosodd i Ferthyr neu Dowlais, i weled ei berthynasau.

Golyga hyn, wrth gwrs, nad oedd circus na dim o'r fath ar gae Ynysecynon y noswaith hono.

Yn ystod y tymhorau dirwestol hyn, nid peth dyeithr fyddai gweled Shoni yn y capel ac yn ymaelodi yno. Gyda hyn prynai siwt neu ddwy o dfillad newydd. Newidiai y cadach sidan a wisgai yn gwllwm tyn am ei wddf, gan arddangos coler a chrys gwyn glan. Yr adeg yma, clywid aml i un yn ei anerch fel "John" unwaith eto, ac edrychai ei hen gyfeillion braidd yn swil arno. Rhaid dyweyd am dano ei fod yn grefyddwr gonest iawn, cyhyd ag y byddai yn proffesu; a pheth arall ddylid dyweyd yn ei ffafir yw, nad oedd ei grefydd byth yn ei wneyd yn fursenllyd, swrth, a sur.

Rhaid fod ei afu yn hollol iach, oblegid ni welid cwmwl byth ar ei wedd. Am ei gylla, cafwyd profion ddegau o weithiau fod hwnw yn berffaith; derbyniai bobpeth a osodid i fewn ynddo yn ddirwgnach. Un waith y mae yn hysbys iddo fethu bwyta yr hyn a osodwyd o'i flaen, a chrybwyllir am hynny eto.

Arfer bywgraphwyr gwyr enwog bob amser

F7603

yw traethu yr hyn sydd dda am eu gwrth-ddrychau. Yn hyn o beth caraswn ganlyn esiampl y goreuon a gosod Shoni yn ei ddillad goreu o flaen y cyhoedd. Addefais fod yna adegau anhyfryd i'w hadrodd yn ei hanes, ond fel y gwneir gydag enwogion ereill, felly y gwneir gyda Shoni, cedwir y llen dros y drwg, a thraethir am y gwrhydri a'r pethau dyddorol a wnaeth.

Druan ohono, ychydig feddyliodd erioed y buasai undyn byw yn ymgymeryd a'r gwaith o groniclo ei hanes a'i gyflwyno i lawr i'r oesau a ddel.

Fel y nodwyd, hoff beth gan Shoni o'r Pant gael myned gydag "excursion." Nid oedd o bwys i ba le: cael "excursion" oedd y peth.

Yn ystod un haf, yr oedd arddangosfa fawr yn Nghaerdydd. Trefnwyd gwibdaith o Aberdar yno, a digwyddodd fod Shoni yn ddirwestwr er's tua chwe' mis y pryd hwnw, ac, wrth gwrs, nid oedd yn fyr o arian—neu o "docyns," fel y dywedai. Yn offis y gwaith y gwerthid ticedi yr "excursion"; ac, fel arfer, Shoni oedd y cyntaf i sicrhau un. Yr oedd wrth ei fodd, ac yn llawn disgwyliad. Dydd Gwener, wedi dod o'r gwaith ac ymolchi, bu yn brysur iawn yn shopa. Rhaid oedd cael esgidiau elastic sides newyddion, tie amryliw, het jim crow, a ffon. Ni chafodd Shoni erioed unrhyw gariad at ymbrelo. Ffon fynai Shoni; "clatsan o ffon y gall dyn gitsho ynddi," ys arferai ddyweyd. Aeth i'r gwely yn bur gynar nos Wener, ond deffrodd yn hynod fore dranoeth.

Yr oedd y dydd hir-ddisgwyliedig wedi gwawrio ac wele y gwr enwog, "y Bachan o'r Pant," yn cyfeirio ei gamrau tua'r stesion—y cyntaf i dori ar ddistawrwydd y fan. Yn mhen amser, gwelid y tyrtaoedd yn dylifo yno o bob cyfeiriad: o Gwmbach ac Abernant, y Gadlys ac Heolyfelin, Aberaman a Threcynon. Cyn pen ychydig, gwelid y bobl yn tyru i gyd i'r un cyfeiriad; gwelid dau neu dri o heddgeid-waid yn hollti eu ffordd trwy y bobl; clywid llais dolefus gwraig yn rhwygo yr awyr. Beth oedd wedi digwydd?

PENNOD II.—YR EXCURSION I GAERDYDD.

"Cliriwch o'r ffordd," bloeddai yr heddgeidwad, tra y llusgid rhyw hen wr bychan, penwyn, trwy ganol y dorff oddiar y platform. "Be' sy'n bod?" "Pwy yw a'?" "Beth 'nath a'?" &c., oedd yr holiadau a wnaed, ac nid oedd modd cael atebiad ar unwaith. Yn mhen amser esboniwyd yr holl helynt fel hyn: Mocyn o'r Allt oedd wedi meddwi.

"Wedi meddwi mor fore a hyn?" "Dos dim shwd beth!" gwaeddi'r dyrfa.

"Mae'n wir fod yr "excursion" yn cychwyn tua wyth o'r gloch y bore, ond gofalai tafarnwyr Aberdar ddal mantais trwy agor eu tai tua chwech o'r gloch er galluogi y teithwyr, druain, i dori eu syched cyn myned i Gaerdydd. Cofier, mai profedigaeth lem i'r tafarnwyr oedd pob "excursion."

Onid oedd bron eu holl gwsmeriaid yn myned am y diwrnod oddicartref; ac felly, os byddai yfed o gwbl, elw i dafarnwyr Caerdydd fyddai hyn? Am y tro, yr oedd yr holl weithwyr wedi cael eu tal ar nos Wener, a byddai bron pob un wedi ceisio cynnilo y diwrnod hwnw ar gyfer y "trip" dranoeth.

Syrthio i'r trap hwn wnaeth Mocyn o'r Allt. Cododd yn fore dydd Sadwrn, a chan fod syched arno aeth i'r "Jolly Lion" i gael glasiad. Fel y dywedai Shoni yn fynych, "hen ddwlbyn yw Mocyn os bydd wedi cael glasiad," ac felly y profodd y tro hwn. Llyncai un gwydriad ar ol y llall, nes yr oedd ei goesau mor ys-

F7604

twyth a chwip, ei lygaid fel dau lygad ysgadenyn coch (yr hyn o'i gyfieithu yw "penog" coch), a'i holl gorph yn ysgwyd fel pendil cloc. Golygfa ddyeithriol oedd gweled Mocyn, druan, yn cael ei arwain gan ei ddau fachgen i fyned gyda'r excursion tua Chaerdydd! Fel peth coch i darw felly cot las yr heddeidwad i Mocyn. Can gynted ag y gwelodd y "policeman" wrth yr orsaf, dechreuodd dafodi ac enllibio gwas y gyfraith. Edrychai hwnw yn lleban digon llonydd, ac ni fynai aflonyddu dim ar Mocyn, druan, ond yn lle dofi llid y meddwyn gyrodd difaterwch y "policeman" ef yn fyrricach. Lluchiodd ei het i'r llawr a dechreuodd ymosod ar y cawr yn y got las.

Dyn bychan, eiddil, oedranus oedd Mocyn, a digon tawel pan yn sobr, ond wedi iddo yfed ychydig, yr oedd yn "addwbyn" parod. Byddai bob amser yn tuchan ac yn carthu gan asthma parhaus, ond o dan ddyllanwad Syr John Heidd-en, teimlai ei fod yn gryf o nerth ac ofnadwy mewn rhyfel. Yn y dymher hono yr ymosododd ar yr heddeidwad. Llawer gwaith y bu y llanciau yn y pentref yn herio Mocyn i ymladd pan fyddai wedi meddwi, ac yna yn cydio yn ei het ef ei hun, ac yn ei guro a hi hyd nes y byddai yn methu symud o ddiffyg anadl. Rhwng dau "boliceman" yr ymdeithiodd Morgan allan o'r orsaf i'r "lock-up," er fod ganddo docyn yn ei logell i fyned tua Chaerdydd.

Pan welodd ei anwyl briod, Pegi, ei gwr yn y ddalfa, rhoddodd ysgrech ddolefus, annaeorol, ond tawelodd yn bur fuan pan welodd ei fod yn ddyogel yn nwyllaw gwyr y gyfraith. Gwyddai yn dda ei fod yn fwy dyogel a didrafferth yno nag a fyddai yn nhref Caerdydd. Ond teimlai Pegi mai ei dyledswydd oedd ysgrechian fel y gwnaeth, o dan yr amgylchiadau.

Un lled ysmala oedd Pegi. Adroddir am dani ei bod un diwrnod yn cael pryd o gawl (potes) yn nhy cymydoges iddi, ac fod rhyw lanc wedi dwyn y newydd trist fod Mocyn wedi cyfarfod a damwain yn y gwaith, ac i Pegi ateb a dywedyd: "Aroswech dipyn bach nes bo fi wedi cwpla y cawl yma, ac wetyn fe roia i ysgrech nes bo'r ty yma'n shiglo."

Ar ol i Mocyn fyned i'w gell, nid hir y bu y dorf cyn'cymeryd eu heisteddleoedd. Gofalodd Shoni o'r Pant fel arfer am gael eistedd wrth y ffenestr. Yr oedd y golygydd ar y daith yn hanner y peth ganddo, ac nid oedd neb yn yr adran yr eisteddai ynddi mor hysbys yn enwau y lleoedd a'r rhyfeddodau a welid o Aberdar i Gaerdydd. Mewn gwirionedd, gwaith Shoni gydol y daith oedd esbonio pethau i'w gwmdethion llai gwybodus.

Teimlai Shoni yn falch o'r ragoriaeth hon. Yr oedd ganddo stoc neillduol ac anghyfnawid-iol o hanesion i'w hadrodd.

Wedi dod i dueddau Mountain Ash, dangosai balasdy Arglwydd Aberdar, ac yna y man lle lladdodd Bob Cae y dyn anffodus hwnw. Yn nghylch Abercynon a Chilfynydd, traethai yn benaf am y danchwa yn y lle olaf. Yn nhueddau Pontypridd, yr oedd mewn "clover" ys dywedai. Yr oedd yn rhaid rhoddi hanes y bont fwaog fawr dros y Taf, y "gareg shiglo" ar y comin, a llu o bethau ereill. Rhaid addef fod agos cymaint o ddychymyg ag oedd o wirionedd yn adroddiadau Shoni; ond nid oedd hynny o gymaint pwys, gan fod yr oll yn cael ei dderbyn yn hollol foddlon gan y cwmni.

Yn Trefforest, yr oedd y stori yn hynod ddydd-orol, oherwydd ystranciau rhyfeddol y diweddar Dr Price, y Derwydd hynod. Wrth gwrs, yr oedd Shoni yno y diwrnod y llosgwyd corph y doctor; a medrai ddywedyd yr oll o'r hanes a mwy yn ddiau.

Dylasid fod wedi nodi y digwyddiad dyddorol

F7605

gymerodd le yn Mhontypridd. Arosodd y tren am ychydig yno. Mynai William Davies, partner Shoni, fyned allan i brynu sigar, ac, efallai, i wlychu ei big yn ddirgelaidd. Yr oedd Shoni wedi ei rybuddio yn ddirifol o'i berygl os a'i allan, ond myned a fynai Wil. Cyn gyn- ted ag yr aeth allan, cauwyd a chlowyd y drws; chwibanodd y swyddog, a

"Chwibanodd y peiriant yn gryf ac yn groch,

Fel gwichiad soniarus pum' ugain o foch,"

a fwrdd a hwy tua Chaerdydd. Pan glywodd Wil hyn, allan ag ef, ond, yn rhy hwyr. Ceisiodd rithro at ddrws un o'r cerbydan, ond ovd- iwyd yn ei goler gan swyddog cryf. Tra yr oedd Wil druan yn y ddalfa, ar ol, gyda cigar rhwng ei fysedd, a'i wyneb yn gymysgu annar- luniadwy o siomedigaeth a gwylltineb, y cyfan welai oedd y tren yn myned heibio iddo yn gyflym, a phob ffenestr yn llawn o chwerrhinwyr iachus. Yn ben ar y cwbl yr oedd Wil wedi gadael ei het ar ol yn y tren. O'r fan hono i Gaerdydd, dau brif bwnc oedd gan Shoni i draethu arnynt, ac eithrio hanes Dr Price, sef y pwys o beidio myned allan o'r tren o gwbl, os byddis yn myned gydag "excursion," hyd nes cyrhaedd pen y daith, a'r ffolineb i fechgyn fyned a'u cariadon gydag "excursion."

Cydolygai y cwmini yn llawn gyda'r "Bachan o'r Pant" ar y pen cymtaf, oblegid nid oedd yno yr awdurdod cyffelyb iddo yn y mater. Gwyddai trwy brofiad beth oedd colli y tren, a chael ei adael yn ddigon unig mewn tref ddyeithr dros nos gan iddo adael y tren am ychydig eiliadau. Pwy fedrai wrthwynebu profiad felly?

Ar y pen arall, bu dadl frwd. Yn yr un ystafell a Shoni, yr oedd o leiaf un gwr ieuanc wedi dod a'i "wedjen" gydag ef, a chymerodd hono Shoni i fyny yn y modd mwyaf di-drugaeidd. Rhywbeth fel a ganlyn oedd y ddadl a fu rhyngddynt:—

Miss Spruce: Otich chi ddim yn cretu y gall bachgan enjoyio i hunan yn well gita'i wedjan nag wrtho'i hunan am ddwarnod fel hyn?

Shoni: Enjoyio yn wir! Pwy enjoyio all a os bydd rywun yn llusgo wrth i gwt a trw'r dydd?

Miss Spruce: Fi wn i beth sy'n ych trwplo chi ac yn gneud i chi wilia fel'na, rhen foy. Ffaelu cal neb i ddod gita chi, ontefa? A phwy ferch fysa yn dod gyda shwd sgrwbyn?

Shoni: Pwy ferch? Fe alswn gal hannar cant o nhw, dim ond wislan, ond 'dw i ddim yn cretu miwn talu costa plant dynion ereill.

Miss Spruce: Fe wyddwn i taw yn rhy fua i dau dros ferch ifanc eich chi, yr hen beth sw't. Fe fydd yn werth i'ch gwel'd chi yn Caerdydd nawr just, wrtho'ch chi'ch hunan, fel rhw "wandering jew." Fe fysa'n well gen i fyn'd gita dyn heb ddim crys ar i gefan na myn'd nag un mor stingy a chi.

Shoni: Rhai iawn i chi ferched am wilia; a rhai iawn i hala arian dynon erill hefyd; a phidwch chi meddwl y gallwch chi ddala hen dderyn gyda'ch gwyneba neis.

Ar hyn, trodd Shoni at gariad Miss Spruce, a gofynodd iddo yn syml faint o amser oedd er pan oeddnt yn gyfeillion mor hoff.

"Tua thair wythnos," meddai hnw yn ddi- gon diniwed.

"O'n ni'n meddwl wir," meddai Shoni, gan grechweni yn faleisus a chellweirus.

"Pa'm oich chi yn meddwl hyny," gofynai Miss Spruce, mewn llais dipyn yn uchel.

"Fi weta chi," meddai Shoni, dipyn yn ddi- frifol erbyn hyn. "I chi, y merched rina, yn lled glefar gwpl o wthinesa cyn pob 'excursion'."

"Beth i ni yn neyd mas o le i chi, gwetwch?"

F7606

holai Miss Spruce, a'i gwaed yn ei gwyneb erbyn hyn, fel pe buasai am gael cydio yn ngwar Shoni a'ruan. Ond yr oedd ein harwr wedi ei frathu gan yr ensyniad, mai yn rhy gybyddlyd i dalu yr oedd, ac atebodd yn hynod fuan:

"D'ych chi ddim yn gallu gwneyd dim i fi, ond fi weta chi beth i chi yn neyd i'r boys ifanc dibrofiad yma. I chi yn cofalu ca'l gafal yndi nhw gwpl o wthnosa o flau yr excursion, er mwyn iddo nhw ga'l talu am dicket i chi a'ch treto chi trw'r dydd, ac wed'yn, bant a nhw os cewch chi rywun mwy at y'ch tast."

Erbyn hyn, yr oedd v train yn Ngorsaf Caerdydd, a da iawn hyny, oblegid yr oedd Miss Spruce wedi cynddeiriogi at y Bachan o'r Pant.

Gallai llawer un fod yn barod i feio ein gwron am siarad mor bigog a Miss Spruce; ac felly, er mwyn ei enw da, y mae yn ddyledus arnom i esbonio ei ymddygiad y tro hwn. Nid ydym heb gofio fod rhai o'i elymion, ac yn neillduol teulu Miss Spruce wedi enllibio llawer arno yn herwydd y frae a nodwyd. Mynent ei fod wedi ymosod yn annheilwng o foneddwr ar ferch ieuanc yn nghwmni ei sponer, sef ei chariad. Dal-iwn ninnau na fu erioed anrhydeddusach gwr na Shoni o'r Pant.

Mewn adeg o gyfyngder, efe oedd y cyntaf a'i law yn ei logell, os byddai arian ynddi, ac os byddai yn wag yr un modd, o ran hyny. Os byddai eisieu cymwynas o ryw fath yn y byd, nid oedd yn Aberdar neb parotach na Shoni o'r Pant.

Ond sut y gellir esbonio ei ymddygiad at Miss Spruce y tro a nodwyd. Y mae yn ddigon rhwydd; a chredwn y byddwn trwy hyny yn dod a mwy o urddas v gwr enwog i'r golwg. Yn awr, beth bynag oedd Shoni, yr oedd yn drwmpyn o'r iawn rhyw. Nid oedd gwell trwmpyn na Shoni yn shir Forganwg. Hyny yw, yr oedd, fel y dywed y Sais, yn "jolly good fellow" bob modfedd ohono. Os byddai ganddo gyfaill, ni fyddai perygl iddo ei adael byth yn y ffas. Glynai wrtho drwy y tew a'r teneu, y tan a'r dwfr. Byddai yn well ganddo ei hun gael dyrnod neu gam nag i'w gyfaill gael dioddef. Gwariai y ddimai olaf, a chollai y dyferyn olaf o waed er mwyn helpu ei gyfaill.

Ond beth sydd a fyny hyny a Miss Spruce?

Wel, fel hyn. Yr oedd Dai Bach, y gof, a Shoni yn hen bartners am flynyddau. Lle roedd un roedd y llall. Mewn da neu ddrwg, yr oedd y ddau gyda'u gilydd. Un adeg, ryw flwyddyn neu ddwy cyn excursion Caerdydd, yr oedd Dai y Gof a Miss Spruce wedi dechreu caru tipyn. Fel digwyddodd pethau, yr oedd "excursion" yn myned i Borthcawl, yn mhen ryw ychydig wythnosau wedi iddym ddechreu caru, ac fel bachgen ffyddlon i'w gariad a thrwmpyn hefyd, aeth Dai a Miss Spruce gyda'u gilydd. Felly, bu raid i Shoni chwilio am gwmni arall, neu fyned ei hunan. Yr oedd Dai yn teimlo dros Shoni, a dywedodd hyny wrth ei gariad, Miss Spruce. Cynllunodd hi ffordd allan o'r trybini yn bur fuan, a chyflwynodd gyfeilles iddi i sylw Shoni. Derbyniwyd y trefniant. Am unwaith yn ei fywyd, wele Shoni yn cymeryd ei gariad gydag ef gyda'r tren.

Fel dau drwmpyn iawn, wrth gwrs, Dai a Shoni oedd yn codi y tocybau, yn talu am ginio a phethau cyffelyb. Heblaw hyn, yr oedd Miss Spruce a'i chyfeilles yn hynod hoif o edrych i ffenestri y shopiau, yn neillduol lle yr oedd addurniadau a gwisgoedd. Diwedd y peth oedd eu bod fwy nag unwaith yn myned i fewn i ofyn pris hyn a'r llall, ac yn dod, ac yn dyweyd wrth y bechgyn rywbeth fel hyn:

"Dafydd, dyna brooch pert, a dim ond hanner coron yw ei bris. Ma' fa yn siwr o fod yn un da." Neu,

F7607

"John, i chi'n lico'r ear-rings yna. Ma nhw yn gweyd taw doiswllt i nhw."

Diwedd y peth fu, yn naturiol i'r ddwy lances siriol, ddengar, gael aml i anrheg gan y llanciau anrhydeddus, a lloiaidd. Ond tua phedwar o'r gloch, digwyddodd peth chwerau iawn i brofiad Dai a Shoni. Ar ol iddynt fod yn gwario eu harian ar y ddwy hoeden drwy'r dydd, collasant hwy yn hollol ddisymwth.

Dealodd y merched nad oedd yn debygol y cawsent ychwaneg o anrhegion gan y ddau, sponer newydd, a dywedasant wrthynt am aros yn y lle a'r lle am ychydig, y deuent yn ol yn union. Arosodd Dai a Shoni yno am dros awr o amser; ond ni chawsant olwg ar eu cariadon anffyddlon, hyd nes cyrhaedd yr orsaf y noson hono i wneyd am gartref. A dyna lle yr oedd-ynt, a dau fachgen ieuanc hoew arall gyda hwy!

Nis gallodd Shoni anghofio y tro hwnw hyd ei fedd, a dyna oedd yn cyfrif am ei chwerau hynod pan yn siarad a Miss Spruce. Dyna hefyd, oedd yn peri iddi hithau deimlo mor anghyfforddus o dan y fflangell.

Fel y nodwyd, un siriol, llawen, oedd ein gwron fel rheol, ond taenai y cynylau dros ei wyneb pan feddyliai am drio Miss Spruce a'i chyfeilles arno ef a Dai Bach, y gof. Cofier hefyd, mai teimlo yn benaf yr oedd ef nid drosto ei hun, ond dros ei gyfaill, oblegid gwyddai fod Dai druan wedi pendroni ar swynion Miss Spruce, a'i fod o ddifrif, fel carwr, mewn canlyniad. Yr oedd Dai, hefyd, wedi bod yn caru am dair wythnos. Am Shoni, yr oedd ei galon ef yn ddigon iach a chyfan. Fodd bynag, nid peth rhwydd fyddai i unrhyw ferch ieuanc ar ol hyn allu perswadio Shoni i dalu ei thren a'i chostau gydag un "excursion."

Elai yn yfflon weithiau wrth feddwl am y nos-waith fythgofiadwy hono pan ddychwelodd Dai ac yntau yn ol i Aberdar heb eu cariadon, a hwythau wedi bod yn swagro cymaint wrth fyned y boreu hwnw. Onid oedd pawb yn eu poeni wrth ddod gartref? "B'le ma' dy wedjan di, Shoni?" meddai un ar ol y llall.

Dyna siarad y gwaith dranoeth yn y man lle gweithiai Shoni. Ac i wneyd pethau yn waeth, yr oedd Miss Spruce a'i chyfeilles wedi bod yn ddiwyd yn taenu argraphiad gwahanol o'r hanes, ac yn chwerau am benau y ddau ddiniwed gwrthoddig.

Tystiai fod arian Dai a Shoni wedi dafod, a'u bod yn gwrthod myned i weled y shows a'r wax-works, ac nid oedd modd cael bwyd gyda hwy, a llu o bethau disail ereill. Dyna yn syml yr esboniad ar eiriau pigcig Shoni a Miss Spruce.

Ond beth am Shoni yn Nghaerdydd? Pennod bwysig yn ei hanes yw hon. Awd i lawr y grisiau o'r platform yn Nghaerdydd. Yr oedd y lle yn orlawn o bobl. Brysiodd Shoni trwy eu canol, ac allan ag ef i lawr yr heol, hyd yn Queen-street. Gwelodd y tram-car yn dod.

Neidiodd tua 20 neu 30 o'r boys i fyny, a Shoni yn eu plith. Bloeddiodd y swyddog fod y lle yn llawn, a cheisiodd dynu Shoni i lawr. Gwyddai Shoni sut i barchu policeman, ond pwy oedd hwn? Cydiodd Shoni yn ngholer y swyddog, a bu yn bur ffyrnig rhyngddynt. Ar hyn, dyma ddau heddeiddiad o Saeson swrth yn mlaen, ac yn cydio yn ein harwr. Cauodd y dorf am darynt.

Yr oedd Shoni yn hoff ddyn gan foys Aberdar, ac ni fyndent er dim ei adael yn y ddalfa. Cydiai tri neu bedwar ohonynt yn yr heddeidd-waid, a bu yn ymdrech boeth am ychydig amser.

(I'w barhau.)

F7608

SHONI O'R PANT:

(UN O ENWOGION ABERDAR.)

PENNOD III.—YR EXCURSION ETO.

WELSOCH chwi erioed y bobl adeg excursion yn dod allan o'r train yn Nghaerdydd? Os naddo, y mae un o'r golygfeydd mwyaf dyddorol a rhamantus yn eich aros.

Nid yw gweled y Niagara, neu olwyn fawr Earl's Court, neu y Zoological Gardens, yn Llundain, neu ymladdfeydd tanllyd Gerddi Belle Vue, yn Manchester, yn ddim ati.

Pwy sydd ddigonol i'r gwaith o'i ddesgrifio? Y mae Jack Tar yn ddigon digrifol a bywiog pan gyrhaedda y lan wedi mordaith faith, ond nid yw i'w gymharu a Shoni Hoi a'i gyfeillion. A phwy allai feio yr un ohonynt, y morwr a'r glowr?

Ystyrier pa fodd y treulia y glowr ei ddyddiau. Cyfyd o flaen y wawr, a bydd yn nghrombil y ddaear wrth ei waith cyn bydd hanner y byd wedi troi yn ei wely. Yno, ddydd ar ol dydd, yn y tawch a'r mwrllwch a'r tywyllwch Aiphtaidd, yn nghanol myrdd o beryglon anweledig y treulia ei ddyddiau.

Yn ystod miscedd y gauaf, bydd yr haul wedi gostwng cyn i Shoni and Co. gael eu codi o'r dyfnderoedd lle y gweithiant, a'r canlyniad yw nad ydynt am lawer o fisoedd yn cael gweled goleuni haul o gwbl ag eithrio awr neu ddwy prydawn Sadwrn a thrwy dydd Sul.

Y glowr yn unig wyr ystyr y gair dydd Sul (Sun Day), oblegid dyna'r unig ddydd o'r wythnos am hydoedd y ca weled yr haul. Heblaw hyn y mae cylch bywyd y glowr yn hynod gyfyngedig yn ei oriau hamddenol. Ni thal iddo nemawr byth fyned y tuallan i gylich sain yr hooter.

Pa ryfedd fod Shoni, druan, yn hoff o excursion? A pha ryfedd ei fod yn ysgafn ei droed a'i galon pan yn cae diwrnod o ryddid perffaith? Dim gwaith, ac yn ddigon pell o glyw yr hooter drwy y dydd! O, ddiwrnod dedwydd, dedwydd, gwyn!

"Fire away, boys, dewch i ni gael ticiyn o sport heddi gyda'n giddyl."

Cofier nad yw boys Aberdar yn credu mewn teithio yn unoedd a deuoedd. Dim danger, wir! Myn'd yn llon'd hewl gyda'u gilydd fynant hwy a gwae i'r sawl a geisio wneyd cam ag un ohonynt.

Ond son yr oeddyr am yr olygfa wrth ddod o'r tren yn Nghaerdydd. Yma gwelir Dafydd Thomas, diacon parchus Elim, a Marged ei wraig ar ei fraich yn clynhercian goreu y gallant. Y mae y ddau yn dioddef yn erwin oddiwrth y rheumatic, ond ni fuasant yn dychymygu am aros gartref ar y fath ddiwrnod. Yn gwthio yn eu herbyn yn y dorff, wele Twm yr Hewlwr, yr hwn sydd eisoes wedi cael dyferyn yn ormod. Bu yn y Lion cyn dod o Aberdar, a gwelwyd ef fwy nag unwaith yn codi potel fechan at ei geg yn y tren.

Yn dyn ar sodlau Twm dacw Martha, ei wraig, a dau blentyn bychan. Y mae Martha yn bloeddio nerth ei llais, "Tomos, Tomos, cirshwch yn un o'r plant yma, newch chi. Hy, na naiff, yr hen ffwlbyn dwl."

Yr oedd yn amlwg fod Twm yn ceisio diane oddiar ffordd Martha a'r plant, er mwyn cael llonydd am y diwrnod. Ond, druan ohono, methu wnaeth y tro hwn.

Edrychwech acw, mor ddymunol yw yr olwg ar Dafydd Hywel, a'i wraig, a'i blant. Y mae Dafydd yn ddirwestwr cyson, selog, ac yn meddwl y byd o "Polly ni," chwedl yntau.

F7609

Y mae pob un ohonynt yn ei "ddillad dydd Sul," a rhai ohonynt wedi cael esgidian a dillad newydd. Y mae yn rhaid i Dafydd a Polly aros ychydig i drefnu pethau cyn cychwyn i'r dref. Gofala Polly am y babi chwe' mis oed, wrth gwrs; dacw Dafydd Hywel ei hun yn cario Caradog James, llencyn trwm, cryf, teir-blwydd oed, fedrai gerdded yn iawn ei hun. Am y trefniadau ereill, mynegwyd hwy fel y canlyn yn derynol gan Dafydd ei hun, er fod Polly yn taflu llawer gair i fewn: "Nawr, John Llewelyn, citsha di yn law dy war fach, a phaid a'i gillwng hi, cofia di; Dora Myfanwy, citsha di yn fast yn llaw John Llewelyn, a dewch y'ch doi gyta ni, ne i chi yn siwr o fyn'd i golli."

Edrychai y plant yn synllyd ddigon a glynent yn dyn yn eu gilydd ac wrth eu rhieni.

Yn y fan acw wele ddau fach dlws, yn edrych dipyn yn swil ar eu gilydd. Carwyr ydynt, y maent yn hoff iawn o'u gilydd er's llawer dydd bellach, ond dyma'r tro cyntaf iddynt wneyd math o broffes gyhoeddus o hyn. Edrychent braidd yn swil, er fod yn hawdd canfod fod y ddau yn ymdangos dipyn yn falch o'u cyflwr. Yr oedd Edward yn cario sunshade Miss Lewis, tra yn ei llaw hithau yr oedd satchel fechan gafodd gan Edward yn anrheg erbyn yr excursion.

Ond pwy all ddesgrifio yr olygfa? Onid oedd pob unigolyn yn gyfrol o ddyddorion? Wrth eu gweled yn gwau trwy eu gilydd, yn bloeddio y naill ar y llall, yn holi eu gilydd am y ffordd i'r farchnad a'r exhibition, yn gwthio, yn llusgo, ac yn tuchan, y gwagedd gan mwyaf yn llawn helynt gyda'r plant, gyda'r umbrellas, a gyda'r basgedi bychain a bwyd oedd ganddynt; anhawdd gwybod i ba beth y gellid eu cymharu: i forgrug mewn twmpath, i gyndron mewn caws, i wenyn mewn cwch, ynte i beth?

O, bu bron i ni anghofio son am y saloon carriage, a'i gynnwys. Wedi i'r dorffyned allan, gan mwyaf, dacw'r urddasolion yn gwneyd eu hymddangosiad. Ni fyddai yr excursion yn gyflawn heb wyr y saloon. Yr oedd Mr Rollins, y manager, chwareu teg iddo, yn gwneyd pwynt o fyned gyda'i weithwyr i'r excursion; a phwy oedd gyda ef ond Mrs Rollins a Miss Rollins; Edward Hughes a William Williams, y ddau gaffer, dau neu dri o firemen; Sam, mishtir halliars; Mr Brown, y cashier, a rhai o'r clerod, a'r Parch J. Cynon Jones, gweinidog y Capel Isha.

Ond sut cafodd y gweinidog fyned i'r saloon? Wel, aelod yn Capel Isha yw Mr Brown, y cashier; ac heblaw hyny yr oedd Mr Cynon Jones yn hynod boblogaidd gyda'r gweithwyr. Yr oedd yn fachgen llathraidd, llawen, doniol ac yn hoff o gwmi boys Aberdar. Fel ar weinydd Eisteddfod, nid oedd ei gyffelyb yn y cwm.

Hefyd, hen lwynog ysmala oedd Mr Jones. Edrychai yn mlaen at yr excursion gyda chymaint o hwyl a Shoni o'r Pant ei hun. Tystiai yn awr ac eilwaith, wrth ei gyfeillion mynwesol, nad oedd concert na chymanfa ychwaith yn ddim at excursion. Mewn gair, llawer o wag oedd Mr Cynon Jones. A chofier, er cymaint oedd yn nghwmni y gweithwyr ni chlywid un ohonynt byth yn cyfeirio ato ond fel Mr Jones. Nid oedd berygl i neb ddod yn rhy agos ato er mor galon-agored ydoedd.

Rhoddwyd "three cheers" i Mr, Mrs, a Miss Rollins, ac yna i Mr Cynon Jones, bob un ar ei ben ei hun; yna "Three cheers" i'r gaffers a'r clerod. Bloeddiat pob un ei oreu, oddiwrth y baban ar y fron at Dafydd Thomas a Marged, druan, er gwaethaf y rheumatic; chwifai y gwyr eu ffyn, y gwagedd eu umbrellas, y llanciau eu capiau, a'r llancesi teg eu cadachau gwynion.

F7610

Ar hyn y gwnawd y rhuthr a nodwyd yn y bannod flaenorol am y tram-car. Ceisiodd Shoni o'r Pant fyned i'r tram gydag ereill, fel y dangoswyd eisoes, a'r canlyniad fu i'r ddau heddeidwad gymeryd at ei gorpws. Cyn pen eiliad yr oedd dau wr y gyfraith ar eu hyd ar lawr. Gwingai Shoni am gael rhyddid o'u crafangau. Fel ergyd mellen yr oedd dwsin neu ugain o'r bechgyn glanaf yn gwasgu ar gymalau y ddau Sais. Daew Shoni yn rhydd, ac yn rhedeg i ganol y dorfi i guddio. Can gynted y cafodd yr heddeidwaid hwl glir i ffwrdd a hwy gan floeddio am help a chwythu yn y chwibanogl hyny fedrent.

Gyda hyn, dyma Mr Cynon Jones i'r lle, wedi holi gair neu ddau deallodd sefyllfa pethau i'r dim. "Fechgyn," meddai. "Un gair bach. Peidied neb ohonoch a siarad gair o Saesneg pan ddaw yr heddeidwaid yn ol. Cofiwch. Siaradwch faint fynoch o Gymraeg. Peth arall, peidied un ohonoch a symud o'r fan yma am beth amser."

Gyda hyn, daeth dau neu dri at Mr Jones, gan ddywedyd, "Ma'n well i ni gwatto Shoni o'r Pant, syr; ac ma' nhw yn siwr o'i bico fa ma's. Ma nhw wedi rappo'i got a yn ddoi bishyn."

"Gadewch ohwi John Thomas i fi," atebai Mr Jones, ac i ffwrdd ag ef at Shoni. Gwelodd yr olwg resynus oedd ar ein harwr, yr hwn oedd yn crynu bob modfedd ohono.

Yr oedd gan Mr Cynon Jones got uchaf ysgafn ar ei fraich.

"Gwisgwch y got yma, John," meddai, "ac ewch i'r Coffee Tavern yma, a dywedwch wrtho Mr a Mrs Williams mai fi sydd wedi eich danfon, a bydd pobpeth yn iaiwn. Rhai o Aberdar ydy' nhw."

Aeth Shoni i fewn i'r Coffee Tavern. Dywedodd ei lelynt, a dywedodd mai Mr Cynon Jones a'i danfonodd. Cafodd ymolchi. Gosododd Mrs Williams goler lan am ei wddf, a glanhodd ei ddillad, a dechreuodd yntau deimio yn fwy tawel a chartrefol yno.

Yn y cyfamser, daeth y ddau heddeidwad yn ol gyda mintai o ddeg neu ddoudeg ereill gyda hwy, yn cael eu blaenori gan y rhingyll. Dechreuodd y serjeant holi yn awdurdodol, a gwthiai y rhai oedd gydag ef trwy y bobl, fel pe i chwilio am rywun, ond Cymraeg a dim ond Cymraeg oedd yn disgyn ar eu clustiau. Edrychai y serjeant yn lloiaidd ac yn ddigofus bob yn ail.

"Where is that drunken fellow?" meddai yn awdurdodol.

"Beth mas a'n weyd, boys?" oedd yr atebiad.

Yno y buwyd am beth amser; y bobl yn siarad ac yn bloeddio ar eu gilydd yn Gymraeg, ac yn gwneyd gwawd direidus o wyr y cwtiau gleision mewn iaith anhysbys iddynt, a'r olaf yn edrych ar y dorfi yn ddirmygus a bygythiol.

Na; yr oedd yno un heddeidwad tal, hardd yr olwg, oedd fel pe yn chwertlin yn ei lawes gydol y twrw. Yr oedd Mr Cynon Jones wedi sylwi arno er's tro. Nid oedd mor arw a'r lleill pan yn gweithio ei ffordd trwy y dorfi. Craffai hytrach yn fanwl hefyd ar hwn ac ar y llall, ond ni ynganai nemawr i air. Beth oedd yn cyfrif am hyn, tybed?

Ar hyn, aeth Mr Cynon Jones a Mr Rollins yn mlaen at y serjeant i esbonio pethau, ond ni fynai y gwr mawr hwnw ei lonyddu ar ychydig. Holwyd y rhai a welsant y ffwrdd, a thystiai pawb fod "Shoni o'r Pant" mor sobor a'r judge," ac mai ar y driver a'r ddau heddeidwad yr oedd y bai i gyd. Gofalau Mr Jones mai yn Gymraeg yr oedd y tystion yn siarad, ac, wrth gwrs, gofalau pa fodd i osod pethau yn gywir o flaen y serjeant siomedig a digllon.

"But where is the fellow?" meddai y swyddog. "Gwyddoch chiwi, fechgyn, pa le mae John Thomas?" gofynai Mr Jones.

"Na wyddon ni, yn wir, Mr Jones, fe aeth o'r golwg fel yspryd i rywle."

"Y maent yn dyweyd," ebai Cynon Jones, wrth y gwr glas, "nas gwyddant pa le y mae y dyn."

Ar hyn, trodd y serjeant ymaith, ac wle yr heddeidwad tal hwnaw yn dod at ochr Mr Jones, ac yn sibrd yn ei glust, "Cynon, wyt ti ddim yn fy nabod i, fachan?"

Agorodd Mr Jones ei lygaid, ac edrychodd dros y ddwyliath oedd o'i flaen o goryn ei het hyd flaen ei esgid. O'r diwedd, meddai, gyda syndod: "Wal, Ned, o b'le dethot ti yma?"

Bu rhaid tori y stori yn fyr iawn. Swm yr oll oedd fod Ned, y policeman tal, ei hun yn un o feys Aberdar,—yr oedd yn gefnder i Mr Cynon Jones. Gadawodd y lofa rai blynyddau cyn hynny, teithiodd yn Affrica, a daeth yn ol, a chymerodd swydd heddeidwad yn heddlu Caerdydd. Profodd awyr iach Affrica a'r gwaith ysgafu yn Nghaerdydd yn fwy llesol i'w iechyd na'r llwch a'r tawch yn y lofa. Yr oedd Ned, fel ei gefnder, yn llawn direidi a donioldeb, a thysiodd ganwaith wed'yn iddo gael hwyf anarferol y boreu hwn wrth syllu ar wynebau ei hen gyfeillion o Aberdar, ac yn neillduol wrth eu clywed oll yn pallu siarad Saesneg.

Rheswm da oedd ganddo dros dori ei stori yn fyr. Yr adeg hono, rhuthrai y dorf yn sydyn i un cyfeiriad. Wrth eu bod ill dan yn tori trwy y bobl gyda'u gilydd, ebai Ned yn nghlust Mr Jones:

"Bachan, ma' nhw wedi i ddalafu. Taw ni marw, 'rhen Shoni o'r Pant yw a. Paid di son, Cynon, bo fi yn gwbod Cynurag, ne fe fydd y serjeant yma yn gneyd lle twynn i fi."

Ie, yn wir, dyna oedd wedi digwydd. "Shoni o'r Pant," druan, oedd yn y ddalfa, a'r handcuffs am ei ddwyllaw, a chot lwyd Mr Cynon Jones am ei gefn. Yr oedd yn ffodus fod Mr Jones yno ar y pryd, oblegid amlwg oedd fod cyfeillion Shoni wedi chwewi trwyddynt, a gwelid arwyddion eu bod yn meddwl gwneyd ymraie arall i'w ryddhau.

"Hold on, iechgyn," meddai, "byddwch yn lloyydd yn awr, fe fydd John yn eithaf rhydd yn mhen ychydig amser."

Gyda hyn, trodd at y serjeant, a gofysodd iddo beth ddrisialai wneud a'i garcharor.

"Myned ag ef i'r llys yn union," atebai y swyddog. "Y mae'r ymadon yn eistedd yn awr."

"Da iawn," meddai Cynon Jones, "byddwn yno mewn pryd i'ch cyfarfod."

Ond sut y daethpwyd i wybod fod Shoni, druan, wedi dianc i'r Coffee Tavern? Dyna'r cwestiwn oedd yn ddyrsu pob un. Barnai rhai mai rhyw detective mewn dillad plaen oedd yn nghanol y dorf yn ei wylid. Tadogai ereill y darganfyddiad i fedr a chyfrwysdra yr heddeidwad. Yr oedd pob un a'i opiniwn ei hun ar y dirgelwch. Yn mhen ychydig amser, fe gafwyd allan yr esboniad cywir. Pwy oedd wrth y drws pan redodd Shoni i'r Coffee Tavern ond Miss Spruce. Yr oedd wedi Hawenhau wrth weled Shoni, druan, yn ngafaelion y ddau heddeidwad ar lawr. Ni allai fadden iddo am yr hyn a ddywedodd wrthi yn y tren. Siomodd ar y cyntaf wrth ei weled yn dianc, ac achubodd y cyfle cyntaf i ddyweyd wrth un o'r fintai heddeidwad, yn mha le yr oedd Shoni yn ymguddio. Rhedodd yr heddeidwad yn syth i'r Coffee Tavern. Chwiliodd yr ystafell-oedd bwyta heb weled neb, yna aeth i'r gegin. Yr oedd Shoni, fel y nodwyd, wedi dechreu tawelu, ond pan welodd y gwr a'r gob las,

gwnaeth naid am y drws, ond yn rhy ddiweddar. Mewn sillad, yr oedd yn y ddalfa, a'r haiarn am ei arddyrnau. Po buasai yn ddigon call i fod yn ddistaw ac yn llonydd, ni fuasai y policeman yn meddwl mai efe oedd y ffoadur, gan gymaint y cyfnewidiad oedd ynddo, cydrhwng coler Mr Williams a chot Mr Cynon Jones.

Fodd bynnag, gellir dyweyd mai gwaith Miss Spruce oedd gosod Shoni yn y ddalfa, y bore hwnw. Chwareu teg hefyd i Twm Llewelyn, y gwr ieuanc oedd yn nghwmni y ferch ieuanc hon. Can gynted ag y deallodd mai hi oedd wedi bradychu Shoni i ddwyllaw ei clyniou, anarhodd hi yn y geiriau canlynol:—"Tyrncot oedd dy dad, a thyrncot wyt ti hâu. Cer obothdy dy fusnes, neu di. Ddewa i ddim cam pellach gyda ti." Gyda'r geiriau hyn gadawyd Miss Spruce yn unig, ac aeth Twm i wneyd ei oreu gyda'r boys ereill i gael Shoni yn rhydd.

Cytunai pawb fod Shoni wedi cael cam creulon, ac nad oedd amser i'w gollu er mwyn sicrhau chwareu teg iddo yn y praf.

"Do's dim piwrach bachan yn Ngwm 'Berdar na Shoni o'r Pant," meddai un.

"Shoni!" meddai un arall, "fysa Shoni ddim yn gneud drwg i'w anan, heb son am i ddyn."

"Nawr boys," meddai y trydydd, oedd ychydig yn fwy ymarferol na'r lleill, "os yw Shoni i galwara teg, rhaid i ni gal cyfrithwr iddo fa, ag w i yn cinig bod ni yn gneud casgliad nawr."

"Right you are; dyna fe, bachan. Cer di a dy het rownc, Wil," meddai Jim y Cantwr.

Nid oedd eisieu eilio, a chefnogi, a siarad ychwaneg. Yr oedd tair neu bedair o hetiau yn cael eu dwyn oddiamgylch ar unwaith. Clywid tinc iach yr arian gwynion yn disgyn iddynt. Nid rhyw gasgliad coch, trwm, fel casgliad cwrdd mawr, lle ceir y pres cochion yn gwrido dros y sawl fu yn eu tallu yn llechwraidd i'r blwch, oedd yno; ond casgliad o dros bum' punt a hwnw yn w'n i gyd.

"Nawr, boys," meddai yr un gwr ymarferol eto, "w i yn cinig y'n bod ni yn gofyn i Mr Jones, y gweinidog, fyn'd i wilo am gyfreithwr, a bod Sam, Mishtir Haliars, i fyn'd gita fa."

"Right you are; dyna fe bachan. Flamws. Fire away, boys," atebai Jim y Cantwr. "Cofiwch chi raid i ni gael y cyfreithwr gora yn Cardydd at y job hyn."

Cytlwynwyd yr arian i Mr Cynon Jones, yr hwn, gyda y Sam a nodwyd, a aeth i weled Mr Rollins, a Mr Brown. Barnai yn ddoeth ymgynghori a hwy cyn myned gam yn mhellach. Teimlent oll yn selog ar y mater. Talfodd Mr Rollins sofron i'r drysorfa, a chafwyd ychwaneg gan y swyddogion ereill. Cyfeiriodd Mr Rollins hwy at gyfreithwr o allu a medr, yr hwn oedd gyfaill iddo ef.

Ar ol hyn aeth Mr Brown, Sam, Mishtir Haliars, a Mr Cynon Jones, yn syth i swyddfa Mr Trevor, y cyfreithwr. Yr oeddynt wedi gofalu yn mlaen llaw i ofyn gan nifer o dystion oedd ganddynt beidio myned yn mhell. Yr oedd yr holl ffeithiau ar flaenau bysedd Mr Trevor, cyn pen ychydig amser. Gyda llaw, bachgen o Aberdar oedd Mr Trevor hefyd, ond ei fod yn Nghaerdydd er's llawer blwyddyn bellach, heblaw hyny, efe oedd cyfreithwr y cwmni, o dan ba un y gweithiai gwyr yr excursion, y rhan fwyaf i gyd. Yr oedd y gorchwyl fally wrth fodd ei galon.

"Diwrnod difrifol fydd hwn i Shoni druan," meddai Mr Trevor, "os na allwn ei gael yn rhydd, ond gwawn ein goreu."

"Ie, yn wir, Mr Trevor," atebai Cynon Jones "ac i minnau hefyd, oblegid fy nghot i sydd am John druan."

"Eich cot cŵi, Mr Jones, sut hyny?" holai y cyfreithwr.

F7613

Adroddwyd yr hanes, ac edrychodd Mr Trefor yn lled ddifrifol gan ddywedyd: "Gobeithio, Mr Jones, na chewch chwí eich cyhuddo o gynnorthwyo y carcharor. Buasai yn gyhuddiad difrifol yn eich erbyn."

Gwelwodd yr efengylwr ac edrychodd yn syn am enyd. "Yna," meddai o'r diwedd, "Na feindiwch, daw pobpeth yn iawn, cewch weled."

Yr oedd yn hanner awr wedi deg, ac yn amser i'r llys agor. Dylifai cannoedd yno gyda'u gilydd nes llanw y lle. Methai swyddogion y llys ddeall beth oedd yn bod. Wedi aros ychydig galwyd achos Shoni o'r Pant yn mlaen.

"John Thomas, charged with being drunk and assaulting the police," ebai clerc y llys.

Safai y "Bachan o'r Pant" yn grynedig a gwelw, gydag heddeidwad cryf wrth ei ochr—neb llai na Ned, ceinder Cynon Jones. Wrth ddod i fyny o'r gell ag ef, sibrydodd Ned air o Gymraeg yn nghlust Shoni. "Shoni," meddai, "wyt ti ddim yn cofio Ned bach o'r Waen, mab Thomas Lloyd?"

Bu agos i Shoni lefain allan gan lawenydd pan glywodd y Gymraeg yn dyfod allan mor gynhes o enau yr heddeidwad.

"Napod a! own gydy 'i yn wir. Bachan ond bu a yn dryso gita fi yn yr heading gwinws, pan own i yn hela Bowler."

"Wel, fi yw hwnw," meddai Lloyd, yr heddeidwad, yr hwn yn mhellach a anerchodd Shoni fel hyn: "Rhaid i ni beidio wilia racor nawr. Cwna dy galon, fe ddewi yn rhydd i wala os nad w i yn camsynad. A chofia hyn, Shoni, paid ti a wilia gair o Saesneg yn y court. Wilia di Gymrag ag fe fydd pobpeth yn all right."

Cododd hyn lawer ar galon Shoni, eto i gyd edrychai, ys dywedai Sam, "fel scythan wedi ei saethu."

Gyda bod y prawf yn dechreu, cododd Mr Trefor ar ei draed, a dywedodd ei fod ef yno yn amddiffyn y carcharor.

Synodd Shoni pan glywodd hyn, ac nis gallai ddeall y peth. Synodd y sergeant hefyd, a gwelwodd ef a'r heddeidwaid o dystion oedd ganddo.

Dacw y sergeant yn ymaflyd yn y Beibl, ac yn cymeryd ei lw, ac yn dechreu rhoddi ei dystiolaeth. Yr oedd yr ystafell yn orlawn, ac yn y rhengau blaenaf yr oedd Mr Cynon Jones, a swyddogion y gwaith, a phrif ffryndiau Shoni. Yn nes yn ol yr oedd y gwragedd a'r plant. Gellid clywed curiadau calon pob un bron: yr oedd pawb ar flaenau eu traed, a phawb yn dal eu hanadl, ac yn clustfeinio, er cael clywed tystiolaeth y sergeant yn erbyn Shoni.

(I'w barhau.)

F7614

(delwedd F7614) (17 Mawrth 1900)

SHONI O'R PANT:

(UN O ENWOGION ABERDAR.)

PENNOD IV.—HELYNT YR HEDDLYS.

WEL, sergeant, beth sydd genych i'w ddyweyd yn yr achos hwn, ebai y llys.

"Daeth dau heddeidwad ataf boreu heddyw, syr," meddai, "gan fy hysbysu fod dyn meddw ac afreolus wedi ymosod arnynt yn ddiachos, ac wedi iddynt gydio ynddo, fod nifer fawr o wyr ieuainc wedi ymosod arnynt, gan ryddhau y carcharor o'u gafaelion. Brysiais yno gyda mintai o swyddogion ereill, a llwyddasom i gael o hyd i'r carcharor, yr hwn oedd yn cuddio mewn Coffee Tavern cyfagos."

Wedi hyn cymerodd Mr Trevor y sergeant mewn llaw, a chroesholodd ef yn fanwl, er mawr ddiifyrwyd y llys, ac yn wir, dechreuodd Shoni ei hun loni tipyn, yr adeg hono hefyd.

Mewn atebiad i ofynnadau Mr Trevor cyfaddefodd y sergeant nad oedd efe wedi gweld y carcharor, hyd nes ei weled a'r handcuffs am ei ddwylaw; fod Shoni wedi actio yn hollol dawel a boneddigaidd, ac nad oedd wedi cynnyg cilio, yn ei olwg ef. Bu raid iddo tystio hefyd fod y carcharor yn edrych yn lan ac yn daclus pan ddaliwyd ef, ac nad oedd arwyddion diod arno, yr adeg hono.

Yn nesaf, galwyd y ddau heddeidwaid, fu yn yr helbul yn mlaen, un ar ol y llall, i adrodd eu stori hwythau. Ceisiodd un ohonynt osod lliw go gryf ar yr hanes, er mwyn dwyn cosp ar y carcharor, ac er mwyn eu cyfiawnhau hwy eu hunain yn y fargen. Ond, er eu gofid, gwelent nad oedd modd profi fod Shoni wedi meddwi.

Cafwyd cryn hwyl gan un o'r tystion hyn o dan groesholiad Mr Trevor; oblegid datganodd yr heddeidwaid nas gallai fyned ar ei lw mai Shoni oedd y gwr fu yn ymosod arno. Yr oedd y cyfnewidiad yn ngwisg y carcharor wedi drysu y tyst, ac nis gallai fod yn sicr mai y creadur gwelw, tawel, oedd o flaen y llys oedd y gwr ffyrnig oedd yn ngafael a cholera y driver ar y tram, y boreu hwnw.

Rhywfodd nid oeddys wedi sicrhau y llanc hwnw fel tyst, ac, felly, gwanychwyd yr achos yn erbyn y bachan o'r Pant, yn fawr iawn.

Wedi gwrando ar y tystion oedd yn erbyn y carcharor, cododd Mr Trevor ar ei draed ac anercodd y llys, yn ffafr y cyhuddedig. Rhoddodd fraslun o'i amddiffyniad mewn byr eiriau. Yr oedd swm ei araeth rywbeth fel y canlyn:—
"Yr wyf yn teimlo, syr, nad oes eisieu i mi i ddyweyd ond ychydig iawn o eiriau. Y mae yn hollol glir fod y cyhuddiadau difrifol a niweidiol, a ddygwyd yma heddyw yn erbyn y carcharor, wedi i'r syrthio i'r llawr bob un, a'u bod yn hollol ddisail. Dyma gyhuddiad ei fod yn feddw heb un math o dystiolaeth gadarnhaol! Cyhuddir ef o ymosod ar yr heddeidwaid, ac nid oes un ohonynt yn sicr mai y gwr sydd ger eich bron yn awr yw yr hwn a welsant gerllaw y tram boreu heddyw! Y mae y fath beth yn chwethinllyd i'r pen, eich anrhydedd, oni buasai am y ffaith fod cymeriad y boneddwr sydd ger eich bron yn y glorian. Dyma foneddwr parchus, nad oes gan un dyn air i'w ddyweyd am dano, ar ei brawf am feddwod ac ymosodiad creulawn ar ddau o swyddogion heddlu tref Caerdydd! Y syniad, eich mawrhydi, fod gwr eiddil, gwanllyd yr olwg, fel y cyhuddedig wedi ymosod ar ddau swyddog cryf fel y ddau dyst fu ger eich bron!! Os yw eich mawrhydi yn barnu fod yn ddoeth myned a'r achos yn mlaen yn mhellach, bydd genyf tua phedwar ar ugain o dystion i'w galw i ddwyn tystiolaeth ger eich

F7615

bron. Yn eu plith y mae gweinidog yr efengyl all dystiolaethu fod y cyhuddedig yn ddirwestwr selog a ffyddlon. Ie, eich mawrhydi, yn llwyr-ymwrthodwr oddiwrth bethau meddwol! Y mae genyf hefyd i alw swyddogion y gwaith lle y gweithia y cyhuddedig, yn ogystal a lluaws o gymydogion y cyhuddedig, y rhai, eich mawrhydi, oeddynt yn dystion o'r hyn gymerodd le heddyw bore. Ond pe cymerai y fainc fy nghyngor i, buasech yn taffu yr achos allan, ac yn rhyddhau y cyhuddedig ar unwaith; oblegid o fewn fy holl brofiad, ni chefais achos mor ddi-sail yn cael ei gyflwyno i sylw y llys. Caraswn gael gwybod dymuniad eich amrhydedd yn y mater, oblegid yr wyf yn berffaith barod i fyned yn mlaen a'r achos."

"Mr Trefor," ebai y prif ynad, "nid ydym yn tybio fod eisieu i chwi fyned i'r drafferth o alw eich tystion. Y mae yn amlwg fod yna ryw gamsyniad dybryd yn rhywle. Y mae yn ddrwg genym fod Mr John Thomas wedi ei osod i'r drafferth a'r gofid o ymddangos ger ein bron yma heddyw. Ond, y mae yn gadael y llys heb ysmotyn ar ei gymeriad. Eto i gyd, carem i'r cyhoedd gofio fod gan yr heddeidwaid waith pwysig i'w gyflawni, a'u bod yn hawlio pob help tra yn ymdrechu cadw yr heddwch. John Thomas, yr ydych yn rhydd."

Ar hyn clywid bonllef ar ol bonllef, y fath ni chlybuwyd o'r blaen, yn llanw y llys. "Three cheers" i Mr Trefor, boys; "three cheers i Shoni o'r Pant, eto, boys," &c. Ceisiodd swyddogion y llys eu goreu i gael distawrwydd er cael myned yn mlaen a'r achos nesaf, ond yn gwbl ofer; yr oedd un "Hwre" yn canlyn y llall, nes bod yr holl neuadd yn diaspedain.

Bu rhaid gohirio gwaith y gyfraith hyd nes i bob copa walltog o foy's Aberdar fyned allan, ac yn wir am beth amser wedi hyny, oblegid bloeddio "hwre" yr oeddynt yn ddi-daw ar ganol yr heol. Bu rhaid attal llawer o gerbydau, ac nis gallai y dyeithriaid ddychymygu beth oedd yn bod.

Yr oedd yn wledd i glywed y bechgyn yma yn ail fyned trwy y treial. Yr oedd Mr Trefor wedi myned yn arwr di-ail gan bob un ohonynt. "Bachan," meddai un, "dyna'u mishtir nhw yw Mr Trefor." Ebai un arall: "Clywast ti a yn caudad pen y bobby mawr yna? Bachan, odd a wedi myn'd yn fud right."

"B'le ma' Shoni?" gofynai un.

"Pwy Shoni?" meddai un arall.

"Wel, am Shoni o'r Pant, wth gwrs; b'le mae a?"

"Dyco fe, gita Sam, Mishtir Haliar," llefai dau neu dri, "gadewch i ni gario fa trwy'r dre' boys."

"Right you are, fire away boys," meddai Jim y Cantwr, a dacw ddeg neu ddeuddeg o fechgyn cryfion yn cydio gafael yn Shoni gan ei godi ar eu hysgwyddau, a'i gludo fel buddugoliaethwr, trwy rai o brif strydoedd Caerdydd. Nid oeddynt wedi cyrhaeddyd Duke-street, cyn i'r rhai o'r merched eu dal, gan orfodi iddynt aros am ychydig a gosod Shoni ar lawr. Cyn pen pum' mynyd yr oedd ein harwr yn rhubanau drasto i gyd; a golygfa werth ei gweled oedd hono, pan oedd tua hanner dwsin o ferched a gwragedd ieuainc yn addurno Shoni!

Edrychai yntau mor falch a thywysog yn eu plith. I fyny a'r arwr eto ar ysgwyddau ei gyfeillion, ac i ffwrdd a'r orymdaith dan ganu a bloeddio. Weithian, cenid darnau o "Ym-daith Gwyr Harlech," yna y "Marselleise," ac ar ol hyny, "See the Conquering Hero Comes." Yr oedd yr olaf yn hynod effeithiol. A chofier, fe fedr glowyr Aberdar ganu. Onid yno yr oedd Cor Caradog, a Chor Gwilym Cynon ar ol hyny? Ac os oedd pob tafod yn pallu siarad dim ond Cymraeg yn y boreu, gyda'r serjeant hwnw, yr

F7616

oeddynt yn canu yn yr iaith fain mor rhigl a Sims Reeves, tra yr oeddynt yn cario Shoni i fyny trwy Queen-street, ac at yr exhibition.

Daeth Mr Cynon Jones i'r golwg gyda Sam Mishdir Haliars, pan yr oedd Shoni a'i geffylau yn cyrhaedd y parc, lle y cynnelid yr arddangosfa fawr. I lawr a Shoni. Casglwyd cynghor i wrando beth oedd gan Mr Jones i dweyd wrthynt. Ond gyda fod y gweinidog yn gweled Shoni, dechreuodd chwertthin; a chwertthin wnaeth, heb aflu atta¹ am hir amser, chwertthinwr heb ei fath oedd Cynon Jones unwaith y dechreuai, ac yr oedd wedi ymollwng iddi y tro hwn. Yn fuan, unodd Shoni i chwertthin gydag ef, ac unodd ereill yn ogystal, nes yr oedd wedi myned yn ddifrifol ar rai ohonynt cyn y diwedd.

Ond darfu ffit chwertthin, ac erbyn cael allan yr achos, dyna ydoedd: gweled y rhubanau amryliw yn addurno cot y pregethwr, am gefn Shoni. Pan ddecalodd y bechgyn awd i holi am got y Bachan o'r Pant. Danfonwyd un i'w chyrchu i'r Coffee Tavern, at Mr Williams. Ond yr oedd y dilledyn yn ddarnau, a gwelwyd nad oedd yn werth ei chymeryd oddiyno. Mynegwyd cyfwr pethau i'r cwmi. Erbyn hyn, yr oedd Mr Jones a Sam yn rhoddi mynegiad am yr arian a ymddiriedwyd iddynt. Rywbeth fel y canlyn oedd anerchiad Cynon Jones:—
"Wel, fechgyn, yr ydym wedi dod trwy bethau yn bur lwyddiannus heddyw. Y mae yn dda genyf weled John Thomas yn rhydd gyda ni eto, ond ychydig feddyliais cyn dod oddicartref y buasai fy nghot i yn cael gweled y tufewn i un o cels llys Caerdydd, ac yn neillduol y cawsai ei haddurno yn y fath fodd ag y gwelir hi yn awr (hear, hear). Wel, am yr arian bellach ynte. Fe gafodd Samuel a minnau bum' punt a choron gyd chwi boreu heddyw. Yn ychwanegol at hyny, rhoddodd Mr Rollins sofran i ni (uchel gymeradwyaeth): Ar ol hyny, fe gawsom gryn dipyn gan Mr Brown a'r swyddogion ereill, fel y mae yr oll a ddertyniwyd tua wyth bunt a chweigan (uchel a maith gymeradwyaeth).

"Hold on, Mr Jones; wara tag, boys," bloeddiai Sam Mishdir Haliars. "Dyw Mr Jones ddim wedi gweud wrtho chi fed e i hunan wedi roi wigan" (three cheers i Mr Jones, boys).

"Gadewch i mi orphen y mynegiad fech--n. Dyna ni wedi derbyn wyth punt a chweigain, ac y mae yn dda genyf eich hysbysu fod Mr Trevor wedi actio fel boneddwr gyda ni heddyw (Wel done, Mr Trevor). Gofynais iddo beth oedd yn ofyn am ei lafur gwerthfawr, yn dod a John Thomas yn rhydd. Yr ateb gefais oeddi: gan mai bechgyn o Aberdar ydych nad oedd yn codi dim o gwbl (cymeradwyaeth fyddarol). Wel, bellach, fechgyn, pa beth gawn wneud a'r arian yma?"

"Ma' rhaid i Shoni o'r Pant gael cot, syr," ehai Twm Llewelyn, "ag w i yn cini' yn bod ni yn hercyd un iddo fa nawr."

"Fire away; right you are, bunt a'r cart, ar unwaith ta, boys"; ac felly y bu. Cafwyd cot yn iawn i Shoni, a chafodd Mr Jones ei got yntau heb y rhubanau, wrth gwrs.

Ond, chwarae teg i Sam Mishdir Haliars; er ei fod yn lled safndrwm fel areithiwr, yr oedd ganddo galon yn iawn. Yn y gwaith pan yn gyru yr haliars a'r ceffylau, mediai lefaru a bloeddio faint fyd fynai. Yr oedd wedi syrthio m)hwnicarad rhyfedd a Mr Cynon Jones, y diwrnod hwnw. Cymerodd yr ymgon ganlynol le rhwng Sam a Shoni a'r lleill o'r cwmi aeth i brynu y got.

"Ond dyw Mr Jones, y gweinidog, yn fachan piwr?" ehai Sam.

"Do's dim gwell dyn yn Nghyaru na Mr Jones," oedd yr ateb.

"Fe fyswm ni yn depyg o fod yn ddigon

F7617

sownd heno, on' bai Mr Jones," meddai Shoni, gan godi ei ysgwyddan fel pe mewn arswyd.

"Fi dy greta di wir, Shoni," meddai Sam, "a gwyddoch chi beth, fechgyn? Do's dim o'ch hannar chi yn gwpod beth ma'r gwr-byneiddig yma wedi neud yn y fusnes hyn heddi." Fe aethai Mr Rollins i weud shwd' odd petha; a dyna fel eeson ni wyppod am Mr Trevor. Ag wetyn, fe wetws wrth Mr Trevor fod Mr Rollins wedi hala ni ato fe. Wrth gwrs, fe fystu Mr Trevor yn nido ar i ben i'r tan dros Mr Rollins; achos taw fe yw cyfreithwr y'n cwmpni ni, wyt ti'n gweld. Dyna ffordd gnath e'r gwaith am ddim."

"Ond bachan o 'Berdar yw Mr Trevor hefyd, Sam," awgrymai Twm Llewelyn, "ag odd e yn lico'r jobyn."

"Wel odd, wrth gwrs, do's dim dowt. Ond bachan; Mr Jones, y gweinidog, wetws bobpeth wrtho fa! Pan o'n ni miwn gita nhw, odd Mr Jones yn gwneud yn enwa ni i gyd wrtho fa, ag yn gwneud shwd fachgan da yw Shoni. Pan odd Mr Jones yn gweud pethach felna, yr odd Mr Trevor yn u 'sgrifenu nhw lawr, a dim ond darllen rheiny mas nath Mr Trevor yn y cwrt."

"Pam odd a yn gweud wrtho ni gyd am bido wilia Saesneg wni?" gofynai Shoni.

"Bachan," meddai Sam, "ond taw yn lle bod y plismyn a'u sort yn deall beth o'n ni weud w'. Bysa nhw yn gwpod bobpeth odd yn ea i weud pryd hyny, fysa yna lawar mwy o fwstwr nag sydd wedi bod."

"Wy i yn cinig," meddai Twm Llewelyn, "bod ni yn rhoi present i Mr Jones o ffon splendid. Beth i chi'n weud, boys?"

"Fire away; bant a'r cart; rigt you are, myn asgwra i. Ffames, Twm," haaner floeddai y cantwr.

"Gan bwyll, dicyn bach," meddai Sam, "ottich chi yn meddwl y bysa Mr Jones yn folon, cymryd peth fel'ny nawr? Dim perygl! Ma'r gwr byneddig wedi roi wigan i hunan o beth sy' gita ni. Gryndwch, boys: W i yn meddwl taw y peth gora i ni yw wilia gita'r rest o'r boys cyn hala'r arian hyn."

"Beth newn ni a'r arian sy' gita ni ta?" gofynai Twm Llewelyn. "Ottich chi ddim yn folon roi dim i Mr Jones?"

"Beth wetas ti?" holai Sam Mishtir Haliars yn groch ac yn sarug; "Ddim yn folon? Yn folon, ottw, ond fe fysa arno i gwilydd roi pishyn o hen ffon fach i wr byneddig fel Mr Jones. A chofia di taw pregethwr yw a."

Amlwg oedd erbyn hyn fod rhyw gynllun yn bryweddu yn mhen y Mishtir Haliars, ac amlwg oedd hefyd mai gaffer yw gaffer hyd yn nod ar ddiwrnod excursion.

"Gryndwch nawr, boys," ebai Sam, gan duchan a charthu, o'r diwedd, "dyma nginig i, ta beth: Nawr, wedi tala am got i Shoni, fe fydd yna lot o decyns yn spar, ag w i yn cinig ca'l cino gita'n gilydd, fel cino clwb."

"Right you are; fire away; first-class; well done, Sam, just y peth, bachan. Gadewch i ni gael eitha spri cyn cwpla y fusnas hyn," ebai Jim.

"Spri! y ffwl!" rhuai Sam Mishcir Haliars, "ond yw Mr Jones i ga'l dod gita ni, ag wyt ti yn gwpod nag yw e' ddim yn ifad?"

Aeth Jim i'w gragen ar unwaith, obleoid rhaid cyfaddef mai brawd lled sychedig oedd y cantwr ar adegau.

"Gryndwch yto," meddai Sam; "fe fyswn i yn lico gneud clasgad i roi rwpeth o werth i Mr Jones. Ond, coffwch chi, dos dim un o chi i acor ych pen am y peth nawr, ne fe fydd hyny yn distriwa'r cawl. I'ch chi'n clwad, boys?" gofynai Sam, gan gau ei ddwrn a gwasgu ei ddannedd.

* * * * * F7618

Gwelwyd rhyfeddodau lawer yn yr arddangosfa y diwrnod hwnw, a dyddorol oedd sylwi fel yr oedd pob un wedi cymered ffarsi at ryw un peth neidduol. Synai y rhan fwyaf, er hynny, fod yno can lleid i'w gwled. Treuliodd Mr Cynon Jones a Mr Rollins gryn dipyn o amser yn sylu ar y darluniau oedd mewn un ystafell eang. Cawsant, hefyd, hwyl yn craffu ac yn beirniadu rhai o'r cerfluniau gwerthfawr a ddangosid mewn ystafell arall. Pan safent o flaen cerflun Groegaid mawr yn edmygu ac yn canmol, daeth nifer o fechgyn 'Berdar heibio, a chwaddasant dros y lle.

"Beth ma' hwnw dda, Sam?" meddai Dai Dowlais, gan gyfeirio ei fys at y cerflun.

"Wel, llun dyn yw a, bachan," meddai Sam yn swrth.

"Wel, ie, wrth gwrs," atebai Dai, dipyn yn wawddydd: "W i yn gwpod taw nid llun ceffyl yw a. W i yn gwpod taw ryw short o ddym yw a. Ond beth ma' fa dda yn boreyn fel yna, ys gwn i?"

"Wel, am bachan, ond taw, i neyd y lle i ddisgwyl yn bert w," meddai un arall.

"Hwna yn gneyd y lle yn bert!" chwaddai Dai.

"Ie, wrth gwrs. Wyt ti ddim yn cofio, fel oedd Mr Davies, Shop y Tepot, wedi gwneyd i ffenest N'dolig diweddfaf? O'dd gyde fa lot o linia dynon o bob shap wedi ca' i' gneyd o losin a shwgir."

"Pa'm, boys; shwgir yw hwna?" holai Dai.

"Wrth gwrs," atebai Sam, "ac fe fyddan yn i dori fa lwr, ac yn i werthu fa i'r plant ar y diwedd. Own ni ddim yn meddwl bo ti mor ddwl o'r blaen, Dai."

Yr hyn aeth a mwyaf o sylw Sam oedd gwled y merched yn pacio tybaco ac yn gwneyd cigars. Synai yn fawr at gyflymdra eu bysedd, taclusrwydd y peiriant, a chywirdeb y pwysu.

Buont yn hir iawn yn dyfalu uwchben un gwrthddrych. Barnai un mai darn o haiarn i ddal drws yn agored ydoedd; mynai un arall mai un o bwysi cloriannau mawr y gwaith ydoedd. Er cael gwybodaeth fanylach, dyma ddau neu dri ohonynt yn cydio yn y peth, ac yn dechreu ei droi oddiamgylch, ac ar llyn, rhedodd un o swyddogion yr exhibition atynt i'w rhwystro, ac i alw eu sylw at y ffaith mai shell oedd y gwrthddrych hynod a ddefnyddid mewn rhyfel, a dywedodd fod ffurwyriad un o'r pelenau hyn yn ddigon i ladd hanner cant o ddynion. Edrvchasant ar eu gilydd mewn arswyd, a chillasant o'r lle yn bur fuan.

Un o'r pethau nesaf a ddenasant eu sylw oedd cynllun (model) o bwll glo, a'r peiriannau a'r celfi cysylltiedig. Cawsant hwyl anarferol ar hyn. Gwaith rhwydd iddynt oedd ffeindio beiau, a chwaddasant yn iach uwchben llawer o ddiffygion y cynllun.

Ar ol teitbio trwy y lle am beth amser, daeth arnynt chwant bwyd. Awd i ystafell fwya gerllaw, a gwnawd holiadau. Cyfeiriwyd hwy i ystafell yn nes i fewn. Digwyddodd tua deg fod yn y cwmni yr adeg hon. Ystafell ardderchog: lliciniau gwynion a glan, llwyau a ffyrch arian, napeyns wedi eu plygu yn gelfydd, a phlanhigion gwyrddion yn y ffenestri. Yr oedd y lle fel ystafell ginio Lord Aberdar, meddai Jim y Cantwr, ac yr oedd Jim yn gwybod, cofier, oblegid yr oedd yn un o'r cor fu yn caelw cyngherdd i'w arglwyddiaeth ychydig yn ol.

Sam Mishdir Halifax, wrth gwrs, oedd yn gorchymyn y bwyd, ac yn trefnu beth i'w gwled, gan mwyaf. Yr oedd dau neu dri o'r cwmni braidd yn anfoddlon myned i fewn i'r ystafell hardd yma ar y dechreu, ond rhag bod yn wrthddrychau gwawd y lleill, i fewn a hwy. I fewn yn fuan, hefyd, y daeth y bwyd. Ac yr oedd

F7619

yno fwyd! Te a thri neu bedwar o ffwls yn oer, pob math o deisenod, pickles, &c. Yr oedd yn werth gweled llygaid rhai o'r boys pan ddygid y bwyd i fewn, ac yn werth i wrando arnynt wedi i'r gwasanaethyddion fyned allan! Yr oeddant yn siarad, yn chwertlin, ac yn dynwared ieir yn clochdar, a cheiliogod yn canu, nes y gallech dybio eich bod yn nghanol ffair fawr.

Wedi cael distawrwydd, trefnwyd i ddechreu cario. Nid oedd un ohonynt wedi arfer a'r gorchwyl hwnw. Chwertlin mawr, felly, oedd yn canlyn gwrthodiad y naill ar ol y llall i ymgymeryd a'r gwaith. O'r diwedd, gwnawd cynnyg, a gwnawd yr adar yn ddarnau; ond O! ysprydion llwynogod! ni fu erioed y fath garfio! Llwyddwyd i gael y coesau i ffwrdd yn weddol daclus, ond wed'yn, —! Wyth coes oedd gan y pedwar cyw, ac wedi rhoddi allan y coesau, ceisiwyd am yr adenydd, ond nis gallent yn eu brw eu dadgymalu. Diwedd y peih fu i Sam Mishdir Haliars luchio y ffwlyn oedd ganddo ef yn gyfan (ond y coesau) ar blat Twm Llywelyn, gan ddywedyd:

"Cymar a i gyd, Twm; alla i ddim tori racor bant."

Yn anffodus, yn yr ymdrech i dori y ffwlyn y pen arall i'r bwrdd, slipiodd llaw Jim y Cantwr, a syrthiodd y ddwpler (dysgl) a'r cyw i'r llawr, ac wrth geisio eu hachub, tarawodd Dai Dowlais y gwydr tal oedd yn dal y blodeu ar ganol y bwrdd, nes bod hwnw yn yfflon ulw. Mewn gair, yr oedd wedi myned yn ddrwg yno. Daeth y foneddiges oedd a gofal y lle i fewn, gan siarad yn llym, ac edrych yn ofnadwy o surug. Wedi yr anffodion a nodwyd, ac wrth weled gwyneb sofr a digllon y manageress, dechreuodd y boys chwertlin yn ddireol. Un ag asgwrn rhwng ei fysedd, a'r llall a darn o faramenyn, un a chyllell, a'r llall a chwpanaid o de, a'r oll yn chwertlin fel ffylaid, ac yn methu symud oddiar eu cadeiriau. Felly y buont am gryn chwarter awr, pan y tawelwyd am ychydig, ac y ceisiwyd bwyta tipyn.

Gyda hyn, i fewn a'r manageress eto, gan ofyn ganddynt glirio allan gynted ag y gallent, fod arni eisieu glanhau y lle i'w wneyd yn addas i ddynion unwaith eto. Ar hyn, dechreuwyd chwertlin drachefn yn fwy direol nag erioed.

"Wel," meddai, o'r diwedd, "os nad ewch allan eich hunain, bydd yn rhaid i mi alw policeman i'ch gosod allan."

"Dyma ragor o waith i Mr Trevor," meddai un.

"Lock-up heno ytto, Shoni," eba: y llall.

Canlynwyd hyn eto gan chwertlin dilywodraeth, a thra yr oedd y cwmni yn y diwyg digrifol hwnw, wele glamp o heddeidwad mawr, golygus, yn gwneyd ei ymddangosiad yn nrws yr ystafell, yn cael ei ganlyn gan y foneddiges a nodwyd.

Methai yr heddeidwad ddeall pethau Daeth i fewn yn arwrol a chaled yr olwg arno; ond cyn pen hanner mynyd llarieiddiodd a chyfnewidiodd ei wedd.

Am y bechgyn, pan welsant y swyddog yn y drws, daeth dychryn drostynt i gyd, yn neillduol Shoni o'r Pant, ac un neu ddau arall. Ond cyn pen ychydig eiliadau, torasant allan i chwertlin fel gwallgofiaid, a chwaddodd y policeman gyda hwy. Cododd Shoni o'r Pant i fyny ac aeth at y swyddog gan gydio yn ei law a syrthiodd ar ei fynwes, gan chwertlin dros y lle.

Edrychai y wraig fel buweh wedi ei saethu: safai ei llygaid yn ei phen, ac yr oedd yn fud hollol, heb wybod beth i'w wneyd nesaf. Y tu ol iddi yr oedd dwy neu dair o lancesi ieuaine y ty, un fynyd yn synllyd hollol a'r fynyd nesaf yn chwertlin allan.

F7620

Pan gafwyd tawelwch esboniwyd y cyfan i'r heddegiwad. A phwy feddyliwch oedd hwnw? Neb llai na Ned Lloyd, o'r Waen, un o Foys Berdar.

Ni chawd trefn ar fwyta ar ol hyn, ond, ar gais Ned Lloyd, cliriwyd allan yn bur fuan ar ol clirio y biliau, ac nid oes eisiau dyweyd mai nid biliau ysgafn gafwyd y tro hwnw. Bu rhaid talu am y llestri a'r addurniadau a dorwyd, ac am rai pethau ereill a anafwyd. Er fod gan y rhan fwyaf o'r cwmni arian, pocedau go ysgeifn oedd gan rhai hynny nad oeddynt yn rhyw fodd-llon iawn i fyned i'r fath le hardd yr olwg.

Yr oedd yn y parc lawer o bethau i dynu sylw a thocyns, megis y shooting-saloons, hit-my-legs, round-she-goes, a llu o bethau ereill. Dewisai rhai y dull hwn a rhai y dull arall o wario eu hamser a'u harian, hyd nes daeth yr adeg i ddygwelyd tua'r station.

Dyma eto olygfa i'w chofio! Y mae y train yn y station yn barod i gychwyn. Clywir y swyddogion yn bloeddio ac yn cau y drysau. Dacw wr a gwraig yn rhuthro gyda dau neu dri o blant i fyny y platform. Y mae ganddynt bob math o deganau: ceffyl pren, chwip, pel, dol, basged fechan, a pharseli dirifedi. Agorant ddrws un cerbyd, ond y mae yn rhy lawn, ceisiant am un arall, ond nis gallant ei agor. Treiant y trydydd, ond rhwystrir hwy i fyned i mewn gan y rhai sydd yno eisoes. Gwthiant i fewn er hynny gan lawenhau eu bod wedi ei ddal. Dacw eto Maria Ty Tulcen a Thomas, ei gwr, yn feddw caib ar ei braich yn ceisio lle.

Y mae yn amser cychwyn ond dod y maent yn ffrwd o hyd: llawer mewn diod, a phawb yn lluddedig. O'r diwedd, dyma bawb yn ddyogel, chwibanodd y swyddog, a chwibanodd y peiriant, ac i ffrwd ag ef a'i gynfen hir gan duchan a phwffian. "Hold on, hold on, dacw ereill eto yn dod. Rhedant, fel yr hydd, dros y platform. Dacw un yn llwyddo i agor y drws ac i fewn ag ef i'r train symudol yn nghanol bygythion y swyddogion. Am y lleill, druan, nid oes ganddynt ond canu, "Mi gollais y tren."

Druain olonynt. Mi wrantaf nad oes gan yr un olonynt arian i dalu lodgings, er fod yn rhaid treulio y noswaith yn Nghaerdydd. Llawer un sydd wedi cerdded gartref o Gaerdydd nos Sadwrn a dydd Sul oherwydd colli y train adeg yr excursion.

Ond pa le mae Twm yr Hewlwr? Yr ydych yn cofio fod Twm wedi "cael gormod" yn bur foreu. Yr oedd Twm wedi sicrhau llefy y noson hono yn un o'r tai nwyaf yn Nghaerdydd. Cafwyd ef tua hanner dydd wedi meddwi ac wedi gorwedd yn yr Arcade. Druan o Martha, nid oedd ganddi y syniad lleiaf pa le yr oedd er tua deg o'r gloch, a mawr oedd ei gofid yn y station pan welodd nad oedd efe yno erbyn amser y train. Yn un peth yr oedd excursion tickets Murtha a'r plant yn mhoced Twm. Gallid adrodd cyfrolgu am y daith hono o Gaerdydd i Aberdar: fel yr oedd pob cerbyd yn llawn o deithwyr blinedig, llwythog o leganau; mewn un man yn cysgu ar draws eu gilydd, mewn man arall yn canu dros y lle. Dyddorol fuasai cael adrodd helynt casglu y tocynau ar derfyn y daith: fel yr oedd yn rhaid troi pob poced allan gan ambell i un: fel yr oedd yn rhaid i un arall aros am y gwr neu wraig cyn y ceid pasio, ac fel yr oedd llawer mewn gofid oherwydd colli eu tocynau. Cystal, er hynny, yw gadael pethau yn y fan yna, oblegid daeth Shoni o'r Pant gartref yn ddyogel ac yn sobr, ac yn fwy "erwog" nag erioed.

Yr oedd y daith i Shoni yn un i'w chofio, ac nid yw yn debygol iddo byth anghofio y llu cymwynaswyr a gyfarfu y diwrnod hwnw.

Dylasid fod wedi nodi fod penderfyniad wedi ei basio gan Sam a Shoni, a Jim y Cantwr, a Twm Llewelyn, fod "mitting" yn cael ei alw ar ben y pwll nos Lun er ystyried beth i'w wneyd a'r arian oedd yn nwyllaw Sam Mishdi: Haliars.

Bydd yn rhaid gohirio hanes y cyfarfod, y wledd, y canu, a'r ddamwain drist a edigwyddodd i Shoni o'r Pant, hyd y benod nesaf.

(I'w barhau.)

F7621

SHONI O'R PANT:

(UN O' ENWOGION ABERDAR.)

PENNOD V.—CINIO FAWR SHONI.

YR oedd y tyrn ar ben am dri o'r gloch ddydd Llun, ac er gwaethaf bygythion Sam Mishdir Haliars, aeth y stori ar led am y ffest oedd i fod ar yr arian a gasglwyd i gael Shoni yn rhydd o afaelion gwyr y gyf-raith. Yn ol pob tebygolrwydd, nid oedd Sam ei hun wedi bod yn hollol ddistaw ar y mater.

Yr oedd yno grŵn nifer yn bresennol. Gosodwyd Sam yn gadeirydd, er nad oedd ganddo le i eistedd o gwbl, ac ni wyddai o ran hyny beth oedd gan gadeirydd i'w wneyd. Mishdir Haliars oedd Sam bob modfedd ohono, ac yn ei ddillad gwaith ac yn nghanol y boys yr oedd yn iawn. Siaradai fel pe ar y partin-dwbwl, ac yn nghanol y ceffylau a'r drams.

"Gryndwch, boys," meddai Sam, "w i yn cretu taw y peth gora newn ni a'r arian hyn yw ca'i cino gita'n gilydd. Beth ych chi yn weyd, boys?"

"W i yn meddwl yr un peth," meddai un ar ol y llall.

"Wel, dyna fe ta," ebai Sam. "Shwd cewn ni ddi?"

"Yn b'le ma hi i fod?" gofynai un.

"Yn Long Room y Lion, ma'n depyg," atebai Jim y Cantwr.

"Nace'r ffwl!" bloeddai Sam yn gynhyrfus. "Wyt ti yn meddwl y byse Mr Jones, y gweini-dog, yn dod atom ni i' dy tafarn? W i wedi gweud wrtho't ti o'r blaw."

"W i yn cinig," meddai Twm Llywelyn, "bod ni yn gofyn i Mr Davies, y Coffee Tavern, os gnaiff e' gino i ni, ac os cewn ni fentig i Long Room e'."

"W i'n eilio," llefai dau neu dri gyda'u gilydd. "Lan a'ch dwylo gittach gilydd, ta, boys," gorchymynai Sam, gan ddyweyd y buasai ef yn myned i siarad a Mr Davies am y bwyd. Ni ddychmygai Sam fod eisieu' pwyllgor at y fath beth.

"Pryd ma'r ffest i fod, boys," gofynai y cadeirydd eto.

"W i yn cinig nos Satwn nesa'," meddai Twm, oblegid efe oedd yn cynnyg y cyfan.

"Right you are; fire away; nos Satwn yw'r nosweth ora o bob nosweth," ebai Jim y Cantwr.

"Wel, dyna fe," meddai y cadeirydd, "dyna bobpeth wedi ca'i ei setlo; dewch chi i dy Mr Davies, y Coffee Tavern, erbyn wech ar gloch nos Sadwrn, ac fe fydd y cawl a'r pwddin yn barod. Ond, hold on, ma un peth arall isha'i setlo. Shwd ma i i fod obothdy Mr Jones, y gwini-dog, boys?"

"Wel, cei di, Sam, i willia gita fi a gwed wrtho fa am ddod, os yw a yn folon dod aton ni."

"Nid dyna'r peth, otich chi yn folon roi dyw bresant iddo fa nos Satwn? F'ch chi yn gwpod beth nath a dydd Satwn diwedda, ac i'ch chi yn gwpod taw nid dyna'r tro cynta iddo fa'n helpu ni pan fydda ni miwn trwpwl."

"W i yn cinig bod ni yn gneyd clasgad i roi rwpeth iddo a," ebai Twm.

"Pawb sy'n folon," meddai y cadeirydd, "i godi i law lan."

Codwyd pob llaw ar unwaith.

"Ond, boys," gofynai Dai Dowlais, "otti i ddim yn well i gatal hi ys bo'i nos Satwn pay, achos os dim arian dydd Satwn nesa?"

"Gwetwch chi heno," atebai y cadeirydd, "faint i chi yn myn'd i roi, a fe roia i fentig cymaint a hyny i chi, am fythewnws. Neiff hyny y tro?"

Felly y bu. Daeth pob un a'i addewid yn

F7622

mlaen ar y diwedd. Daeth y peth i glustiau y gaffers, y firemen, a'r clarcod. Casglwyd tua thair punt. Erbyn hyn, yr oedd Sam mewn dyryswech. Ni wyddai yn y byd beth i'w brynu fyddai yn ateb pregethwr. Yr oedd Mr Brown wedi ei gynghori i geisio llyfrau, ond beth wyddai Sam druan am lyfrau?

Yn y cyfamser, aeth i weled Mr Jones i ofyn a fyddai cystal a dod i'w cyfarfod nos Sadwrn. Dywedodd eu bod yn penderfynu cael cinio gyda'u gilydd o'r arian hyny oedd yn ngweddill. Ni ynghanodd air am yr anrheg i Mr Jones. Yr oedd hono i ddod yn hollol annisgwiliadwy. Onid oedd yn ddealedig ar y gwaith nad oedd neb i glebran am y peth?

"Yn mha le y bydd y cinio, Samuel?" holai Mr Jones.

"Yn y Long Room, syr," oedd yr ateb.

"Nis gallaf yn dda ddyfod i ginio mewn Long Room ty tafarn, Samuel," ebai y gweinidog.

"Nid miwn ty tafarn, syr, ond Coffee Tavern, Mr Davies," meddai Sam yn frysiog.

"O, wel; gadewch i mi wel'd. Noswaith go chwithig i mi yw nos Sadwrn," dadleuai y gweinidog.

"Pwy nosweth arall fysa yn ych taro chi, syr? On ni meddwl y bysa lot o'r bechgyn yn gwitho'r nos bob nosweth arall, ag e fysan yn lico i chi ddod, syr," ebai Sam.

"O'r goreu, Samuel," atebai Mr Jones. "Mi ddeuai, ond cofiwch hyn, os gwelwch yn dda, y carwn ni weled pob un yno yn weddus. Hanner gair yn ddigon i chwi."

"Fe ofala i am hyny, syr," atebai y Mishdir Haldiars, ac allan ag ef, gan wasgu ar Mr Jones i fod yno erbyn yr amser.

Edrychodd Sam yn syn ar y llyfrau yn myfyr-gell y pregethwr. Nid oedd erioed wedi gwled cynifer gyda'u gilydd o'r blaen. Yr oeddynt yn dyrau ar y llawr, ar hyd y bwrdd, y cadeiriau, a'r cypbyrddau, mewn anhrefn mawr. Wrth weled y fath stoc ohonynt, daeth Sam i'r farn mai ychydig wyddai Mr Brown am y gweinidog, neu ni buasai yn son am roddi ychwaneg o lyfrau iddo. Tarawodd syniad hapus iawn ef, er hyny. Casglodd ychydig ychwaneg o arian, ac aeth i siop gelfi, a phrynodd bookcase braf, a thalodd am dano. Ni ddywedodd i bwy yr oedd. Ni chafodd neb byth wedyn glywed pa faint a gostiodd, ac ni wyddai undyn byw beth oedd i gael ei gyflwyno i Mr Jones hyd nes i adeg y cyflwyno ddod; os, yn wir, na chlywodd Shoni o'r Pant. Barna rhai fod Shoni wedi cael awgrym.

Daeth y noson apwyntiedig. Yr oedd y gweinidog yno, Mr Brown y cashier, y gaffers, a llawer o'r boys. Pob un wedi gwisgo mewn style, a phob un mor sobr a'r judge. Mr Brown oedd y prif garfiwr, ac efe oedd llywydd y wlodd a llywydd y cyfarfod gynnalwyd yn ol llaw.

Yr oedd Shoni o'r Pant wrth ei fodd y nos Sadwrn hwn, a pha fodd oedd yn bosibl iddo beidio bod? Yr oedd y cinio yn un o'r goreuon, hyny yw, yr oedd yno ddigon ohoni, a'r oll yn fwyd sylweddol. Dyna'r cyfarfod, hefyd, yn llawn hwyl a chanu, a digrifwch diniwed. Yn ben ar y cyfan "Cinio fawr Shoni o'r Pant" yd-oedd: Shoni oedd arwr y dydd.

Buwyd yn ffodus dros ben mewn cadeirydd, oblegid nid oedd yn Aberdar un mor gyfarwydd a Mr Brown, mewn trefnu gwleddoedd a chyfarfodydd cymdeithasol; ond nid gwaith rhwydd oedd ganddo yn "nghanio Shoni o'r Pant," oblegid yr oedd gan ereill eu cynlluniau, a'r rhai hyny yn bur wreiddiol weithiau.

Ar ol cuddio hyny o roast beef a phwddin ag oedd bosibl (a chuddiwyd llawer iawn mewn ychydig amser), ebai y cadeirydd:

"Nawr, foneddigion, ma hi yn amser i ni yfed y toast."

"Ha, ha!" chwarddai Wil Dal. "Byta tost i ni, syr, nid i ifad a."

"Silence," gwaeddai y cadeirydd, "meddwl oeddwn i ei bod yn amser i ni yfed lwc dda i 'Shoni o'r Pant,' ac ereill."

"Right you are, syr; fire away; bachan piwr yw Shoni, myn asgwrn i; go on, Mr Brown."

"Hoi, Jim," gwaeddai y Mishdir Haliars, yn groch ac yn awdurdodol, "wyt ti yn cauad dy ben, bachan? Gad i Mr Brown fya'd yu mlan fel bo fe yn lico. Fe yw'r gaffer yma heno."

Bu distawrwydd am ychydig ar ol hyn, a chododd Mr Brown ar ei draed, a gwnaeth ar-aeth fer a phwrpasol iawn. Canolodd Shoni i'r cymylau. Gosododd bwys ar y ffaith fod Shoni yn ddirwestwr, ac eto nad oedd yn sych ac yn swrth; mewn gair, fod Shoni o'r Pant gystal trwmpyn a neb yn Aberdar.

Derbyniwyd yr araeth gyda chymeradwyaeth, ac yfwyd iechyd da i Shoni yn galonog a hwyl-iog dros ben.

"Yfed!" Ie, yfed. Paham? Gwrandewch y stori.

Tystiodd Wil Dal y dylai Shoni dalu ffwtin am yr anrhydedd a osodwyd arno y noson hono, ac unodd ereill gyda Wil wasgu ar Shoni.

"All right. Gna i, ar mecws i," meddai Shoni yn ddigon parod. "Ond cofiwch chi, boys, dw i ddim yn myn'd i dalu am gwrw na dim o'r short i chi. Sam, beth wyt ti yn weyd?"

"Ti weta ti, Shoni," ebai Sam; "cer a gofyn i Mr Davies ddod kan yma. Ma fe yn gwpod beth sydd gita fa yn y ty, a cer at Mr Jones, ma fe yn gwpod beth sydd ora ar yn lles ni yn awr."

Bant a Shoni i gyrchu gwr y Coffee Tavern, ac yn union ar ben y grisiau, yr oedd Shoni, Mr Jones, a Mr Davies, wrthi yn pwyllgora gymaint fedrent. Diwedd y peth, penderfynwyd fod Shoni i dalu am gwpanaid o goffi i bob un o'r cwmni; ac a choffi yr yfwyd y llwnc-destynau i gyd, ac ni welwyd cwmni mwy llawen a phrydferth.

Galwyd ar Shoni i ateb y llwncdestyn, ond druan ohono, yr oedd yn fud. Codai ryw lwmp yn ei wddf gan attal ei dafod. Rhuthrai myrdd o bethau trwy ei feddwl: yr helynt gyda'r police, y carchar, Mr Trevor, cot Mr Jones, y rhubanau, caredigrwydd ei gydweithwyr, y wledd ynawd er ei fwyn, a llu o bethau ereill. Treiodd arad, ond torodd allan i wylo fel plentyn, ac eisteddodd i lawr gan guddio ei wyneb yn ei ddwyllaw celyd. Dylanwadodd hyn yn rhyfedd ar yr holl gwmi: syrthiodd distawrwydd ar bawb, a lledai gwen swynol dros bob wyneb, ac yn wir nid ychydig oedd nifer y gruddiau a wlychwyd a dagrau yno hefyd. Golygfa hynod oedd gweled y glowyr cryfion a chelyd yn y cyffwr a nodwyd. Dagrau llawenydd, onid ydynt yn debyg i gawod o wlaw yn mis Ebrill, gyda phoc defnyn gloew glan yn dal darlun tlws o'r haul yn ei fynwes.

Am ychydig amser y parodd yr ostep uchod cyn i bawb dori allan i chwerthin yn iachus fel mewn atebiad i ofyniad Wil Dal: "Hai, boys, os anglodd i fod yma heno?"

"Chwi welwch," ebai Mr Brown, "na wna Shoni byth bregethwr na ffeiriad, ta beth, ac mae'n deig taw gwell yw myn'd yn mla'n at y peth nesaf."

"Gadewch i ni ga'l can gida Shoni, Mr Brown. W i yn gwpod y gall a ganu fel filiwt. Dera mla'n Shoni," cymbellai Sam.

"O'r goreu," ebai y cadeirydd, "rwy' yn galw am gan, John Thomas."

Erbyn hyn, yr oedd gofid Shoni wedi cilio, ac yr oedd mor llawen a'r un o'r cwmni, a chododd at yr alwad, gan ofyn:

F7624

"Beth ca' i ganu, boys? Myn asgwrn i, dw i ddim yn cretu y galla i gofio dim byd heno."
 "Cana 'Gan y Coliars, Shoni," ebai Twm Llywelyn, "fi eili ganu hono yn net."
 Cafwyd distawrwydd; safai Shoni wrth ochr y cadeirydd, a dechreuodd:

"Fi alla gwto'n gwmws,
 Fi alla gwto'n gam,
 Fi alla holo dano,
 A llaww petar dram;
 Ond ripo top a thori pwcins,
 Dyna'r gwaith i nillid tocins."

Wedd canu y penuill cyntaf, nis gallai yn ei fyw fyned gam yn mhellach. Ceisiodd aml i un ei helpu, ond yn gwbl ofer: nid oedd goleuni yn dyfod. Ar hyn, galwodd un o'r cwmni am "Gan y Vochriw."
 Ceisiodd Shoni eto:

"Fi etho i'r Vochriw i bregethu,
 Cesu roeso genddynt hwy,
 Sgaden heilltion wedi eu berwi,—
 Nid af byth i'r Vochriw amwy."

Aeth yn "Dwm taw" arno drachefn, a gwrthododd yn deg wneyd cynnyg arall. Ar hyn, galwyd ar Jim y Cantwr yn mlaen. Yr oedd Jim i'w glywed yn carthu ei wddf er's tro, ac am garthu gwddf, yr oedd Jim i'w fryn a chantorion goreu y wlad. Fel gwir gerddor, yr oedd tipyn o cymhell ar y cantwr, ac ar ol addaw canu, yr oedd yn cymeryd cryn amser i fod yn barod. Pan geid Jim, er hyny, nid cantwr cyfredin ydoedd.

"Wn i ddim beth i ganu," ebai Jim.
 "Gad i ni ga'l 'Cau y Cwn Hela,' Jim" (hear, hear).

Yn ei hwyliau goreu, canodd y cantwr fel y canlyn ar y don "Mel Wefus":—

"Pob rhyw berchen awen fywiog,
 Doed, prydydded gan gorddeddog,
 Glod i helygwn godidog,
 Edwards lanwych o Fodleiniog;
 Cwn rhagorol, gwrol, gorau
 Ar y ddaear y'nt, yn ddiau,
 Eu swm a glyweh fel cyson glychau,
 Diwael hoenus, neu delynuau,
 Rhwng y bronnydd fry a'r bryniau,
 Gan eu lleisiau cain lluosog,
 Hynod odiaeth a godidog,
 Yn nglwy eu dyddan si gorddeddog,
 Ger y Llan, fe saif v llwynog,
 Hogyn llwyyd yn ddigon lliidiog."

Nid oes na gwal na pherth i'w gweled,
 Nac unrhyw fan a'u rhwystra i fyned;
 Cwm nag afon, creigiau hefyd,
 Luddia'r cwn, y gwir rwy'n ddwedyd;
 Nid oes pryfyn hoenyn hynod,
 Dae'r foch cethin, na choed-gathod,
 Ffwlbert, dyfrgwn, na draenogod,
 Hyllion egron na llwynogod,
 Na wnant ddawio ar un ddyrnod;
 Ac er mor rhwydd y rhed yr hyddod,
 Hoew agwedd a'r ewigod,
 Yn eu hardal ddylal ddefod,
 Ni bydd eu gyrfa cyn eu gorfod,
 Ond ber! ie llai na dwy awr barod.

Gwn nad oes amgenach cene'l
 Mewn da urddas gwedi'i harddel,
 Yn cyd-daro, pob rhyw droiau,
 Ar wîw gynnydd fel organau,
 Pob parodol ddoniol brydydd,
 Deuwch, canwn gyda'n cynnydd,
 Pan mae dae'r ac adar coedydd,
 Miwsig, coed, a dwr, a ohreigydd,

F7625

Bawb ag awen yn ei gywydd.
 Clywai'r goedwig gyda thwrw,
 Lawen hael yn hela'n loew,
 A'r gareg acen'r ochr acw,
 Yn bloeddio "Hoi, see-ho," yn groew,
 Dilyn Warrior, hyd ei farw.
 Brusher hy', fel prysur awel,
 Adawair cynnydd, a'r chwe' cene'l,
 Fe ddilyna'r llwynog pynod,
 Yn ddi-wyrni ddau ddiwrnod,
 Countess, Venus hwylus, Jailor,
 Darling, Music, Frolic, Miller,
 Saywell, Truly, Lightfoot, Ruler,
 Juno, Foswell, Topper, Piper,
 Comely, Lovely, Lady, Tamer,
 Ringwood rymus, gyda Rowman,
 Collier danbaid, Fairmaid, Forman,
 Freeman heini, Lily loewlan,
 Cene'l eurgoeth fel yr organ,
 Yn eu hwyliau, golau gwiwlan.

Hir oes fwyn i Edwards barchus,
 O Fodleiniog, enwog hoenus,
 Byr yw'm dawn tuagat ei ganmol,
 Hanner yr hyn mae'n haeddiannol;
 Er maint o gwn sydd wedi 'henwi,
 Drwy y siroedd a'u cyhoeddi,
 Ar fawedig wir faledi,
 Rhai'n ar gamrau yw blodeu Cymru,
 Cwn Bodleiniog enwog heini,
 Tra bo gwen ar awen rywiog.
 Hwyliau llawn, a hela Llwynog,
 Drwy loll Frydain gywraïn gaerog,
 Pery clod i gwn Bodleiniog
 Pur-wych hynod a'u perchenog."

Eisteddodd y cantwr yn nghanol banllefau o gymeradwyaeth a churo dwylaw. Cydrhawng llais swynol Jim, a swynion can yr hen fardd Gwilym Grawerth, nid oedd dim i'w ddisgwyl ond dadganiad gwir dderbyniol.

Yr oedd Shoni o'r Pant a phump neu chwech ereill yn eistedd ar fainc symudol yn ymyl y bwrdd, tra yr oedd Jim yn canu; ond gyda diwedd y gan, neidiodd tri neu bedwar o'r lleill i fyny i roddi cheers; cododd un pen i'r fainc, ac i lawr a Shoni i'r llawr gydag un arall ar ei ben, a disgynodd y fainc yn ol gyda thwrst fel ergyd o fagnel. Am fynydd, tarawyd pawb a syndod, ond pan welwyd Shoni yn fyw ac yn iach, ni chynnyrchodd y ddamwain ddim gwaeth na thipyn o chwerthin iachus a digrifwech diniwed.

"Yn nesaf," ebai y cadeirydd, "y mae genym orchwyl dyddorol iawn. Yn wir, yr wyf fi yn cyfaddef fod y peth nesaf yma yn surprise fawr a hynod bleserus i mi, ac nid oes genyf ronyn o ddownt na fyddwch i gyd yn synu fel finnau. Yr wyf yn awr yn galw ar Samuel yma i'ch hysbysu pa beth ydyw."

Cododd Sam Mishdir Haliars ar ei draed, a chychwynodd tua chornel yr ysafell, gan waeddi:

"Shoni, dere mla'n, bachan; beth ti'n ishta mana fel gwddihw? Wyt ti'n gwpol na alla i ddim i' draed a minnam."

Edrychai yr holl gwmni ym syn, gan geisio dychymygu beth oedd i fod nesaf.

Yr oedd symudiadau nesaf Shoni a Sam yn peru mwy a ddyrswch byth iddynt.

PENNOD VI.—Y BWCAS.

Yr oedd y ddau yn gafael a darn braf o ddodrefn ty, ac yn dechreu ei lusgo i canol yr ysafell.

"Gam bwyll, Shoni," llefai y Mishdir Haliars yn awdurdodol. "Hoi Jim, dera' yma, bachan, i roi cwnad bach. Nawr boys, gyda'n gilydd."

"Wel, ar necws i, ble chi'n mynd a'r cas-andrers yna, boys," holai Wil Dal.

F7626

"Fe gei di wpod yn ddigon cynar," atebai Sam; ac yna, gan droi at y Cadeirydd, ebai, "dyna fe, Mr Brown, ryntoch chi a'ch busnes nawr; dyna fi wedi cwpla gytag e."

"Na, na, Sam," ebai y Cadeirydd eto gyda gwen ddigrifol ar ei wyneb, "y mae yn rhaid i hwi wneyd araeth â chyflwyno'r peth yma i Mr Jones."

Agorodd y gweinidog ei lygaid mewn syndod, pan glywodd ei enw yn cael ei grybwyll yn y fath gysylltiad. A dweyd y gwir yn ddistaw bach, yr oedd y Parch Cynon Jones wedi bod yn llygadu y book-case er's cryn amser, ac yr oeddli mwyrdodau ei galon wedi bod rywbeth ar y llinell ganlynol: "Yn wir mai hwnacw yn book-case tlws a defnyddiol. Y mae yn rhyfedd fod Mr Davies yn ei gadw yn yr ystafell hon, ac yn neillduol yn ei gadw yn wag fel yna. Fe fuasai yn dda genyf pe gallasem fforddio cael un tebyg iddo i gadw fy llyfrau, &c."

"Gneud araeth!" ebai Sam, "i chi'n gwpod, Mr Brown, nad w i ddim yn gallu."

"Treia di, Sam, ti eelli wneud mwy nag wyt yn feddwl," ebai y Cadeirydd, yn gymhellgar.

"Ond beth sy' i weud ta?"

"Wel dywed tipyn o hanes y fusnes; i bwy mae'r book-case, a pham yr ydych yn ei roddi, a phwy sy' yn ei roi," atebai Mr Brown.

"Wel, fi weta chi ta," dechreuai Sam, "I chi gwpod fod Mr Jones yma gita ni yn Caerdydd yn y seyrshon, ag i chi'n gwpod beta nath a i helpu i gal Shoni o'r Pant yn rhydd. Wel, i chi gwpod i fod a'n gneud i ora gita ni o hyd. Pan odd y streic, i chi gwpod i fod e yn gneud i ora y pryd hyny, i gal bwyd i'n plant bach ni. Wel, odd ddi ne dri o ni yn wilia gita'n gilydd y dylsa ni roi rwpeth iddofa, odd Dai Bara Chaws yn mo'in roi cansan a chlopa pert iddo fa, ond own ni'r ffaelu gwel'd fod isha pethach felny ar bregethwr. Wel, fi etho at Mr Brown, ac fe wetws e wrtho ni am roi lot o lyfra iddo fa; ond pan etho i dy Mr Jones i ofyn iddo fa ddod i gal cino yma heno, fi welas bod gita fa shaw o lyfra, a taw lol odd meddwl am roi racor iddo fa; ac fe welas nag odd dim shap ar i lyfra fa, achos o'n nhw o bothdy'r lle i gyd, yn y cwbwrt, a dros y llawr felse cwmp wedi dod yn gwmws. Wetyn, fe etho i'r shop gelfi i brynu hwna iddo fa. Wel, nawr boys, ottw i wedi gneud yn right?"

"Do, do, itha right," gwaeddai llawer yn nghyd.

"Wel, dyna fa ta; a dyna fi yn gatal y celficy'n i chi nawr, Mr Jones," ebai Sam.

Yn ystod araeth hyawdl Sam, deallodd pob un hanes y book-case, ac yr oedd pawb mewn hwyl anarferol. Edrychai Cynon Jones yn syndedig, fel pe yn methu gwybod beth i wneud o bethau, ond gwenai pan ddywedai Sam fod ganddo lawn digon o lyfrau, a'u bod o gwmpas y lle fel pe fuasai "cwmp" yno.

Galwyd ar y gweinidog i ateb ar dderbyniad y rhodd, ac yr oedd yn amlwg ei fod mewn penbleth, agos gymaint a Shoni o'r Pant ychydig cyn hyny; ond aeth yn mlaen rywbeth fel y canlyn:—

"Mr Cadeirydd. Ychydig amser yn ol, yr oeddwn yn cael hwyl wrth weled ein cyfail John Thomas yn methu siarad, gan mor llawn o ddiolchgarwch yr oedd ei galon: ond dyma finnau bron yn yr un cyflwr. Dywedodd Samuel ddim wrtho i am yr arheg werthfawr yma wrth fy ngwahodd yma (uchel gymeradwyaeth, a "Well done, Sam"). Hefyd, wn i yn y byd beth wyf wedi wneyd fel ac i'ch cymbell i roddi i mi beth mor werthfawr. Nid wyf wedi gwneyd dim o gwbl ond fy nyledswydd, a gallaf eich sierhau eich bod yn gwneyd llawer iawn gormod i mi am hyny. Fel y dywedodd Samuel, y mae fy llyfrau yn hollol ddi-drefn, ond pan ddaw ef acw nesaf, bydd golwg bur wahanol ar bethau; ond sut mae ei gael gartref, nis gwn."

F7627

"Pidwch hico am hyny, Mr Jones," ebai Wil Dal, "fe ewn ni a fe yco; on guewn ni, boys?"
 "Gnewn, gnewn, miwn botdy jiffad," meddai tri neu bedwar o leisiau ar unwaith.

Cyn pen chwinciad, yr oedd tua hanner dwsin o gwmpas y book-case, a'r oll yn gweithio wrth reolaeth y Mishdir Haliars. Estynwyd dwy neu dair o alweddau i Mr Jones; gorchymynwyd i ddau o fechgyn cryfion gymeryd ymaith ddarn uchaf y book-case; cydiodd dau arall yn y darn isaf, ac i ffwrd a hwy gyda dau arall yn canlyn i helpu, a Sam yn canlyn fel un mewn awdurdod ar y cyfan.

Nid oes eisen myned dros syndod gwraig y ty pan welodd y book-case; ei gwaith yn tystio fod y bechgyn yn camsynied y ty; yr hwyf a gafodd pan glywodd y stori; a'r ymdrech i gael y dodrefnyn i ystafell lawn y pregethwr. Gwell fydd prysuro yn ol i'r cyfariod; oblegid ychydig drefn fu yno hyd nes i Sam a'i gwmm ddychwel-yd.

Erbyn hyn, yr oedd Shoni wedi dyfod ato ei hun, ac yr oedd wedi awgrymu wrth y Cadeirydd na fuasai yn anfoddion i ganu tipyn, pe deuai galw am hyny.

"Wel, foneddigion," ebai Mr Brown, "rwy'n credu mai teg fyddai galw ar John Thomas yn awr i roi can i ni eto; beth i chwi yn feddwl?"

"Right you are; fire away, Shoni," canai Wil y Cantwr.

Cyn pen eiliad, yr oedd Shoni yn ymyl y Cadeirydd a'i geg a'i galon yn barod at y gwaith.

"Beth sy' well i fi ganu nawr ta?" holai y Bachan o'r Pant.

"Cana un o'r reina ffeilast ti o'r blaw," awgrymai Wil Dal.

"Nana myn asgwrn i," atebai Shoni.
 "Can Gwyr Llanwynno, Shoni," meddai Sam.
 Ar hyn, dyna'r gan yn dechreu:—

"Ryw dro i Rustic Sports 'Byrdar
 Ath Ciat yng Whar a finna;
 A welsoc chi na neb a'ch tras
 Oriod shwd ras ceffyla."

Ni welson Fforistaars y lle
 Bob un ar giefan cieffyl,
 Yn waco mywn prosesiw smart
 Gyraeddai gwartar milltir.

Pob un a chwafars ar ei shol,
 A dysprad olwg smala,
 A chloea o bob lliw'n y byd
 I gyrrhadd hyd y garra.

Ath Ciat a finnau lawr i'r Waun
 Sy' rawn y traun a'r afon;
 A rhyfedd iawn gynnifer short
 O sport odd gan y dynon.

Brawd Twm y gyfrath gas y Prize
 Am rytag nice digynnig;
 Mae'i ben fel plufun—coesa dellt,
 A rhyta'n felltigitig.

Ma'n rhaid cial cloppa gweddol wag,
 Neu frwyth y brag i'r brigyn,
 Cyn daw un dyn i, gia'n ddiras
 I rytag rhas yn boreyn.

Odd yn y cia hen bawlan fawr,
 A'i phen i lawr i'r ddaear,
 Ac ar ei thop, a golwg lan,
 Odd slaban o leg weddar.

Yr odd y leg i'w rhoi i'r sawl
 A'i i ben y bawlan gynta;
 A lle myn'd nol heb shar o'r spri,
 Yn wir, fi drias ina.

Fi eitho lan ryw betar llath
 Fel ciath i ben y scripor;

Ac er byddeu ngora glas,
Fi ffaelas a mŷn'd rhacor.

A chlywsoch chi shwd beth oriod!
Ma'n depig fod y polyn
Yn dew o saim, fel elwas i,
Er mwyn gneyd spri o'r bechgyn.

Fi spwylas drywsis newyddi fflam
Ges gen fy mam yn bresant;
Ni ddringaf eto, sicir yw,
Pe byddwn byw hyd ddoicant.

Ond pam na bysa'r ioncyn cam
Ofalai am y polyn,
Yn gwetyd un fod saim disawr
O'r top i'r llawr bob tipyn.

Hen giasig wina Wil y Giath
Odd giasig ath a'r cwpan;
A bachan bach Twm Rhydycaw
Fyrchganws ar i chiefan.

Er iddi fwrw lot o law
Odd yno shaw o ferchid
Trw'r dydd yn dilyn erots y dre
O bothdy'r lle fel defid."

(I'w barhau.)

F7629

(delwedd F7629) (30 Mawrth 1900)

SHONI O'R PANT:

(UN O ENWOGION ABERDAR.)

Gan IFAN BRYNDU.

PENNOD VI.—(Parhad.)

CANLYNWYD y gan gan uchel gymeradwyaeth i Shoni o'r Pant, yr hwn oedd wedi naddeu iddo ei hun cyn hyn, am iddo aori i lawr ar y ddwy gan a gynnyddodd yn flaenorol.

Erbyn hyn, yr oedd yn bryd tori i fyny, ond teimlai pob un yn ofidus fod y cyfarfod yn tynu at y terfyn.

"Wel, tawn i marw, boys," gwaeddai Wil Dal, "ie lieswn i gal cwrdd fel hyn yto. Be' chi'n weud boys?"

"Right you are, fire away; w i yn folon," atebai Jim y Cantwr.

"Ond allwn ni ddim cal cino a rhoi cas-andrers yn bresants bob Satwn," meddai Jacko Tynewydd.

"Gryndwch ar hwnco!" llefai y Mishdir Haliars, "gadewch i ni gal gwpod beth yw barn Mr Jones. Ottich chi yn folon dod yma ytto atton ni, Mr Jones?"

"Ond cofiwch, fechgyn, bod gwaith y Sul o flaen Mr Jones, ac mai anodd yw iddo spario nos Satwrn o hyd," ebai y Cadeirydd.

"Ma gwaith dydd Sul o'n blan ninnau hefyd, Mr Cadeirydd, ag ma isha i ni feddwl am hyny," dadleuai Twm Llewelyn. "Be chi'n weud, Mr Jones?" gofynai Sam.

Teimla Cynon Jones fod cyfle ardderchog yn ymgynnig iddo, ond yr oedd wedi dyfod braidd yn sydyn. Cododd er hyny ar ei draed, a siaradodd i'r perwyl a ganlyn:—

"Mr Cadeirydd a boneddigion. Y mae yn dda gan fy ngalon ein bod wedi cael y fath gyfarfod hapus yma heno, ac yr wyf yn wir awyddus am gael un arall tebyg iddo, ac eithrio wrth gwrs, un peth ynddo (cymeradwyaeth). Fel y dywedodd ein cyfaill o'r Tynewydd, nis gallwn gael book-cases a chiniawau yn fynych, ond os nad wyf yn camsynied, yr ydym wedi mwynhau ein hunain yn rhagorol, ar wahan i'r pethau hyn (hear, hear). Nid wyf heb deimlo mai problem fawr Aberdar yw, sut i dreulio nos Sadwrn; ac yn awr, teimlaf ein bod ni heno, wedi cael ffordd i benderfynu y pwnc (cymeradwyaeth uchel). Y mae yn dda genyf eich bod o'r un farn a mi ar hyn. Ac os cydsyniwech, deunw yma nos Satwrn nesaf eto, gyda chaniattad Mr Davies, gwr y ty" (hear, hear).

"Ffamws, syr, ffamws, Mr Jones," ebai Sam, "ond ottich chi yn folon dod hefyd?"

"Deuaf yn galonog, Samuel; ond cofiwch hyn. Y mae y tafarndai yn agored yn awr, ond charwn i ddim eich gweled chwi yn myned i'r un ohonynt heno," ebai y pregethwr.

"Eitha right, syr, w i yn promisho pido myn'd ta beth. Be chi'n weud, boys?" gofynai Wil Dal.

"W i yn cinig," ebai Twm Llewelyn, "nag os dim un o ni yn myn'd i ifad heno, ond bod ni yn myn'd yn straight sha thre."

"Peth arall," ebai y gweinidog. "Fe ddaeth pob un ohonech yma heno yn hardd a gweddus yr olwg arno. A ydych yn foddlon gwneyd yr un modd wythnos i heno?"

"Ottin, ottin," oedd yr ateb parod c bob genau.

"W i yn cinig hwna yto, Mr Cadeirydd," ebai Twm.

Pasiwyd y cyfan yn unfrydol hollol. Nid oedd neb yn y lle yn dychmygu am welliant na dim o'r cyffryw lethau. Buasai edrochiad Sam Mishdir Haliars yn ddigon i wywo nerth un-

F7630

rhyw welliant neu wrthwynebiad y noson hono.

Aeth y cwmni gartref, bob un yn sobr, yn llawen, ac wrth ei fodd. Methai gwragedd a mamau llawer ohonynt ddyfalu beth oedd yn bod, wrth eu gweled yn dyfod gartref mor gynar, ac mor hapus yr olwg arnynt. A phan adroddwyd yr hanes, yr oedd llawer o fendithio ar enw Cynon Jones y noson hono.

Cyn tertynu y cyfarfod, yr oeddys wedi diolch i'r Cadeirydd, ac i'w gilydd, ac i Mr Davies; wedi canu "Hen Wlad fy Nhadau," gyda'u gilydd, ac wedi trefnu cael cyfarfod arall.

Nid teg, er hyny, yw cadw yn ol hanes teithiau Shoni o'r Pant, er mwyn adrodd am y cyfarfodydd dyddorol a gaiwyd ac ol hyn, felly, yn y benod nesaf, rhoddir ychydig o hanes taith gyntaf ein harwr i brif-dinas ein gwlad. Ar ol adrodd ychydig o hanes y "Bachan o'r Pant" yn Llundain, ac efallai yn Ffrainc a Gogledd Cymru, rhoddir ychydig yn yctwaneg o helynt cyfarfodydd nos Sadwrn boys Aberdar.

Taith fythgofus oedd y daith i Lundain, ac nid rhyfedd, erbyn ystyried, fod y llanc ieuanc o'r Pant wedi cyfarfod a chyfarfod a chynnifer o brofedigaethau yno, ond rhaid ymatal y tra hwn.

PENNOD VII.—TAITH I LUNDAIN.

Yr oedd Shoni o'r Pant un cyfnod, wedi bod yn ddirwestwr selog am amser maith. Daeth y syniad i'w ben y carasai weled Llundain. Nid oedd gobaith am hyny, wrth gwrs, i'n gwron, ond trwy fod yn ddirwestwr; felly, dirwest am dani. Os oedd Llundain i fod o gwbl i Shoni, rhaid fyddai iddo gael piced lawn. Ni roddai ddiolch am fyned yno a dim ond digon i dalu am fwyd a llety. Yr oedd yn ormod o ddyn o gryn dipyn i beth felly. A dyweyd y gwir, yr oedd llawer o'r boneddwr yn y Bachan o'r Pant pan gawsai chwareu teg.

Datganwyd y bwriad o fyned i Lundain am dro, yn nglyw rhai cyfeillion, a diwedd y peth fu i lant Caeglas gyduno a Shoni i fyned i'r brif-ddinas. Hen lwmp lloiaidd oedd lant, heb fod oddicartref ond ychydig neu ddim erioed, ond yr oedd ganddo gred ddiderfyn yn Shoni. Onid oedd y gwr o'r Pant wedi bod yn Nghaerdydd, yn Abertawe, Castellnedd, Merthyr, Fontypridd, ac hyd yn nod yn Mhorthcawl? Onid oedd wedi clywed Shoni, lawer gwaith, yn darlunio pa le i newid trains wrth fyned i'r lleoedd hyn? Onid oedd Shoni yn hyddysg yn y cook shops goreu, ac yn gwybod prisoedd y tocynau a'r bwydydd yn mhob un ohonynt? A pha beth arall oedd yn eisieu tybed? Dyna mewn siarad Sæsneg eto; os oedd lant heb fedru fawr o'r iaith fain ei hun, yr oedd ganddo berffaith hyder yn ngallu Shoni o'r Pant yn y cyfeiriad hwnw.

Nid oes eisieu myned dros y darpariadau a wnawd ar gyfer y daith yn fanwl. Digon fydd dyweyd fod ganddynt bob o bar o esgidiau newydd; coleri gwynion newyddion, cadachau sidan amryliw newyddion am eu gyddfau; stoc dda o dybaco Ffranklyn, a digon o arian i allu mwynhau y daith.

Bu cryn siarad rhwng Shoni o'r Pant a'r Parch Cynon Jones am y daith i Lundain; ac wrth gyfarwyddyd y gweinidog, bu y ddau Gymro ieuanc yn hynod ffodus i gael llety gyda Chymro hawddgar a chynhes yn y ddinas fawr. Ac wrth gyfarwyddyd yr un boneddwr, yr oedd Shoni a lant yn gofalu dyweyd wrth wr y ty i ba le y bwriadent fyned bob dydd a pha bryd y buasent yn dychwelyd.

Cychwynasant fel gwroniaid dewrion anturiaethus o Aberdar tua saith o'r gloch nos Sadwrn, gan fwrriadu bod yn Llundain boreu ddydd Sul. Wythnos oeddynt i gael i flwrdd, ac yr oedd yn rhaid cael clywed Spurgeon.

Aeth pobpeth yn iawn. Yr oeddynt yn mwyn-

hau y daith yn rhagorol. Newidiasant y trains dro neu ddau.

"Wyt ti'n gwel'd, Ianto," ebai Shoni, "mor biwr ma trains y nos yma yn trafelli. Dyw nhw ddim yn stopo yn yr hen stations bach yma, ond bant a nhw o hyd."

"Wel, ie, allwn ni feddwl," atebai Ianto, "and ma raid fod Llundan yn mell ofnadw, Shoni?"

"O, otti, wrth gwrs, ond watsha di dicyn bach, fe fyddwn yno miwn bothdy wincad nawr. Dyco fe w i yn meddwl," ebai Shoni, gan agor y ffenestr a gwthio ei ben allan i'r tywyllwch.

"Ianto, bachan," gwaeddai Shoni mewn syndod, "dihgwyl yma, ma raid fod Llundain yn lle mawr dychrynlyd."

Yr oeddynt wedi gweled goleuadau lawer tra yn tynu i fewn i'r orsaf wedi hir deithio. Arafodd a safodd y train, a gwaeddai y swyddog yn uchel: "All change, here."

"Dyna fe i pawb i ddod mas, Ianto; dyw a ddim yn mwdjid yn mbellach na hyn. Dilyn di fi, yn lle bod ni yn colli'n gilydd," gorchymynai Shoni.

"Fi ddewa i wrth dy gwt di; cer di mlan. Ond b'le ewn ni nawr, Shoni? Doi o'r gloch y bora yw hi."

"O, paid a hito am hyny; ma nhw lawr trwy'r nos yn y lle yna i ni myn'd i lodjo. Fe ofyna i i hwncu am ddangos y ffordd i ni nawr," ebai Shoni, gan droi at un o swyddogion y rheilffordd, a dangos darn o bapur iddo, a gofyn yn ei Saesneg goreu "Sut mae myn'd i'r cyfeiriad yma."

"Granville-crescent, London!" ebai y swyddog yn syn; "yr ydych yn Shrewsbury! O ba le yr ydych yn dyfod? Gadewch i mi weled eich tocyn."

Yr oedd golwg hurt ar y teithwyr pan glywsant, eu bod wedi camsynted y train; y buasai yn rhaid iddynt aros yno tan y boreu, ac fod yn agos cymaint o ffordd ganddynt eto i Lundan a phan gychwynasant oddicartref. Yr oedd Ianto a'i geg a'i lygaid yn agored led y pen, a Shoni druan yn ddistaw a swrth.

Yn y waiting-room y treuliodd y ddau eu hamser y noson hono. Yn fore tranoeth, cyflwynwyd hwy i sylw a gofal y guard, a chyraeiddasant y brifddinas rywbyrd yn y prydawn. Wedi llawer o holi, a cherdded ofer, cafwyd o hyd i Granville-crescent. Dangosasant y llythyr cymeradwyaeth a gawsant gan Mr Cynon Jones, i wr y llety, ac yr oeddynt gartref gyda Mr a Mrs Hughes, ac un neu ddau ereill o Gymru, yn bur fuan. Ond ychydig o siarad oedd yn yr un o'r ddau. Eu heisieu mwyaf oedd eisieu cysgu.

"Mae yn well i chwi fyned i'r gwely am ychydig, fechgyn," awgrymai Mr Hughes.

"I ni mo'yn clywad Spurgeon gynta' Mr Hughes; odd Mr Jones, y gweinidog, yn gwedyd i fod a wrth bwys ty chi," ebai y Bachan o'r Pant.

"O ydyw, yn yr ymyl; ond gellwch gael rhyw ddwy awr o orphwys a byddai hyny yn well nag i chwi gysgu yn y capel," dadleuai Mr Hughes.

"Ia, Shoni; gad i ni fyn'd i'r gwely am spel fach, ta beth," ebai Ianto.

Ffwrdd a hwy i'r gwely, gan feddwl codi a myned i'r Tabernacl erbyn chwech. Cysgodd y ddau yn braf. Yr oedd yn werth gweled (a chlywed) y ddau. Cysgent fel dau blentyn mawr, heb feddwl na breuddwydio am eu hoff gartref yn mryniau Cymru, nac am y miliynau a heiglent o'u ewmpas yn mhrifddinas y byd. Do, cysgasant yn iawn hyd—dri o'r gloch boreu dydd Llun!

Deffrodd Shoni; wedi cofio yn mha le yr oedd, edrychodd ar ei watch a dechreuodd ysgwyd y labwystyn tew oedd yn parhau i chwyrnu wrth ei ochr.

"Wyddost ti beth, Ianto," cwynfanai Shoni, "fe fydd arno i gwilydd gweud wrth Mr Jones, y gwinidog, bo fi wedi cysgu yn lle myn'd i glywad

Spurgeon. Achos odd a wedi'm sharso i i fyn'd iddi glywad a y peth cynta'. Ond ni gewn wel'd i dy-cwrdd a yto."

"Cai dy ben nawr, a gad ni ga'l cysgu tipyn bach yto, achos wyt ti'n gwpoed bo fi wedi gweithio tym extra nos Wener yn lliwcho gyta Wil Dal," tuchanai Ianto, gan ddechreu chwyrnu drachefn.

Chysgodd Shoni yr un llygedyn ar ol hyn y boreu hwnw. Rhwng chwech a saith gosododd derfyn ar chwyrnu croch ei gydymaith ac i lawr a hwy. Pan ddeallodd Mr Hughes siom Shoni o'r Pant, am iddo golli pregeth Spurgeon, dywedodd wrtho fod y pregethwr enwog i'w glywed ar nos lau, ac hefyd y ceid cyfle i'w glywed drachefn mewn cyiarfod cyhoeddus yn ffafr Dadgysylltiad yn y Tabernacl yr wythnos hono, yn yr hwn y byddai Mr Henry Richard, A.S., yn bresennol. Gosododd hyn y Bachan o'r Pant ar ei droed. Yr oedd mewn hwyl gorfoleddu wrth feddwl gweled Mr Henry Richard yn Llundain. Oblegid, heblaw ei syniadau uchel am yr A.S. dros Aberdar, awgrymai enw a gwyneb yr hen wladgarwr hwnw ferw yr etholiad i Shoni.

Nis gallwn obeithio rhoddi holl fanylion y dyddiau hyn yn nglyn a'r ddau Gymro o Aberdar; felly o angenrheidrwydd bydd yn rhaid dethol gan adael bylchau yma ac acw.

Gan fod cynnifer o wyr mawr yn byw yn y ddinas a hwythau yn bwriadu ymweled a rhai o'r lleoedd pwysicaf oedd ynddi, y peth mawr cyntaf i hawlio eu sylw oedd eillio eu barf.

"Hoi, Ianto," ebai Shoni, "dyma fi yn myn'd i wilo am farbwr. Fe fydda i nol erbyn i ti gwplu dy freewast."

I ffwrdd a Shoni, nis gallodd weled polyn barbwr yn un man; ond gan gofio cynghor Cynon Jones, i holi policeman pan mewn dyrswch, cafwyd o hyd i'r gwr a'r ellyn. Fel gwr o fusnes gofynodd y Bachan o'r Pant y pris am y gwaith.

"Dwy geiniog am eillio yn unig," atebai y barbwr, yn yr iaith fain, wrth gwrs.

"All right," ebai Shoni.

Ychydig amser gymerwyd at yr oruchwyliaeth ac edrychai ein cyfaill mor ieuanc ac mor fresh ag erioed. Aeth yn ol at Ianto, yr hwn a benderfynodd yn bur fuan i dalu ymweliad a'r un barbwr. Tystiodd Ianto y mynai gael tori ei wallt yn ogystal gan fod ganddo gystal cyfle. Dangosodd Shoni y shop iddo. Gofynodd Ianto am gael tori ei wallt ac eillio ei farf. Cymerwyd ef i ystafell wych, lle yr oedd nifer fawr o dan driniaeth dwylaw celfydd, cyflym, cryn nifer o weithwyr.

"Crop, sir?" gofynai llanc llathraidd, gan gyfeirio a'i fys at gadair gerllaw.

"Iss, sir," atebai Ianto, gan godi ac eistedd yn y gadair.

Cymerwyd ymaith y cnwd tew, crych, oddiar ei ben yn bur fuan. Symudwyd ef i gadair arall, a daeth bachgenyn bychan yn mlaen gan rwbio y trwyth sebon yn egniol dros ei wyneb; canlynwyd hwnw gan y gwr a'r ellyn. Ychydig o amser fu hwnw yn gwneyd i'r gwyneb llyfn-dew, coch, ddisgleirio fel y lleuad.

Tua'r adeg yma yr oedd y rhan fwyaf o'r cwsmeriaid wedi clirio allan, a gellid gweled dau neu dri o'r barfwyr yn sibrdw ac yn chwerrthin yn nghongl yr ystafell. Yna, dacw un ohonynt yn troi at Ianto ac yn gofyn iddo yn serchog dros ben :—

"Brush and singe your hair, sir?"

"Iss, please, sir," atebai Ianto, gan farnu eu bod yn hynod garedig a chymwynasgar.

Daeth y sebonwr bychan yn mlaen; golehodd wŷneb y bachan o Aberdar, gan osod ychydig bowdwr peraroglus esmwyth dros ei en a'i gyfarwyddo i'r gadair yr eisteddodd arni gyntaf. Erbyn i Ianto eistedd, cymhwyswyd at ei ben, fath o ysgubell droellog arw, yr hon oedd yn troi wrth ryw olwyn uwchben. Syna

at garedigrwydd a medr y cwmni. Wedi llyfni ychydig ar y gwallt, gofynwyd iddo os carai gael "singe."

"Eh?" gofynai Ianto, gyda cheg a llygaid agored. "Garech chwi gael llosgi ychydig ar y blew bychain ymaith? gofynai y barfwr eit-waith.

"Iss, please, sir," oedd yr ateb.

Erbyn hyn, yr oedd y cyfaill yn dechreu llawenhau yn ei galon, ei fod wedi curo Shoni o'r Pant o ddigon yn barod.

Cymbwyswyd y filam dyner at y man-flew a ddiangasant rhag y siswrn.

"Shampoo, sir?" holai y barfwr.

"What?" tuchanai Ianto.

"Garech chwi gael golchi ychydig ar eich pen, syr?" gofynai y crefftwr.

"Iss, please, sir," oedd yr ateb a gafodd eto.

Cymerwyd Ianto i ochr yr ystafell; gosodwyd llian gwyn arall drosto, a cheisiwyd ganddo blygu uwchben cawg bychan. Trowyd y dwfr oer a chynhes i'r cawg, ac O'r mwynhad gafodd ein cyfaill pan yr oedd yn seboni, yn rhwbio ac yn golchi ei ben.

Ar yr adeg yma, daeth Shoni i chwilio am ei bartner. Methai ddeall pa le yr oedd cyhyd. Taffodd y Bachan o'r Pant ei olwg drwy yr ystafell, ond nis gallodd weled neb, ond y gwr oedd yn ymolchi fan draw. Cymerodd yn gan-iataol mai un o'r barfwyr oedd hwnw, yn gosod ei hun mewn trfen, ond fod un o'r lleill yn ei gymorthawyo. Dychwelodd felly i'w lety mewn pryder am Ianto.

Gorphenwyd yr ymolchi aa'r sychu, ac ebai y barfwr "curl you moustache, syr?"

"Eh?" eto.

"Gaf fi droi ychydig ar eich moustache, syr, fel hyn?" gofynai gwr yr ellyn eitwaith gan droi dolen ar flaen ei drwynflew a'i fys main.

"Iss, please, sir," ebai mab y Caeglas.

Eisteddwyd eto, ac wedi cynhesu yr haiarn cwrlio, dygwyd ef at gymydogaeith trwyn ein cyfaill. Teimlai braidd yn ofnus o'r oruchwyl-iaeth hon, ac anesmwythai yn y gadair. O'r diwedd, llwyddwyd i wneyd cylch neu gwrllyn, fel sydd ar gynffon marlet un ochr i drwyn Ianto; ond wrth dynu yr haiarn poeth i fwrdd, cyff-yrddodd a chroen noeth y Cymro, yr hwn a neid-iodd ar ei draed gan floeddio nerth ei safn: "Beth wt ti yn neud, y mwlsyn hurt?"

Ni fynai eistedd ar ol hyn, ond cydiodd yn frysiog yn ei het a'i gansen, a gofynodd yn ffyrnig: "How much," gan estyn chwe' cheiniog i'r barfwr syndeg.

"Dydi hyn ddim yn ddigon," ebai y Sais yn sarug, a gorchymynodd y llanc ddod a'r bil i'r cwsmer digofus.

Tra yr oedd Ianto yn rhwbio y man a seriwyd gan yr haiarn poeth, yn ymnyddu gan y losgfa, ac yn ceisio edrych arno ei hun yn y drych mawr oedd yno, rhoddwyd y bil iddo gyda'r geiriau: "Pedwar swllt a thair ceiniog, syr, os gwelwch yn dda?"

"What?" bloeddai Ianto yn synllyd a gwyllt.

"Pedair a thair, syr."

Aeth y bachan o Gaeglas yn fud hollol. Ond sut yr oedd dod ohoni? Darllenodd y llanc iddo fanlyon y bil; ac, wrth gwrs, yr oedd y cyfan wedi ei gario allan. Yn ol cyfrif y Cymro, dwy geiniog oedd am eillio, a thair am dori gwallt; dyna bum' ceiniog. Ond gwarchod ni: pedwar a thair!! Diwedd y peth fu iddo orfod talu yn llawn, ac ar ol hyn, rheddodd am ei fywyd i chwilio am Shoni. Canfyddodd yr olaf o'r diwedd yn sefyll fel lord ar drothwy y llety.

"Shoni, hoi; Shoni bachan," gwaeddai Ianto pan tua chan' llath oddiwrth y ty, "wyt ti'n gwpod beth gwnws a arno i am shavo a thori ngwallt i?"

Clywodd ein gwron lais ei gydymaith, a barn-odd ei fod yn i adnabod; eto yr oedd rhyw

F7634

ddyeithrwrch rhyfedd yn mab y Caeglas, yr hyn oedd yn peru amheuaeth pwy ydoedd. Wedi iddo ddyfod yn nes, yr oedd yn amlwg mai Ianto ydoedd. Cwynai yn erwin ar y cam a gafodd, a thynodd ei het i ddangos ei ben i Shoni. Ymoll-yngodd hwnw i chwerrthin pan glywodd yr hanes, ac nis gallai yn ei fyw edrych ar Ianto heb fyned i fitiau bron. Dyna lle safai yr olaf gyda gwyneb sur, gofidus; ei wallt wedi ei dori i ffwrdd i gyd fel pe buasai wedi bod yn y carchar, ei wyneb yn disgleirio; un ochr i'w foustache yn cwrlio fel eiddo, y diweddar Arglwydd Randolph Churchill, a'r ochr arall yn hogian yn llipa fel cynffon ci wedi ei chwipio.

Pan aethpwyd i'r ty, denodd y gwyneb rhyfedd a'r chwerrthiniadau di-attal sylw Mr a Mrs Hughes, y morwynion, a'r lletywyr ereill. Ond pan gafwyd hanes sut y bu pethau, a'r pris a dalwyd, yr oedd yn Granville Crescent fwy o hwyl nag a fu yno flynyddoedd cyn hyny.

"Wel, bachan," ebai Shoni, "ond buo i yno yn disgwyl am dano ti; ag odd yno neb ond y barbwrs. Ag odd un o nhw yn ymolch o dan y tap."

"Bachan," dolefa'i Ianto, "ond taw fi odd gita nhw yn y twbin pryd hyny. On ni yn dy glwad di yn wislan wrth ddod miwn, ond alswn i ddim acor y men w. W i yn vecso na fyfsw'n ni yn rhoi clowntan i'r boy coch hyny, achos, nawr w i yn gweld taw werthin am y men i odd a o hyd."

"Ond bachan diain; beth oit ti yn talu cymint a yna iddo fa? Dwy ginog dalas i." meddai Shoni.

"Ond gwetast ti, taw dyna odd a yn gwni am shafu, ag own i ddim yn meddwl bysa fa yn cwni mwy na thair arall am gropio 'ngwallt i,' atebai'r llall.

"On 'run twp, shwd ag wyt ti," ebai y bachan o'r Pant yn wyllt; "coffa ofyn pris pobpeth cyn gofyn am dano fa, o hyn i mas, yn Llundan."

Wedi cael ychydig dawelwch meddwl, a cheisio cael gwell trefn ar y moustache a nodwyd, aeth y ddau deithwyr i weled golygfeydd y lle. Yn Trafalgar Square, tynai cofadail Nelson ei sylw yn fawr. Buasai yn werth gweled ceg Ianto pan yr oedd ei gyfaill yn dyweyd wrtho pwy oedd Nelson, a pha beth a wnaeth.

Caffai y ddau hwyl anarferol hefyd ar y busses a'r trams, ond ei syniad oedd mai "gwyr mawr" oedd pawb a deithient ynddynt. Felly, yn ystod y dyddiau cyntaf, ni ddaeth i'w meddwl am fyned iddynt.

Un diwrnod, penderfynasant fyned i weled waxwork Madame Tussaud. Gofynwyd i'r policeman ar y ffordd.

"Ewch gyda'r tram yma," meddai gwas y gyfraith, "y mae yn pasio heibio ymyl y lle."

"Beth yw y pris," holai Shoni.

"Dwy geiniog," oedd yr ateb.

"Dyna le ffamws, yntefa Shoni?" sibrydai Ianto gan wenu; "bachan ma hwn yn well na first-class y Taff Vale, ond yw a?"

"Otti, ond ysgwn i fod y bobi yna'n gwend y gwir?" awgrymai Shoni braidd yn bryderus.

Taenodd cwmwl o amheuaeth dros wyneb y llall. Ar hyn, daeth y swyddog i gasglu yr arian. Cymerodd ddwy geiniog gan bob un, ac addawodd attal y cerbyd wrth y lle a nodwyd. Symudodd hyn faich oddiar galon y ddau. Tystient y mynent aml i ride gyda'r cerbydau hyn o hyn allan, a chytunent fod y pris yn hynod o isel.

Cyrhaeddwyd y fan; disgynodd y ddau deithiwr, ac yn syth a hwy at ddrws y waxwork.

"Faint sy' am fynd miwn, Shoni?" ebai Ianto.

"Wn i ddim, fe ofyna i'r shepyn yco nawr" atebai y llall gan groesi at heddeidwad a safai yn syth yn ymyl y drws.

Ni wnaeth yr heddeidwad gymint a thro'i ei

F7635

lygaid i edrych arnynt, ond syllu yn syth yn ei gyfer.

"Gofyn yn uwch, ma raid fod a yn drwm i glwad," ebai Ianto.

Gan godi ei lais yn uwch, cyffyrddodd Shoni, a braich y gwr a'r got las, gan wthio ychydig arno. Er syndod i'r ddau, bu agos i'r heddeidwad syrthio yn gyfan i'r llawr. Rhedodd rhyw iasau oerion drwy ein cyfeillion pan ddeallasant mai a delw yr oeddynt wedi bod yn siarad. Wrth droi i fwrdd a dechreu dringo y grisiau, chwarddent yn braf am y tro, a thystient mai gwaith anhawdd fuasai eu twyllo hwy o hyn allan.

Wedi cyrhaedd pan y grisiau, gwelsant ddelw arall, yn yr agwedd o fod yn darllen ac yn eistedd ar fainc o'r neilldu.

"Weli di hwnco," ebai Ianto, yn goll dros ben, gan gyfeirio ei fys at yr hwn cedd ar y fainc: "Un 'run peth a'r chap wrth y drws yw e hefyd."

"Wel ia," atebai Shoni, "waxwork yw pob peth sy' miwn yma. Dera mlan i gal i weld a, Ianto."

Aethant yn mlaen at y gwrthrych, a chan nad oedd un dyn byw yn y golwg, cydiodd y Bachan o'r Pant yn nhrwyn y "ddelw," gan ddywedyd yn uchel: "Edrych ar i hen lygad trofa, Ianto."

Ond cyn pen chwinciad, dyma ddwrn y ddelw i fyny, ac yn disgyn ar fon trwyn Shoni, nes yr oedd a'i draed yn yr awyr.

Mi'ch dyga i chwi i insultio eich gwell y ffyliaid hanner call, ac i son am "lygad-tro bobl," ebai y "ddelw," mewn Cymraeg pur; ac ar hyn, gollyngodd i Shoni a Ianto o'r newydd.

Tynodd yr helynt lu o bobl i'r lle.

(I'w barhau.)


F7636

SHONI O'R PANT;

(UN O ENWOGION ABERDAR.)

Gan IFAN BRYNDU.

PENNOD VIII.—Y GINIO YN LLUNDAIN.

 R oedd dychryn wedi dal Shoni ac Ianto, pan welsant y "ddelw gwyr" yn symud, ac yn neillduol yn symud mor sydyn a gyda'r iath dymher wyllt. Oblegid cyn cael amser i roi yr oedd Ianto yn mesur ei hyd ar lawr yn ymyl ei gyd-deithiwr, a'r "ddelw" a'r "lygad-tro" yn cicio fel mwlsyn gwylt mewn ffair.

Dylifodd y bobl yno, ac ymalfwyd yn dyn yn y creadur cynhyrfus yn bur fuan, a dechreuwyd holi achos y tertysg. Ar hyn, cododd Shoni ac Ianto oddiar y llawr, ac ebai y cyntaf: "Gad i ni gwau hi, Ianto, ne i ni siwr o ddod i hobl ytto," ac i ffwrdd a'r ddau nerth eu traed i lawr y grisiau, ac allan i'r heol, a chymerasant y tram cyntaf i'r Granville Crescent.

Adroddasant yr holl helynt i Mr a Mrs Hughes, y rhai a chwaddent nes siglo.

"Ond pa fodd ddyn oedd yr un y buoch yn cydio yn ei drwyn, Mr Thomas?" gofynai Mrs Hughes.

"Dyn a gwaillt coch a llygad-tro gitta fa, a chot ola," atebai Shoni.

"Ai Cymro ydoedd, tua hanner cant oed?" holai gwraig y ty yn mhellach.

"Wel, am ia. Pam?" atebai y llall yn ddychrynedig.

"Gellwch benderfynu mai Mr Howells ydyw, yr hwn ddaeth yma heddyw o Ddowlais. Yr ydym yn ei ddisgwyl i fewn bob mynyd," ebai Mrs Hughes.

Edrychodd boys Aberdar yn syn y naill ar y llall, a gwibiai heddeidwaid, celloedd, carcharau a phethau o'r fath yn gyflym o flaen meddwl Shoni. Beth ddeuai ohonynt?

Ar hyn, dyma Mr Howells i fewn, ac yn dechreu adrodd i Mr a Mrs Hughes, fel yr oedd wedi cael ei insultio gan ryw ddau freddyf o Gymry ieuanc. Wrth gwrs, yr oedd Shoni ac Ianto mewn ystafell arall yn awr, yn crynu fel y ddalen. O'r braidd y gallodd Mrs Hughes ddal gwyneb syth. Holwyd Mr Howells yn fanwl, a cheisiwyd dofi ei lid. Pan awgrymwyd iddo y tebygolwydd i'r ddau wr ieuanc, yn eu diniweidrwydd ei gamsynied am "ddelw-gwyr," dechreuodd chwerrthin ychydig: ond nis gallai faddeu iddynt am ddau beth: am gydio yn ei drwyn, yr hwn gyda llaw oedd gryn dipyn yn fwy na thrwynau yn gyffredin; ac, yn ail, am gyfeirio at ei "lygad-tro." Yr oedd yr olaf yn gyffyrddiad a man gwan y gwr o Ddowlais. Teimlai, er hyny, lawer o gysur yn y ffaith fod y ddau "horswn diog" wedi cael profi blas ei ddyrnau a'i draed ef.

Gydag athrylith anffaeledig gwraig gall, llwyddodd Mrs Hughes i ddod a'r dyn o Ddowlais a'r bechgyn o Aberdar at eu gilydd, yn mhen ychydig. Wedi cael eglurhad ar bethau, ac i ofn a swildod cyntaf y llanciau basio, daeth y tri yn ffryndiau cynhes.

Busnes oedd yn galw ar Mr Howells, ac adroddai fel y byddai yn myned o gwmpas, ac yn galw yn yr hotels goreu am ginio—fod cinio ardderchog i'w chael yn y rhan fwyaf ohonynt am hanner coron. Yr oedd swyn gan y geiriau: "Cinio ardderchog" i Shoni, fel y gwyddis; ac yn wir, yn y peth hwn, nid oedd ei gyfaill fymryn yn ol iddo: Heblaw hyn, yr oedd y ddau wedi methu bwyta o gwbl bron er pan ddaethant i Lundain. Nid oherwydd prinder bwyd, cofier, ond oherwydd fod cymaint o add-

F7637

urniadau o gwmpas y bwrdd, ac ar fod y cig a'r bara a phobpeth yn cael eu tori mor denu.

"Ianto, bachan," ebai Shoni un bore, "Fe fyswn i yn lico cal cino dda am unwath, ta beth. W i ffael diall beth ma nhw yn tori y cig mor dena. Dos dim shwd beth cal llond pen o gwbl."

"Wel, ie," rhoeddai Ianto, "A'r bara ed. Pwy all lauwr i fola felna? W i yn lico cal sleishan o gig idon, a chwlflyn o fara, a llond plat o datws a grafi. Dyna beth yw cino. No bysa ni yn cal pob o fasined o gawl, yntefe Shoni?"

"Myn asgwmi, ni fynwn ni gino 'eddi, ta beth. Wyt ti yn folon dod i un o'r hotels mawr yna, i ni gal cino gwr byneddig am unwaith, Ianto?" atebai Shoni.

"Diawch, ottw; well i ti ofyn i Mr Howells yto o bothdy i pris nhw, a ffordd ma gofyn," ebai y bachan o Caeglas.

"Fi setlla i betha felny yn ffamws," atebai ein gwron."

Aeth Shoni yn dawel at y cyfaill o Ddowlais, gan ei holi yn fanwl am y prisoedd, y dull, a'r manylion yn nghylch yr hotels, a themlai ei fod yn berffaith hyddysg yn y cyfan. Teithiasant lawer y bore hwnw. Buont yn sefyll i sylu trwy ddrysau a ffenestri rhai o brif westai y ddinas, ond mynai Shoni y buasai yn well ceisio am le gwell o hyd. Y gwir am dani, teimlai ein gwron braidd yn grynedig wrth weled y tai mawrion, y boneddwy'r pwysig a aent i fewn ac allan, a'r gweision yn eu lifrau yn symud yn gyflym heibio eu gilydd oddifewn.

"Wel, Shoni, bachan," grwgnachai Ianto, "fi fyddwn wedi starfo fel hyn. Os nag wyt ti yn mynd i gal cino fel oit ti yn gweud, ma'n well i mi gal cwpl o ffagots ne rhwpath."

"Dere miwn yma, ta," ebai y Bachan o'r Pant yn wrol, gan arwain ei gyfaill i fyny y grisiau, ac i fewn i'r Royal Alexandra Hotel. Canlynodd y llall yn ddistaw, er fod ei geg led y pen yn agored.

"Dinner for two," ebai Shoni yn hyf mewn atebiad i ofyniad y swyddog moesgar a safai o'i flaen mewn crys gwyn a chot ddu "gwts fain."

Arweinwyd y ddau i ystafell eang, wedi ei dodrefnu yn gostus, ac wedi ei addurno yn ysplynydd. Edrychbai y ddau o'u cwmpas fel rhaid addef, fel dau lo. Ar hyn, wele weinydd arall yn dyfod atynt, wedi ei wisgo fel y llall, ac yn gosod cerdyn addurnedig ger eu bron, heb ddweyd yr un gair, ac i fwrdd ag ef i ochr arall yr ystafell.

"Beth yw y ticat yna dda, Shoni?" holai Ianto.

"Rhyw "Billy Fire" ne rwpeth yw a," atebai y Bachan o'r Pant, yn gall dros ber, gan blygu y Bill of Fare yn ei ddwyllaw.

"Dinner, please," gwaeddai Shoni yn uchel, ac ar hyn, daeth y gweinydd tuagatynt, gan ofyn yn foesgar ac yn Seisnig:

"Beth gymerwch, foneddigion."

"What you got?" holai Shoni.

"Roast beef, mutton, veal, chicken," atebai y llall.

"Got soup," gofynai ein gwron.

"Yes, sir," atebai y llall, "ox-tail and others."

"Beth fynwn ni, Ianto?" ebai Shoni. "Wyt ti'n gweld. Beef yw cig idon; mutton yw cig gweddar; a chig llo a phorc yw y ddau arall, a soup yw cawl wyt ti'n gweld. Beth sa ni yn cal cawl gynta, a thatws a chig weyn, Ianto?"

"Dyn fe, yn ffamws," atebai y llall, "ond pwy gig gewn ni?"

"Soup," ebai y Bachan o'r Pant, wrth y dyn a'r crys gwyn, ac yna, gofynodd os oedd ganddynt rhyw gig arall yno.

"O, yes," ebai y llall gyda llygaid a gwefus gellweirus, "We have some kippered herrings."

"Cuppyceris" yw y cig arall sy gita nhw;

F7638

dera i ni gal hwnw," cymhellai Shoni, "ma rhaid fod hwnw yn dda. Achos wyt ti'n gweld, fe allwn ni gal dicon o'r cig arall yna yn Aberdar."

Cuppyderis, please," ebai drachefn wrth y gwas.

Aeth y waiter i fwrdd gan chwertlin yn iachus wedi myned o olwg y ddau Gymro, a daeth dau neu dri o rai tebyg iddo gan rodci tro drwy yn ystafell, ac esgus trin y byrddat neu agor mwy ar y ffenestri. Wrth gwrs cael golwg ar Shoni ac ianto oedd eu lamcan.

Yn fuan daeth y soup gyda chauad arianlliw disglaer arno. O, fel yr oedd ei arogl hyfryd yn adfywio ysprydoedd lluddedig disgwylgar y ddau deithiwr newynog. Gosododd y gweinydd y ddau blat dwfn o'u blaenau, a dywelodd wrth ynt am gau y gloch pan fyddent yn barod. Symudodd hefyd y pypyr a'r halen yn nes atynt, ac aeth allan.

O, mor awchus y cydiodd y ddau yn y cawl gan ddechreu ymosod ynddo.

"Ma fa'n dda," ebai ianto, gyda'i geg yn llawn, "ond pam na bysa nhw yn i ddoti a miwn basin, ag yn doti mwy o bypyr ynddo?"

"Dyma dlicon o bypyr yn y peth yna: dod beth dy hunan," atebai y llall.

Cymerodd ianto y botel, a gwasgarodd y llychion poethion dros y plat, a cheisiodd orphen y cawl; ond, druan ohono; lechreuodd disian a thisian, a daeth y dagrau mawrion i'w lygaid, a thrwy y cyfan yr oedd yn chwertlin dros ei wyneb i gyd. Yr oedd wedi gosod gormod o bypyr ar ei fwyd ac edrychai yn ddigrifol dros ben. Penderfynodd yfed yr oll. Nid oedd ganddo amynedd i godi y cawl bob yn dipyn a'r llwy, ond cododd y plat at ei enau, ac yfodd ef, fel pe buasai yn yfed o gwpan. O gylch ei geg yr oedd yn gawl i gyd, ac yr oedd dwy firwd fechan yn llifo i lawr, un bob ochr dros ei wasgod i gyd!! Y mae yn dda nad oedd y waiter i fewn y pryd hwnw.

Teimlai ein harwr gywilydd i'w sodlau, wrth welod ei gyfaill yn gwneyd y fath anifail ohono ei hun, ac ni fu yn brin o ddyweyd hwy chwaith. Yr oedd Shoni yn fyw i'r ffaith y buasai ystrancau rhyfedd ianto yn cymylu anrhydedd y ddau, ac meddai:

"Wel, am ianto! bachan w, beth ti'n neud shwd fwlsyn o dy hunan? Wyt ti felse ti miwn twle mochiya yn byta mas o gafan!"

Tra yn brysur sychu ei geg, ei lygaid, a'i wasgod, tuchanai ianto nad oedd wedi cael hanner digon o'r cawl, a cheisai gan y llall alw am y gweddill o'r ginio. Yr oeddynt mewn ychydig gwell trefn pan ganwyd y gloch, ac y cliriwyd y platiau i fwrdd, and gwnaeth y waiter wyneb difrifol pan welodd gwflwr y llian gwyn oedd ar y bwrdd, ond taenodd gwen dros ei wyneb pan welodd wasgod ianto.

"Bachan," ebai mab y Caeglas, "W i yn mo'yn cal golwg ar y cig yna, ma fa yn hir, Shoni."

"Fe ddaw yn gwmws. Gad ni aros dicyn bach," ebai y llall.

Yr oedd dannedd y ddau yn rhedeg o ddwfr, ac nid oedd y soup ond wedi rhoddi awch iddynt at fwyd. Wedi aros braidd yn hir, dacw y waiter yn dyfod gyda llwyth trwm yn ei ddwy-law. Gosododd ef i lawr wrth ben y bwrdd gerllaw; yna dygodd y platiau gyda'r cauad disglaer ar bob un, a gosododd hwy yn barchus gerbron y ddau wron o Aberdar, gan ddywedyd wrthynt y deuai yn ol a'r gweddil o'r stanteithion yn union. I fwrdd ag ef.

Llosgai ein cyfeillion gan awydd gwybod beth oedd dan y ddau gauaf. Gwelent yr ager cynhes yn codi allan, a cheisient eu goreu arogl y bwyd. O'r diwedd, ebai Shoni:

"Ianto, ma'r boy yna wedi mynd i dynu

F7639

tatws, heb son am i berwi nhw allwn i feddwl. Myn brain i, os na ddaw a miwn bothdy shiffad. fe fydda i yn etrych beth sydd yn stereo gan yr en glawr yma."

"Go on, Shoni; cwn a lan," sibrydai y llall.

Wedi clustfeinio a chlywad neb yn dod, cydiodd y Bachan o'r Pant yn y clawr, a chododd ef i fyny yn araf, gan ddisgwyl gweled defnudd gwledd odditau. Pan welodd beth oedd yno, cododd ei ddwyllaw i fyny, a'r clawr yr un ohonynt, a doleiodd allan mewn siomedigaeth a thristwch chwerw:

"Ianto, Ianto, bachan, diawch; sgadan yw rhain! Dyma dro! Dyma dro!"

Brysiodd mab y Caeglas i edrych beth oedd ganddo yntau, ac, fel ei gyfaill, cododd yntau ei ddwyllaw i fyny mewn syndod, a gwaeddodd:

"Wel, sgadan sy gen inna ed. Myn asgwrn i, Shoni, fi fwra i ben y boy yna bant. Am beth gofynast ti iddo fa, gwed?"

Ar hyn, dyma'r waiter i fewn, ac wrth weled y ddau wr dyeithr yn sefyll i fyny, yn edrych yn wyllt a chynhyrfus, gyda'r cloriau arian yn eu dwyllaw dyrchafedig, cafodd y dyn fraw, ac ymholodd beth oedd yn bod. Gan nad oedd modd cael trefn rheswm gan y ddau Gymro, y rhai oeddynt yn ei drin yn enbyd mewn iaith hollol ddyeithr iddo, galwodd ar ddau o'i gydweision i fewn. Ceisiodd un ohonynt s'arad Germanaeg, a'r Hall Ffrancaeg a Shoni, ond i ddim pwrpas. Tystiai Ianto ar ol hyny na chlywodd y fath frygawthan ddisynwyr erioed a'r tro hwnw.

Diwedd y peth fu i'r ddau Gymro orfod ymadael yn bur ddiseremoni heb brofi y ginio, ond nid heb dalu am dano, coffe.

"How much?" gofynai Shoni yn sarug.

"Saith a chwech yr un," ebai y Sais fu yn gweini arnynt.

"Clwost ti, Ianto?" ebai ei gyfaill, "ma nhw yn mofyn pymtheg swllt gita ni: saith a wech yr un! Beth newn ni, bachan. Ma arno i ddicon o want roi pob o glowtan iddo nhw a'i hecan i sha ty Mr Hughes."

Ar hyn, wele wr tal mewn lifrau yn dod i'r golwg, ac un arall yn ei ganlyn. Penderfynodd hyn y cwestiwn, talwyd y bil, ac allan a'r ddau deithiwr helbalus i ganol yr heol.

Edrychai y ddau am y niwyaf trallodus, ond yr oedd Ianto Caeglas wedi chwerwi yn echrtydus.

"Shoni," meddai, "bothdy flewyn odd rynto i a doti 'nwrn trw fola'i chap yna! Bachan w, di'n i ddim mynd i attal ryw dacla felna i'n damshaf ni dan drad, oti ni?"

"Wel, nag in, wrth gwrs; ond wyt ti gweld; pe bysan ni yn roi clatshan i un o rena, fe fysa pump neu wech falla, yn citsho yndo ni," atebai ein gwron; "pe bysan ni yn i cal nhw i Aberdar, fe nelsa ni net a nhw."

"Bachan w," ebai mab y Caeglas, "wyt ti coffo fel o nhw yn y'n scwto a'n hwpio ni obothdy'r lle! Bach fi alswn wado'r tri yna minan. Fe fyswn i wedi roi cledsan i'r en un bach yna ed on' bai i'r boy mawr hyny ddod miwn. Ond beth newn ni am fwyd, Shoni?"

"Nawr wy i'n coffo. Fe wetws Marcad Tydraw wrtho i am goffo am lvn'd i weld Betsy i merch i. Wyt ti'n napod Betsy, brietws gita'r bachan hyny—Reynolds odd i enw fo. Odd a'n glare yn yr office?" ebai Shoni.

"O, otw, otw," atebai Ianto.

"Dyma fe, ni ewn ni nawr iddi gweld hi ag i'n ni yn siwr o gael tamed o fwyd o'nda hi; achos merch fach biwr digynnig odd Betsy Odd hi a fi yn yr ysgol gita'n gilydd."

Ar hyn, i fwrdd a'r ddau, yn ol yr address oedd yn mhoced Shoni, ac wrth gyfarwydlyd yr heddeidwaid, a gyda'r trams i chwilio am Betsy, merch Marcad Tydraw, yr hyn o'i

F7640

gyfieithu yw Mrs Reynolds. Ond taith helbulus tu hon eto.

PENNOD IX.—MYN'D I WEL'D BETSY.

Yn mhen amser cyrhaeddasant y ty.

"Bachan ty gwr byneddig yw hwn, alswn i feddwl. Wni otti'r drecshons yn iawn, lanto?" gofynai Shoni, gyda phryder.

"Pwy rows a i ti?" holai y llall.

"On taw Wil Tydraw i hunan, brawd Betsy," ebai ein harwr, yn fyfyrgar. "Owa ni ddim yn meddwl fod hi'n byw mewn ty mor fawr a hwn."

"Falla taw morwn yw i," awgrymai lanto.

"Cau dy ben. Shwd wyt ti mor dwp? Ond gwetas i bod hi wedi priodi gyda Mr Reynolds," hanner waeddai y bachan o'r Pant.

Y gwir am dani yr oedd ein cyfeillion ill dau mewn tymber bur ddrwg. Cydrhwng eisieu bwyd a'r helbulon mawrion a gyfarfyddasant a hwynt, nid oeddynt mewn cywair i chwareu gyda hwynt. Yn ben ar hyn oll yr oeddynt wedi meddwl am ginio gyda Mrs Reynolds, ond pan welsant y ty mawr lle yr oedd hi yn byw syrthiodd ofn arnynt.

"Cnocar drws, bachan," ebai lanto, yn ddi-amynedd.

Ymwrolodd Shoni, a churodd yn drwm a'i ffon. Daeth un o'r morwynion at y drws ar unwaith, ac edrychai braidd yn ofnus ar y ddau Gymro gyda'u ffyn. Yr oedd y ferch yn hynod drwsiadus a glanwaith, gyda ffedog llien ac ysnoden wen ar ei gwallt. I lygaid Shoni ymddangosai yn hynod debyg i Mrs Reynolds, ac yn wir, credodd mai hi ydoedd, a theimlai ar unwaith yn hynod gartrefol a cainhes.

"Shwd i chi, Betsy?" ebai ein gwron hyf, "ottich chi ddim yn y napod i? Shoni o'r Pant, ferch, o 'Berdar, a lanto Caeglas yw e."

Tra dywedai hyn ymwithai i fewn i'r neuadd, a daliai ei ddeheulaw allan gan gynyg ysgwyd dwylaw a'r ferch ieuanc. Ond ciliai y llances rhagddo, fel pe am fywyd.

"Bachar, nid Betsy yw ona," meddai lanto, "ma'n well i ti ddod mas i stepin y drws, Shoni."

Yr oedd y ferch wedi myned i fewn i'r ty, ac yn fuan dychwelodd gyda chreadur o ddyu mawr cryf, yr hwn a aeth at y ddau deithiwr gan ofyn eu neges, mewn ton awdurdodol.

"Want to see Mrs Reynolds, sir," ebai Shoni.

"Eich cerdyn, os gwelwch yn dda," ebai y dyn, yr hwn oedd yn gweini fel coachman y teulu.

"Pwy gerdyn?" gofynai Shoni, yn synlyd.

"Your address, sir," ebai y Sais, yn swrth a chwta.

"O, dyma fe, syr," meddai y Bachan o'r Pant, gan estyn iddo address Mrs Reynolds, yr hwn oedd wedi ei ysgrifenu iddo gan Wil, ei brawd.

Gwenodd y coachman pan edrychodd ar y papur, yr hwn oedd wedi ei blygu yn fanwl, ac wedi casglu cryn dipyn o lwch yn mhoced ein cyfaill. Sibryddodd ychydig eiriau yn nghlust y forwyn, yr hon a'i cymhellodd i fewn i ystafell gerllaw, ac a ofynodd eu henwau.

Yr oedd golwg ddigrifol ar Shoni ac lanto yn y drawing-room. Codai y carped hyd ei syrmau. Yr oedd y celfi o'r fath oreu; gor-chluddid y muriau gan oil paintings drudfawr, ac ar y fantell, uwchben y lle tan, safai drych mawr ac ardderchog. O'r braidd y meiddiai y ddau anadlu ac ni ddaeth i'w meddwl i eistedd yn y fath le. Am beth amser edrychent yn y drych a nodwyd.

Yn fuan, wele foneddiges dal, deg yr olwg, yn gwneyd ei hymdangosiad ac yn peri iddynt eistedd. Suddodd y ddau i'r cadeiriau, gan ddal eu hetiau a'u ffyn yn eu dwylaw, ac ed-

rychent yn hynod anghyfforddus. Gofynwyd iddynt yn Saesneg beth oedd eu neges.

"Want to see Mrs Reynolds, mum," ebai ein harwr, mewn llais go grynedig.

"A ydych yn adnabod Mrs Reynolds?" holai y foneddiges, yn yr iaith fain eto.

"Iss, mum," ebai Shoni. "She is from Aberdar."

Chwarddodd y foneddiges allan yn iachus, a dywedodd mewn Cymraeg glan, gloyw:

"Wel, John, wyt ti ddim yn fy adnabod i heddyw, dywed?"

"Chi yw Betsy? Wel ia tawn i marw! Shwd ich chi, gwetwch?" meddai Bachan y Pant, yn rhigl, gan neidio ar ei daed.

"Pwy yw y cyfaill yma sydd gyda chwi, John?" holai Mrs Reynolds.

"Ianto, bachan Pegi Caeglas, ich chi'n gwpod," oedd yn ateb.

Wedi holi hynt ei mam a'r cyfeillion yn yr hen gartref, gofnodd y foneddiges, pa bryd y cawsent fwyd.

"I ni wedi cael dim oddar brecwast," meddai Shoni, "ond dyferyn bach o gawl."

Chwarddodd Mrs Reynolds at hyn a gwasgodd fotwm bychan yn y wal. Yn sydyn wele'r forwyn eto wrth y drws; ac, ebai y feistres wrthi:

"Rhowch dipyn o fwyd i'r ddau foneddwr yma yn y gegin."

I fwrdd a'r boys o Aberdar i'r gegin ar ol y forwyn, ond cyn iddynt fyned gofalodd Mrs Reynolds ddyweyd gair yn nghlust Shoni i'r perwyl canlynol:

"John, gofynwch chi am beth fynwch chi i fwyta ac i yfed, ond gofalwch beidio siarad gair gyda'r morwynion yma am Aberdar. Ac os byddant yn eich holi, gofalwch beidio eu hateb."

"All right, Mrs Reynolds, fe newr ni o'r gora a nhw," sierhai Shoni.

I fewn i'r gegin a hwy, ac at y bwrdd mawr gwyn. Teimlai y ddau deithiwr blin yn fwy cartrefol yno nag yn y drawing-room; ac nid oeddynt heb sylwi fod y morwynion yn hynod foesgar iddynt hefyd.

Arlwywyd y bwrdd o'u blaenau a chawsant ginio ardderchog o gig eidion, a thatws, a bresych, a phwdin. Cynnysgwyd ewrw iddynt i'w yfed, ond gwrthododd ein gwron o'r Pant dros y ddau. Taffodd Ianto, er hyny, hen lygad ar Shoni y pryd hwnw; ond, pan oedd Shoni yn ddirwestwr nid oedd yn yfed pethau meddwol, hyd yn nod yn y dirgel. "Good templar ne lond bola i fi," ys dywedai yn fynych.

"Shoni, bachan," ebai Ianto, yn gwynfanus, "ma raid i ni gal rwpeth i ifad; w i just a thacu, ta beth."

"O'r gora, fi fynwn de," atebai y llall, a chan droi at y ferch ieuanc fu yn gweini arnynt, ebai: "Tea, please."

Edrychai y morwynion yn syn ar eu gilydd wrth weled y ddau yn clirio y bwyd gyda'r fath gyflymdra, ond nid oeddynt yn osgoi gwrthod yr hyn a geisient. Trwy y cwbl yr oedd y ddau Gymro gwladgarol yn siarad y cyfan yn Gymraeg. Ceisiodd y merched eu tynu i siarad dro neu ddau, ond y cyfan a gawsent mewn atebiad i'w holiadau am y tywydd, y bwyd, a strydoedd Llundain oedd: "Iss" neu "No."

Daeth y te i'r bwrdd ac ychydig deisen gydag ef, a llwyddodd y ddau i guddio toraeth o hwnw drachefn.

"Bachan, Ianto; dyma beth yw cinio gwr byneddig, yntefa? Ma hon cystal a ffest clwb ne swper Mr Davies, y Coffi Tavern," ebai Shoni, yn llawen.

"Oti, myn asgwrn i," meddai y llall, gan lyfu ei wefau a gofyn: "Wni os rwpeth i dalu?"

"Beth ti'n wilia'r, ioncyn dwl! Wyt ti'n cretu taw miwn cookshop wyt ti, gwed?"

F7642

llefai y gwr o'r Pant, "ond fe weta ti beth newn ni os joini di?"

"Beth?"

"Fi rown bob o swllt i'r petar morwm yma."

"W i ddiwon boddon," ebai lanto.

"Wel mas a nhw ta," ebai Shoni, gan estyn y sylltau i'r merched.

Ni wyddai y morwynion beth i wneyd ohonynt erbyn hyn, a diolchasant yn gynhes iawn ac yn hynod foesgar.

Yr oedd Shoni yn llygadu yn rhyfedd ar un o'r pedair: lances benddu, lygad-ddu, gyda chryn dipyn o ddireidi yn amlwg yn nghil ei llygaid ac yn nghornel ei gwefus. A dyweyd y gwir, nid oes sicrwydd na ddarfu i'r Bachan o'r Pant wincio arni fwy nag unwaith, a thystiai lanto ar ol hyn fod y ferch hono beunydd yn tendio ar Shoni a'i bod yn gwrido yn barhaus pan edrychai ein harwr tuagati.

Tua'r amser yr oeddynt yn gorphen, canodd y gloch a rhedodd y lances benddu i'w hateb. Daeth yn ol gan ddywedyd fod y boneddigion i fyned i'r drawing-room, os oeddynt wedi gorphen.

Teimlai ein cyfeillion yn foddlon i ymadael erbyn hyn, a buasai yn well gan Shoni yn neill-duol, gael aros yn y gegin. Yr oedd myned i'r ystafell orwych arall fel myned i garchar bron yn ei olwg. Heblaw hyn, nis gallai dynu ei lygaid oddiar y ferch a nodwyd. Ond rhaid oedd myned, oblegid yr oedd yr un gloch yn canu eto yn fwy ystwrillyd nag o'r blaen.

Cododd y ddau ac aethant allan ar ol y lances, ond wedi cyrhaedd y passage, gosododd y Bachan o'r Pant ei freichiau am ganol y feinir a gwasgodd hi yn dyn at ei fynwes a phlanodd gusan melus, mawr, ar ei gwefusau cochion. Nid oedd lithau ychwaith yn amlygu unrhyw anfoddlonrwydd i'r gwaith. Yr oedd lanto yn cerdded o'r tu ol, a gwelai Mrs Reynolds draw o'i flaen. Ceisiodd ddyweyd wrth Shoni, ond yr oedd hwnw yn hollol fyddar i bobpeth. Ar hyn gwelodd y ferch ei meistres yn yr ymyl, ac ymysgydwodd yn rhydd gan ddychwelyd i'r gegin yn gythryblus ei hyspryd ac yn disgwyl Mrs Reynolds ar ei hol bob mynyd.

Am Shoni, nid oedd ganddo air i'w ddyweyd, ond canlynodd ef a'i gyfaill i'r drawing-room ar ol gwraig y ty. Ni chymerodd lithau arni fod dim o'i le wedi digwydd. Holodd yn mhellach am yr hen gymydogion ac am syniadau y bechgyn am Lundain, datganodd ei gofid fod Mr Reynolds oddicartref, a rhoddodd sypyn bychan iddynt fyned gartref i'w mam.

O'r diwedd daeth amser ffarwelio, ac allan ac i ffwrdd a boys Aberdar fel dau gawr wedi adnewyddu eu nerth. Mawr oedd eu siarad am dy Betsy, am y cinio ardderchog, ac am y merched yn y gegin. Gofidiai ein gwron rhag i'r ferch lygad-ddu gael ei throï ymaith, a thystiai y mynai gael ei gweled ar ol hyn.

Rhwng cromfachau, ni waeth dyweyd i Shoni ar ol hyn, werthu lanto un noswaith, trwy ei adael yn y ty wrtho ei hun, gan fyned bob cam i'r heol lle yr oedd Mrs Reynolds yn byw. Nid eisieu gwled Mrs Reynolds yr oedd arno, wrth gwrs. Wedi aros rhai oriau tua chan' llath i ffwrdd a chadw ei lygaid yn gyson ar y ty, gwelodd ferch ieuanc yn dyfod allan. Llamodd ei galon o'i fewn. "Dycco hi," ebai wrtho'i hunan. Ond siomwyd ef yn hyn, er hyny; un o'r morwynion ereill ydoedd. Aeth ati yn syth ac holodd os oedd y ferch lygad-ddu wedi bod o dan ddysgyblaeth.

"Dim o gwbl," oedd yr ateb. "Dewch lawr i'r ty; mae'r teulu allan ac yr ydym yn eu disgwyl yn ol heno."

"Dim, thank you," atebai y Bachan o'r Pant, oblegid ofnai fyned i fewn, rhag cael ei ddal yn ddiafrybod eto. Awgrymodd mai ei unig awydd oedd cael gwybod sut oedd pethau yn sefyll.

Cymbellai y llall yn daer, ond i ddim pwrpas,

F7643

ar hyn dywedodd y buasai Lucy yn anfoddlon iddo fyned i fwrdd heb iddi gael ei weled, ac i fwrdd a hi i gyrchu Lucy.

"Lucy," sibrydai Shoni wrtho'i hun, "dyna enw bach pert; Lucy, Lucy."

Dacw Lucy yn gwneyd ei hymddangosiad, ac yn nghysgod coeden gerllaw, cafodd ein cyfaill gusan melus arall heb un ymdrech o gwbl.

Dyna ddigon ar y pen yna; oblegid nid arferiad bywgraphwyr dynion mawrion ac enwog, yw dyweyd llawer ar y pwynt cysegredig uchod. Digon yw dywedyd fod lanto wedi holi llawer parthed absennoldeb Shoni ac mai ychydig gafodd wybod.

(Fw barhau.)

F7644

SHONI O'R PANT:

(UN O ENWOGION ABERDAR.)

Gan IFAN BRYNDU.

PENNOD IX.—(Parhad.)



ND, i ddychwelyd, sut y cyrhaeddodd y ddau dy Mr Hughes y noswaith y buont yn gwledda yn nhŷ Mrs Reynolds?

Teimlai y ddau, fel y nodwyd, yn ysgafn galon ac iach. Yr oedd y cylla llawn a'r croesaw iach a gawsant (a'r olwg ar Lucy i Shoni) wedi gosod y ddau ar eu huchelfanau. Yr oedd helbulon y boreu yn yr hotel hono, bron wedi eu llwyr anghofio ganddynt.

"On, bachan," ebai Ianto, "ma gita ni sopyn o ffordd i fyn'd sha thre'; well i ni fyn'd gita'r tram."

"Ma nhw mor llawnd w, a ma nhw yn damshal ar dy drad ti o hyd. Der i ni fyn'd gita'r un bach yna," atebai cariad Lucy, ac i fwrdd a'r ddau at y cab stand.

"Dera mlán, Ianto," meddai, gan fyned i fewn i un o'r cerbydau.

"I b'le, foneddigion?" gofynai y gyrwr.

"Granville Crescent," llefai Shoni, ac ymaith a hwy drwy strydoedd llawnion Llundain, fel y fellten.

"Ma hyn shaw yn well na'r hen rai mawr yna, ond dyw a, Ianto?" sibrydai Shoni, "achos gweldi; dyw hwn ddim yn stoppo o hyd, a dos neb yn dod miwn i'n poeni ni."

"O, ofi, bachan, ma hwn gystal a carriage Fothergill," atebai Ianto, yn fawreddog.

"Os gen ti newid, Ianto? Dos gen i ddim llai na swllt. I ni fal i dalu fa. Fe fydd yn rot rynto ni," meddai y Bachan o'r Pant.

"Os, os, dyma nhw," atebai y llall, gan roi y pedair ceiniog i Shoni, yr hwn, wrth gwrs, oedd yn talu pobpeth.

Yn mhen ychydig cyrhaeddwyd pen y daith. Neidiodd y cerbydwr i lawr oddiar ei sedd ac agorodd y drws. Allan a'r ddau foneddwr yn urddasol ddigon, ac estynodd ein harwr y rot i'r gyrwr, yn ddigon diffwdan, a dechreuodd droi i fwrdd.

"Beth yw hyn?" gwaeddai y gyrwr.

"Y tal," ebai Shoni, yn swrth.

"Y tal, yn wir," llefai y llall. "A ydych yn credu mai ffwl ydwyf?"

"Faint ydych yn geisio?" gofynai Shoni, drachefn.

"Saith swllt, sef tri a chwech yr un," gwaeddai y gyrwr, gan gyfeirio a'i fys at y prisoedd argraphedig ar ochr y cerbyd.

Tystiodd ein harwr mai dwy geiniog arferai dalu am fyned gyda'r tram; ond nid oedd dim yn tycio, ac yr oedd y gyrwr yn dechreu meddwl mai ei wawdio yr oeddynt, a bygythiodd alw policeman. Parodd hyn i'r ddau welwi a chrynu.

"Bachan w, mae a'n mofyn saith swllt gita ni," ebai Shoni.

"Dos dim shwd beth," atebai Ianto, yn ddi-frifol, "mae a'n meddwl bod ti isha prynu'r ceffyl a'r trap i gyd."

Ar hyn daeth Mrs Hughes i'r golwg. Talwyd y gyrwr yn bur fuan; a thystiodd y ddau Gymro mai dyna'r tro diweddaf iddynt hwy fyned i "hen garafan y boy yna," ys dywedent.

Ni wnawn drafferthu adrodd yn bresennol am y cyfarfyddiad hapus rhwng Shoni a Mr Henry Richard, A.S., yn y brif-ddinas; am yr ymweliad a Thy'r Cyffredin; am gyfarfodydd Mr Spurgeon, a llu o bethau dyddorol ereill a gymerodd le yr wythnos hono. Efallai y cawn gryffe i draethu amynt eto, rywbyrd.

F7645

O'r diwedd, daeth y diwrnod i ddychwelyd. Awyddai y ddau gyfaill am gael golwg ar "Sweet 'Byrdar," unwaith eto. Yr oeddynt wedi setlo y cyfrifon gyda Mrs Hughes. Tra yr oedd cwpanaid o de yn cael ei drefnu iddynt, allan a hwy i rodio ychydig ar hyd ochr yr ystryd.

"Edrych yma, Shoni," ebai Ianto, gan gyfeirio at fotwm gwyn yn y wal; "ma hwn 'run peth a hwnw odd Betsy yn doti i bys arno fa"; a gyda hyn gwthiodd y botwm yn gryf, heb dynu ei fys i ffwrdd am beth amser.

Agorwyd drws cyfagos, ac ymddangosodd dyn bychan, pennoeth, gan ofyn, yn sarug a gwyllt, pa beth oedd arnynt eisieu. Gwthio'r botwm yr oedd Ianto o hyd, hyd nes i'r dyn bychan gydio yn ei fraich a gofyn iddo eto beth oedd yn wneyd.

Neidiodd Ianto Caeglas erbyn hyn. Ni fedrai Shoni ddeall beth oedd yn bod, oblegid nid oedd wedi sylwi ar yr hyn a wnaeth ei gyfaill. Ar hyn dacw heddeidwad yn dod i'r golwg, a dechreuodd y dyn bychan waeddi, "Police, Police," nerth ei geg, a chymerodd y ddau deithiwr at eu traed, gan redeg hyny fedrent i gyfeiriad eu llety. Wrth eu gweled hwy yn rhedeg a chlywed ysgrechiadau y llall, carlamodd y gwr a'r got las nerth ei garnau i'r un cyfeiriad. Creodd hyn gryn gynhwrf a dechreuodd llawer ereill redeg ar ol Shoni ac Ianto.

PENNOD X.—CYRDDAU'R COFFEE TAVERN.

Erbyn i'r ddau ffoadur gyrhaedd y ty, yr oedd eu gwynt yn eu dyrnau, a'u calonau yn eu gyddfau. Edrychent fel y galehen. Gyda'u bod yn cyrhaedd y ty, i fewn a'r heddeidwad ar eu holau, gyda'r dyn bychan pennoeth yn ei ganlyn.

Methai Mr a Mrs Hughes ddyfalu beth oedd yn bod. Ond y peth cyntaf a wnaeth Mrs Hughes oedd cau drws y ffrynt ac attal pawb i fewn, ond y swyddog a'r dyn bychan.

Tyngai yr olaf mai cymeriadau peryglus oedd Shoni ac Ianto, ac mai yspio o gwmpas y tai y dydd, er mwyn cael tori i fewn iddynt y nos yr oeddynt.

Rhoddodd Mr a Mrs Hughes y cymeriad uchaf i'r ddau, ac wedi eu holi sut y bu pethau, ccis-iwyd tawelu y creadur bychan gwyllt a nodwyd.

Gwelwyd Mr Hughes yn wincio, fwy nag unwaith, ar yr heddeidwad, yna, gofynodd yr olaf: "Ar ba gyhuddiad yr ydych am i mi gymeryd y dynion yma i fyny, oblegid nis gallaf eu cymeryd ar fy nghyfrifoldeb fy hun."

"Cofiwch hyn," ebai Mr Hughes, "y byddwn yn hawlio iawn oddiarno, os byddwch yn taflu unrhyw anfri ar y boneddigion hyn."

Tynodd y dyn bychan ei gyrn ato yn rhyfedd, ac aeth ymaith gan siarad rhyngddo ag ef ei hun yn ddidaw.

Wedi iddo fyned, eisteddodd yr heddeidwad i lawr a chwaddodd allan yn iachus; yna, ebai mewn Cymraeg pur, fel sydd yn Aberdar: "Wel, Shoni bachan; shwd wyt ti? A shwd wyt ti, Ianto? Pwy fysa'n meddwl am wel'd y Bachan o'r Pant a'r Bachan o Caeglas yn y man hyn?"

"Bili Lloyd, myn asgwrn i!" bloeddiat y ddau yn un llais, gan gystadlu am law yr heddeidwad.

Cafwyd ymgom ddifyr ar ol hyn: Yr heddeidwad yn holi am yr hen gyfeillion, am ei dad, ac am Ned, ei frawd, oedd yn Nghaerdydd, ac yn dyweyd wrth Shoni ac Ianto y gallent ddiolch mai efe oedd yno, neu y buasant yr adeg hono mewn lodgings pur wahanol.

Yr oedd amser y train yn dynesu, ac allan a'r heddeidwad a'r ddau gyfaill gyda'u gilydd; a chredai llawer ei fod wedi eu cymeryd i'r ddalfa. Aeth Bili Lloyd a hwy, a gosododd hwy yn y train am Ddeheudir Cymru, a chyrraeddodd y

F7646

ddau yn ddyogel i'w hen gartref, ac at eu hoff gyfeillion.

* * * * *
Mawr yr hwyl a gai Shoni yn adrodd yr hanes am y dyddiau fu yn Llundain, ac am yr hyn a welodd ac a glywodd. Cadwai o'r golwg er hynny bob cyfeiriad at un peth, er mai hwnw oedd beunydd uchaf ar ei galon a'i feddwl.

Nid hir y bu chwaith cyn trefnu ar gyfer taith arall; a phenderfynodd na chawsai ianto na neb o'i fath gyd-deithio gydag ef y tro hwnw. Nid awydd gweled rhyfeddodau Llundain oedd arno ychwaith. Credai yn ddiysgog a theimlai yn ddigon boddlon, ei fod wedi gweled pobpeth oedd yn werth ei weled yn y brif-ddinas.

Wedi ymgynghori a Mr Cynon Jones, gwawriodd goleuni ar bethau. Yr oedd Shoni wedi clywed yn nhy Mr Hughes, yn Llundain, fod minteiodd yn myned, yn awr ac eilwaith, am excursion i Switzerland ac i Itali. Holodd y gweinidog yn fanwl am y peth, ac er i hwnw geisio dyweyd mai pregethwyr ac offeiriad gan mwyaf oedd yn myned felly, nid oedd dim yn tycio.

Holai y Bachan o'r Pant yn fanwl hefyd os oedd rhaid myned trwy Llundain, wrth fyned ac wrth ddychwelyd. Sicrhawyd ef mai felly yr oedd, a phenderfynodd yntau ar unwaith ynddo ei hun, na chawsai dim ond anghu ei rwystro i un o' gydag un o'r cwmnioedd nesaf fyddai yn cychwyn tua Switzerland. Yr oedd wedi bwrw y draul, wrth gwrs, a gwyddai y gallasai ei chyfarfod yn ddigon didrafferth.

Rhyfedd y cyfnewidiad oedd wedi dyfod dros ein cyfaill ar ol y daith gyntaf i Llundain. Yr oedd yn fwy llawen nag erioed, ac yn canu yn ddidaw. Yn y ty, yn y gwaith, ac ar yr heol, yr oedd fel y delyn. Nis gallai y teulu er hynny ddyfalu beth oedd y llythyrau a ddeuent iddo rhyw ddwywaith yr wythnos, a'r sypynau papur ysgrifenu a ddygai yntau i'r ty yn barhaus. Deffrowyd chwilfrydedd y gwragedd yn fawr, ond yn gwbl ofer; yr oedd ein harwr mor gadarn a'r graig, mor ddistaw a'r bedd, ac mor ffalst a'r cadno.

Yr oeddys wedi sylwi fod Shoni yn myned i dalu sylw mawr i'w wisg, a'i wallt, a'i foustache hefyd. Gwelid ef yn fynych yn gwenu arno ei hun yn y drych, yn cwrlio ei drwynflew, ac yn iro ei wallt yn fwy nag erioed. Peth arall a dynodd sylw oedd fod Shoni beunydd yn ceisio siarad Saesneg ar bob cyfle a gawsai. Yn ddieithriad anerchai y plant yn yr iaith fain; ac unwaith, dechreuodd barablu Saesneg a'i fam! Trodd yr hen wraig ato, un diwrnod, ac ebai yn llym:

"John, y corgi drwg; wyt ti'n gneud sport am y mhen i, gwed? Wyt ti wedi hyrto ar Sasneg ar ol i ti fod yn Llundain. Be sy arnot ti?"

Ychydig wyddai yr hen fam beth oedd yn nghanol ei hanwyl John, y pryd hwnw; a theg yw dyweyd mai yn hollol ddiarwybod iddo yr anerchodd ei fam yn iaith Victoria.

* * * * *
Parhai yr oedd y cyfarfodydd nos Sadwrn yn Nghoffee Tavern Mr Davies, o hyd, ac os dim yr oeddynt yn enill nerth. Mae'n wir fod rhai o'r rhai mwyaf diymenydd o'r cwmni wedi gwrthgilio, ond yr oedd ereill wedi dyfod i gymeryd eu lle. Arweinwyr penaf y cyfarfodydd trwy'r anser oedd Cynon Jones, Mr Brown, a Sam Misd'r Haliars. Cynnwylid y cyfarfodydd bob nos Sadwrn. Ceid areithio, adrodd, canu, ac adrodd ystraeon, a dygid y cyfan yn mlaen yn yr yspryd mwyaf llawen a chalonog.

Ambell i noswaith gwahoddid telynwyr a'i delyn yno, a cheid canu gyda'r delyn. Crwth fyddai yr efferyn ar noson arall, tra ambell dro yr ymwelid a'r lle gan rai o brif gantorion yr ardal, y rhai a ddeuent yno yn rhydd ac yn rhad ar gais y cwmni.

F7647

Dylid nodi fod gan Mr Cynon Jones law helaeth yn y gwaith o drefnu y pethau hyn. Yr oedd y gweinidog wedi ei synu a'i lawenhau yn fawr gan lwyddiant y gwaith. Teimlai Mr Davies, perchenog y ty, yn hynod lawen: nid yn gymaint ar yr elw a gawsai, er ei fod yn gwerthu llawer o deisenod, sandwiches, te, coffi, a glwybyroedd dirwestol, yn ystod y cyfarfodydd hyn. Ei lawenydd penaf oedd, fod cynifer o wyr ieuainc hawddgar, a da, yn cael eu cadw o'r tafarndai ar nos Sadwrn.

Druain o lawer o weithwyr Morganwg ar nos Sadwrn. Y maent wedi eu rhyddhau o'r gwaith; wedi ymolchi a gwisgo yn daclus; wedi talu eu biliau, a chauldynt gryn dipyn o ariau yn ngweddill yn eu llogellau. Beth gant wneyd o'u hamser? I ba le y cant fyned i dreulio awr ddifyr, ac i fwynhau rhyddid? Paham nad arosant gartref i ddarllen ychydig? Nos Sadwrn! nos Sadwrn!! Aros gartref i ddarllen nos Sadwrn!!

Dim ond y dyn o'r lleuad, neu ebwch pendew o berfeddion gwlad ddyeithr fuasai yn meddwl am y fath beth! Wedi bod yn nyfnder y ddaear ar hyd yr wythnos, yn nghanol ei beryglon a'i ddyledswyddau trymion, ychydig o hwyl aros yn y ty sydd ar unrhyw lowr. Heblaw hyny, os oes bod cymdeithasgar yn rhywle, y glowr yw hwnw. Y mae cwmni fel anadl einioes iddo. Gwell ganddo farw na byw heb gwmmi.

Pa ryfedd felly ei fod yn cael ei ddenu ar ei ben gan swynion y dafarn? Yno ceir y delyn a'r ddawns; y caneuon digrif a'r cwmni difyr; yno ceir tan braf a goleuni disglair yn maob congl. Heb yn wybod iddo y mae o dan ddylanwad y gyfaredd farwol, ac nid oes ganddo le arall i droi iddo.

Onid yr oedd cyfarfodydd y Coffee Tavern yn troi allan yn llwyddiant perffaith. Yn mhlith rhai o'r aelodau mwyaf selog, ceid rhai a adnabyddid fel "meddwon penbw!" ychydig cyn hyny. Er hyny, ni chawsant redeg eu cwrs yn ddiwrthwynebiad. Taenwyd rhai chwedlau maleisus am danynt. Ceisiwyd beio y caneuon a ddadgenid; ceisiwyd tafu anfri ar Mr Cynon Jones, am ei fod yn beiddio treulio ei nos Sadyrnau "yn y fath gwmmi," ac am ei fod yn cefnogi canu gyda'r delyn a'r crwth, a phethau cyffelyb. Ceisiodd ereill ddyweyd fod pethau meddwol yn cael eu gwerthu yno yn ddireglaidd. Mewn gair, yr oedd y gwrthwynebiad yn tarddu o ddau le pur nodweddiadol: oddiwrth ychydig Phariseaid crefyddol, hirwyntog, ac wrth y tafarnwyr oedd wedi colli rhai o'u cwsmeriaid goreu.

Gwnaeth y feirniadaeth lem a'r gwrthwynebiad maleisus hwn les dirfawr. Mewn un cyfarfod siaradodd Mr Cynon Jones rywbeth i'r perwyl a ganlyn:—

"Yr ydych yn gweled gyfeillion, fod llygaid lawer yn ein gwyllo; ac fod yn bwysig i ni fod yn ofalus. Peidiwch meddwl am wadu y cyhuddiadau a ddygir i'n herbyn, a pheidiwch traferthu i ddadlu gyda'r sawl sydd yn ein cyhuddo o wneyd hyn a'r llall."

"Ond, ma nhw yn trio damajo'ch caritor chi, syr," llefai Sam Mishdir Haliars yn ddigofus.

"Gadewch chwi rhyngof fi a hwy, Samuel," atebai Cynon Jones, "y mae genyf gynllun pur effeithiol i'w cyfarfod, os cytunwch a mi."

"Beth yw a, Mr Cadeirydd?" holai Twm Llewelyn.

"Gad dy fwstwr, Twm; cerwch chi 'mlan, Mr Jones," ebai Sam.

"Wel, hyn:" parhai Cynon Jones, "y maent yn ein cyhuddo o ddefnyddio iaith anwedus."

"Os neb yn gweyd bo chi yn recu, syr, os a?" holai Wil Dal.

"Os ydynt yn cyhuddo y cwmni hwn," ebai y gweinidog, "y maent yn fy nghyhuddio innau, oblegid yr wyf yma gyda chwi yn barhaus, ac y

mae yn rhaid i mi sefyll neu syrthio gyda chwithau (cymeradwyaeth uchel). Ond hyn oeddwn am ddyweyd: Os cawn uno gyda'n gilydd i beidio byth defnyddio iaith anweddu, gallwn rhoddi her i'n enllibwyr a gadael iddynt i ddialedd eu cenfigen eu hunain (clywch, clywch). Peth arall y carwn i ni wneyd yw talu ychydig sylw i'n cartrefi, ac i'n gwragedd, a'n plant, a'n mamau. Trwy fod yn dyner, yn garedig, ac yn ystyriol tuagatynt hwy, gallwn wneyd ein hunain yn fwy dedwydd. Yr ateb goreu fedrwn roddi i'r rhai sydd yn ein difenwi yw eu cyfeirio at ein cartrefi dedwydd, a'u gorfodi i weled y cyfnewidiad ynion ni ein hunain (cymeradwyaeth)."

Wedi peth siarad, cydnodd yr holl gwanni i gydsynio a chais y Cadeirydd (oblegid Cynon Jones oedd yn y gadair y noson hono).

Teimlai rhai o flaenoriaid eglwys Mr Jones an-foddlonrwydd i'r mudiad, oherwydd yr oeddynt wedi gorfod gwrandaw ar gynifer o hen ystraeon am gyfarfodydd y Coffee Tavern. Penodwyd dau i siarad gydag ef ar ran y diaconiaid, ac aethant ato nos Wener, a chawsant ef yn ei ffyrgell, newydd orphen ei bregethau erbyn y Sul.

Bu yno lawer o duchan a charthu, a churo o gwmpas y llwyn, cyn dod at y pwynt. Methai y gweinidog yn lan a deall beth oedd gan y ddau ddiakon. Yr oedd yn amlwg iddo mai nid ymweliad cyffredin oedd hwn o'u heiddio. O'r diwedd, meddai:—

"A oes rywbeth neillduol wedi eich dwyn yma, heno, frodyr, oblegid yr ydych dipyn yn wahanol i arfer?"

"Fi weta chi, Mr Jones," ebai yr ieuengaf o'r ddau; "ma William Hywel a finna wedi ca'l y'n hala i wilia gita chi, bothdy'r cwrdda yna yn y Coffee Tavern."

"O, yn wir; mae yn dda genyf eich bod wedi dod," ebai y gweinidog, "oblegid bydd yn fantais i ni gael siarad a'n gilydd ar y mater."

"Dyna oin ni yn feddwl, Mr Jones," ebai William Hywel.

"Ond," ebai Cynon Jones, "beth yn fwyaf neillduol oedd eich neges yma heno?"

"Wel," atebai Hugh Dafydd, "meddwl gofyn i chi am bido myn'd iddi nhw oin ni."

"Ond paham?" gofynai y gweinidog, braidd yn sydyn.

Adroddwyd y straeon a nodwyd fel eu rheswm dros ddod at Mr Jones, ac atebodd yntau gan ddywedyd: "Frodyr anwyl, peidiwch credu pob celwydd a glywch. Yn hytrach, edrychwch ar y ffeithiau. Beth yw y gwir am y cyfarfodydd hyn? Gallaf ddangos i chi ddegau y gwyddoch am danynt fel meddwn a chablwyr cyhoeddus, nad oeddynt yn gofalu dim am eu gwragedd a'u plant, nac am danynt eu hunain, yn gyrph nac eneidiau. Y maent yn awr yn sobr, ac yn weddaidd eu hiaith, yn gofalu am eu gwaith, ac yn barchus a thyner tuagat eu teuluoedd."

"Ie, ond i'ch chi'n canu pob short a bethach, ag yn ca'l telyn a chrwth, yr un peth ag sydd yn y tafarna," dadleuai Hugh Dafydd.

"Wel, yn sicr, os dylai rhywun fwynhau swm y delyn a'r crwth, hen offerynau cenedlaethol y Cymry gynt, Cymry glan, sobr, a cherddgar, ddylasant gael y pleser," atebai Cynon Jones; "ac am y caneuon; wel, yr wyf am i chi ddyfod yno gyda mi nos yfory, i gael gweled a chlywed drosoch eich hunain."

Edrychai y ddau ddiakon yn syn, heb wybod beth i'w feddwl na'i ddyweyd. Ond cyn ymadael, addawasant fyned gyda'r gweinidog a gwnaethant addewid hefyd i beidio ygan gair am eu bwriac wrth undyn byw.

Nos Sadwrn a ddaeth; ac ar lawer ystyr, yr oedd y cyfarfod y noson hono yn un arthenig. Yr oedd y cynnulliad yn fwy nag arferol. Amlwg oedd fod rywbeth yn yr awyr. Synodd pawb i weled y ddau ddiakon yn eistedd yn ymyl y gweinidog. Edrychai y ddau fel dau lwynog,

wedi eu dal. Talfent olwg yma a golwg acw, a cheisient guddio tipyn o'r golwg eu hunain, fel pe yn anfoddlon i gael eu gweled.

Ond, yn sydyn, cododd pawb ar eu traed, gan floeddio "Hwre," nes bod yr ystafell yn diaspedain. Nid oedd modd rhoddi taw ar y bloeddio, am hir amser. Cododd y ddau ddiakon ar eu traed mewn arswyd gan ofyn y naill wrth y llall: "Beth sy'n bod? Dyma hi; riantwech, a dim ond riantwech."

Ond cyn iddynt orphen y frawddeg, gwelsant foneddwr bychan, hardd yr olwg, yn gweithio ei ffordd trwy y dorff, ac yn dynesu atynt hwy a'r gweinidog. Nid cynt y gwelsant ef nag oedd William Hywel a Hugh Dafydd yn chwifio eu hetiau ac yn bloeddio fel dau grotyn. Yr oedd Shoni o'r Pant yn ei elfen, ac ar ei uchelfanau. Edrychai y boneddwr a nodwyd wrth ei fodd; ysgydwai law gyda phob un, ac yn neillduol gyda'r gweinidog, y ddau ddiakon a Shoni o'r Pant.

A phwy dybiwch oedd y boneddwr penwyn?

PENNOD XI.—YMWELIAD MR HENRY RICHARD.

Neb llai na'r aelod anrhydeddus dros Ferthyr ac Aberdar, Henry Richard, Ysw!

Cyn i Mr Richard gael eistedd, a thra yr oedd pawb ar eu traed yn bloeddio "Hwre," "Three cheers i Mr Richard," a "Henry Richard for ever," gwnaeth boneddwr arall ei ymddangosiad. Yr oedd yr ail ymwelydd yn farfog ac yn wyu, a gwisgai ei wyneb hardd wen lawen, foddhaus.

Nid cynt y gwelwyd ef nag yr ail-enynodd y gorfoledd a'r hwyl, ac y casglai pob un eto i ysgwyd llaw gydag yntau. Dyrchafwyd yr "Hwre" o'r newydd.

"Three cheers i Mr Davies, Maesyffynnon, boys," bloeddiat Shoni o'r Pant, gan ysgwyd llaw y boneddwr haelfrydig a pharchus hwnw. Yr oedd Mr Davies yn ffafryn cyffredinol gyda gweithwyr Aberdar. Gwrthododd gymeryd ei ethol fel aelod Seneddol ei hun, ond nid yn fuan yr anghofia trigolion y dyffryn y ffaith mai efe ddygodd Mr Henry Richard i'w sylw, ac a fu yn un o'i gefnogwyr penaf.

Ond pa fodd y daeth y boneddwr uchod i wybod am gyfarfodydd y Coffee Tavern? Pwy oedd wedi eu gwahodd yno? Nid oedd yn amser etholiad, ac nid oedd undyn wedi clywed gair o son eu bod yn bwriadu dyfod. Yr oedd Shoni o'r Pant wedi dechreu meddwl fod rhyw gamsynied yn bod, ac mai yn y Temperance Hall yr oedd y cyfarfod i gael ei gynnal y noson hono. Ond nid oedd eisieu aros yn hir am eglurhad: daew Cynon Jones ar ei draed, ac yn anerch y cyfarfod, gan ddywedyd:

"Foneddigion, yr ydych yn gweled fod genym ymwelwyr urddasol ac anwyl genym yn ein plith heno (clywch, clywch; "Three cheers i Mr Richard a Mr Davies"). Efallai, y dylaswn i egluro pethau i chwi, neu byddaf, rwy'n ofni, o dan gerydd llym genych, am eu gwahodd yma, heb yn wybod i chwi (chwerthin mawr, a "Three cheers i Mr Cynon Jones"). Fel hyn y bu: Clywais fod Mr Henry Richard, ein haelod Seneddol anwog a gwladgarol,—(clywch, clywch),— yn bwriadu talu ymweliad a'r ardal, ond nad oedd yn cynllunio cynnal un math o gyfarfod cyhoeddus. Tybiais mai doeth fuasai ei gael yma i draddodi anerchiad i ni heno. Dywedais wrtho am ddewis ei faes i siarad arno, ond nad oeddem yn gwasgu arno draethu ar bolitics. Cydsyniodd ein cyfaill ar unwaith, wedi i llo ddeall natur ein cyfarfodydd (clywch, clywch). Bernais yn ddoeth beidio dyweyd dim am y peth, rhag i chwi basio penderfyniad yn gwrthod ei dderbyn, neu rywbeth fellv ("O, ho!" a chwerthin mawr). Ac, wrth gwrs, gwyddwn nad oedd ond un dyn yn Aberdar i gymeryd y gadair pan

F7650

fyddai Mr Richard yn siarad, ac felly gofynais i Mr Davies, Maesyfynnon, ddod gydag ef (uchel gymeradwyaeth). A gyda hyn, yr wyf yn cynnyg fod Mr Davies i gymeryd y gadair yma heno."

"W innu yn eilio," gwaeddai Twm Llywelyn," ac heb ofyn, wele bob llaw i fyny, a phob ceg yn tywallt allan fanllefau o gymeradwyaeth.

Cynllun o gadeirydd oedd Mr Davies. Gwyddai yn dda sut i ymguddio ac i ddwyn ereill i'r amlwg. Wrth ei ochr, yr oedd y gweinidog yn ei gyfarwyddo gyda'r rhaglen.

"Y peth cyntaf ar y rhaglen," ebai y cadeirydd, "yw oaa gan Eos y Wig."

Daeth yr "Eos" yn mlaen, a chanodd yn ei ddull swynol ei hun y gan adnabyddus, "Myfanwy," a chafodd "encore" gynhes. Teg yw nodi, er fod yr "Eos" yn fynych yn cael pedair a phum' punt am noswaith, iddo roddi ei wasanaeth yma yn rhad.

"Y peth nesaf," meddai Mr Davies, "yw anerchiad gan y Cadeirydd; ond yr wyf fi yn ddi-gon hen ac yn ddi-gon call i wybod erbyn hyn, os bydd eosiad, a llewod, ac aelodau Seneddol o gwmpas, mai gwell yw i rai fel fi fod yn ddis-taw."

"Go on, Mr Davies," gwaeddai hamner dwsin gyda'u gilydd, oblegid yr oedd y cadeirydd yn siaradwr lithrig, a deallai ei bobl i'r dim.

Datganodd ei lawenydd wrth weled y fath gwmmi, a chan gyfeirio ei fys at ei gyfaill anrhydeddus, ebai: "Yn awr, y mae yn bleser genyf alw ar y gwr a'r tafod arian sydd yn ein plith i anercu y senedd."

Cododd yr aelod Seneddol ar ei draed, gan wenu, yn nghanol llifeiriant o gymeradwyaeth, a dechreuodd, gan ddywedyd:

"Mr Cadeirydd, a boneddigion, a chydwlad-wyr hoff,—llawenydd calon i mi yw cael bod yma heno. Pan yn dyfod at fy anwyl gyfaill sydd yn y gadair, i dreulio ychydig amser, meddwl yr oeddwn am gael ychydig seibiant; ond pwy fedr wrthsefyll taerineb y brawd Mr Cynon Jones yma? (clywch, clywch). Heblaw hyny, ar ol wythnosau o lafur caled yn mhilit y Saeson, yr oedd yn fwynhad i mi gael cyfarfod a Chymry twymngalon a chyfeillion mor gynhas ag sydd yma heno. Dyna'r hen Gymraeg anwyl hefyd. nid oes neb ohonoch yn gwybod pa mor hoff yr wyf o hon. "Iaith fain" yw y Saesneg wedi'r cwbl, ond am hen iaith fy mam:

"Mae mil o leisiau melusion,
Mal y mel yn mola hon"

(cymeradwyaeth mawr).

Aeth y boneddwr yn mlaen gan draddodi un o'i areithiau goreu ar faterion cenedlaethol Cymreig,—gwerth cymeriad; iawn ddefnyddio oriau hamddenol, a phethau cyffelyb; a thirwy gydol ei anerchiad, cadwodd y cwmmi ar flaenau ei fysedd, fel y tystiolaethai y gymeradwyaeth a gawsai.

"Y peth nesaf," ebai y Cadeirydd, gan chwert-hin, "yw canu 'Can Cwn Hela' gan John Thomas."

"Nana i, ddim heno, ta beth," ebai Shoni, gan wrïdo a chywilyddio.

"Well i ti bido heno, Shoni," sibrydai Twm Llywelyn yn ei glust.

"Nawr, John, dewch yn mlaen," cymhellai y Cadeirydd.

"Well gen i bido heno, syr; o'n ni ddim yn gwpod bysa chi'ch doi yma pan o'n ni'n addo canu," tystiai ein gwron.

"Dewch, gyfaill, canwch," ychwanegai Mr Henry Richard; "dyma fi wedi ufuddhau, ac yr wyf yn awyddus iawn i glywed y 'Can Cwn Hela.' Nid wyf wedi clywed un er's blynyddau."

Cododd hyn galon Shoni o'r Pant, ac yn mlaen ag ef at ymyl y cadeirydd. Yr oedd braidd yn swil a chrynedig ar y cyntaf, ond wrth weled Mr Richard a'r Cadeirydd yn mwynhau crystal, yr oedd y Bachan o'r Pant, cyn pen ychydig eiliadau, fel llong yn ei llawn hwyliau, yn rollo allan y gan a ganlyn:—

"Helwyr parchus, hwylus hylon,
Carwyr helgwn, cywir gwiwlun,
Dewch i wrando hynod hanes,
Hanes gywir, hela cynhes;
Fel yr oeddwn ar ben bora',
Hyfryd hinon yn rhodiana,
Wrth fy mhleser manol mwyna',
Clywn i hwylus lais corn hela,
Yn adseinio bronydd Gwalia;
Mi edrychais yno o'm deutu,
Gwelwn wr-o fonedd mwyngu,
Perkins fwyn oedd hwn a'i enwi,
Gyda'i helwyr hynod heini,
'N galw'r cwn i hela'r cedni.

Thomas Davies, hwylus heliwr,
Bywiog gywrair, wir wladgarwr;
Thomas Miller, heliwr heini
Parod purion, William Parri,
Morgan Morgans, gerddwr diflin,
Lewis Morgans, Thomas Hopkin,
Edmund Abrah'm, William Bowin,
Ben Parks wych, a Lewis Siencyn,
Yn galw'r cene'l fel y canlyn:—
Tyred Mopsy, Ruler, Ranter,
Dashwood, Beauty, Bowman, Driver,
Doxy, Dainty, Comely, Gamblet,
Study, Tidy, Forman, Gamester,
Virgin, Lovely, Bridley, Player.

Swinger, Famous, Tapstee, Countess,
How! now arno'n eithaf ernes,
Pob rhyw heliwr yno'n fywiog,
A'r cwn llunient ol y llwynog,
Yn Nghraig y Ddinas, Mopsy dd'wedai,
Yn ei hiaith trwy rym ei ffroenau,
'Llwyr ddilynwn, cwnwn genau,
Dyma'i eglur wir aroglau,
'Ar ei ol, mae yma'n rhywle;
Wrth Llanilltyd Fardre dewfrig,
'N llwyr i gyd aed dros y goedwig,
Bro a bryniau, caerau cerig,
Fel clych bywiol foesol fwsig,
Clywid swm llu cyd-seimiedig.

Cerddai'r llwynog oedog cadarn,
Trwy Bentyrch a Chapel Llanstarn,
Trwy Saint Georis, cofus cyfan,
'N anniffygiol a Saint Ffagan,
Ac oddiyno i Landdiddan,
Trwy Waunfo, yn fywiog fuan,
Dinas Powys, hwylus wiwlun,
Ac yno am ei fywyd egwan,
Clywid ef yn oeraidd gwynfan;
Oddiyno tua'r Barry,
Anferth gur hyd at Borth Ceri,
Lle 'roedd swm y cwn yn canu,
Fel telynau diwael heini,
Ac yno'n union gwnaed ei ranu.

D'wedai'r llwynog cyn ei farw,
'Mrodyr, cym'rwch rybudd croew,
Na ddewch fyth o flaen cwn Merthyr
A chryf helwyr Perkins gywir,
Onide ni fydd eich bywyd
I bara yno ond ber enyd,
Pe gwnaech gythaedd cyrau gweryd,
Nentydd, llynoedd, dyfroedd difryd,
Rhag eu hing ni chewch ddiengryd;
Ro'wn i'n hen a hoew hylon,
Troediwn goed a chreigiau geirwon,
Ac aberoedd llynoedd llawnon,
Ond rwy'n gorfod yma'r awrhon,
'Mado'n deg a'm bywyd tirion.

F7652

Pwy all dewi heb ganu'n gynnar,
 Glod i'r cwn a'u perchen hygar,
 Pan mae'r llwynog dewraf, druan,
 Yn canu clod wrth farw 'i hunan,
 Pan mae'r nentydd yn cydgordio,
 A'r afonydd yn adseinio,
 A'r holl greigiau'n cynnar echo,
 O fawl heb ludded, ac yn bloeddio,
 'N hy' er oernych, 'How! How!' arno,
 Helwyr hwylus ar eu holau,
 'N troedio'n heinyf dros y bryniau,
 Dros grogedig ddyrys greigiau,
 Gwledydd, perthi, cwmoedd, cloddiau,
 Dwr, afonydd, daear fanau.

Er mor heinyf cerdd y Carw,
 Ar fyr enyd gwnant e'n farw,
 Ac er hoewed rhed yr ewig,
 Bydd y daith yn fer adwythig;
 Ni cha'r Wenci, 'r Dyfingi dewrgo's,
 Na'r Draenogod chwareu'n agos,
 Ffwlbert cas, na Choed-gath du-nos,
 Na'r hen Fele'n hirymaros
 Lle bo'r cwn, heb golli'u heinioes;
 Os bydd Ceneu'n rhyw gym'dogaeth
 Yn eich blino a'i aml weniaith,
 Heb oed i Perkins rhowch wybodaeth,
 Fe ddaw'r cwn a'i helwyr helaeth,
 Rho't e'n hylwyr i farwolaeth."

Tarfynodd Shoni ei gan, fel y gwnaeth yr aelod Seneddol ei araeth, yn nghanol banllefau o gymeradwyaeth. Nid oedd neb yn y cwmni yn clapio ac yn bloeddio ei gymeradwyaeth yn fwy cynhes na'r Cadeirydd a Mr Henry Richard.

"Yn wir," ebai Mr Richard, "yr wyf wedi gwrandao ar Sims Reeves a Madame Patti, ond ni ches erioed fwy o fwynhad nag a gefais yn y fan yma heno, Mr Cadeirydd. Oes yna gan arall rywbeth tebyg iddi ar y rhaglen eto?"

Tra yn dyweyd hyn, cydiodd yr aelod Seneddol yn llaw Shoni o'r Pant, a gwnaeth iddo eistedd rhyngddo ef a'r cadeirydd.

"Na," ebai Mr Davies, "nid wyf yn gweled fod yna gan arall heno."

"Wel, yn wir," atebai yr aelod Seneddol, "buaswn yn gofyn i John yma ganu eto, oni buasai fod y gan mor faith iddo."

"Fe ganiff Jim y Cantwr, syr," llefai y Mishdir Haliars, o ben arall yr ystafell.

Ar yr alwad o'r gadair, yn mlaen a'r Cantwr, gan garthu, a rhwbio, a thaclu, a thiwnio ei geg. Yr oedd Jim yn rhy hen i gynnyg iddynt "Gan Cwn Hela" arall, ac ebai yn nghlust y cadeirydd, "Cadwen o dribanau Morganwg, syr."

Yr oedd Jim yn eithriadol o grynedig ac ofnus. Yn un peth, yr oedd y Bachan o'r Pant wedi tynu y ty i lawr; a pheth arall, yr oedd Jim ac anwyd trwm arno. Wrth gwrs, ni feiddiai anufuddhau i Sam a'r Cadeirydd. Dechreuodd ganu:

"Cant o deirw cyrn-dwp,
 Pob dau yn ymladd dwp-dwp,
 A minnau'n sefyll rhwng y rhain,
 Fi allsw'n lefain iwb-wb."

Wedi canu y pennill cyntaf, distawodd yn sydyn, a dywedodd, gan welwi a gwrido bob yn ail: "Alla i ddim canu heno."

Ceisiwyd ganddo ail gynnyg, ond gwrthododd yn bendant. Cymerodd Mr Henry Richard ef i eistedd gerllaw iddo, a dywedodd wrtho y carasai yn fawr gael clywed yr oll o'r "gadwen," ei fod yn gobeithio cael dod i'r cyfarfodydd hyn rywdro eto, ac am i'r Cantwr beidio digaloni er dim.

"Yn nesaf, ni gawn y cyfrifon arianol gan y trysorydd," ebai y Cadeirydd.

Cododd Sam Mishdir Haliars, ac anerchodd y cyfarfod fel y canlyn:—

"Mishdir Cadeirydd,—Yr unig gowat sy' genyf

fi yw, fod gen i nawr bymthag punt a wigan a hamner coron mewn llaw, a bod isha pum' punt a saith a wech yto, cyn cewn ni'r piana yna, os nag i chi yn 'i toin a ar en gownt."

Ar hyn, gwelwyd Cynon Jones (y cadeirydd) a Mr Henry Richard yn siorwd rywbeth yn gyfrinachol yn nghlustiau eu gilydd.

"W i yn cinig," ebai Twm Llywelyn, "bod ni yn ca'l clasgad nawr."

Yr oedd Twm wedi awgrymu wrth gyfaill gerllaw mai adeg iawn i wneyd y casgliad ydoedd, gan fod y ddau foneddwr yn bresennol; ond cyn i neb gael cyfle i ellio y cynnygiad, cododd Cynon Jones ar ei draed, a dywedodd:

"Na, fynwn ni yr un casgliad heno. Y mae y ddau foneddwr sydd wedi ein hanrhydeddu a'u presennoldeb a'u geiriau caredig yma heno, mewn brys i ymadael. Yr wyf fi, felly, yn dymuno cynnyg pleidlais gynhes o ddiolchgarwch iddynt am ddyfod yma, ac am eu help sylweddol."

Eiliwyd y cynnygiad gan Hugh Dafydd, ac ymadawodd y ddau yn nghanol banllefa'u y cwmni. Teg yw nodi mai allan trwy ddrws y cefn yr aethant, oblegid aeth y son allan fod Mr Henry Richard yn y lle, a chasglodd tyrfia o gylch y drws, a cheisient fyned i'r Long-room. Ond nid pawb gawsai fyned i'r cyfarfodydd hyn. Gofalodd Mr Davies, gwr y ty, gau y drws a arweiniai i'r Long-room. Felly, pan ymadawodd yr aelod anrhydeddus, nid oedd y dorff "ddim callach" o fod wedi aros o'r tuallan.

"Yn awr," ebai Cynon Jones, "yr wyf at fy rhyddid i wneyd hysbysiad o ddyddordeb i chi, ac yna, efallai, y byddwch yn deall paham yr attelais wneyd casgliad yma heno. (Distawrwydd a disgwyliad astud.) Wedi i Samuel, ein trysorydd, roddi y cyrifon arianol, pryd y dywedodd fod eisieu —"

"Pum' punt a saith a wech, syr," ebai Sam.

"Wedi i'r ddau foneddwr sydd newydd fyned allan glywed hyn, gosodasant chwech punt yn fy llaw, gyda gorchymyn pendant nad oeddwn i ddyweyd gair am danynt hyd nes iddynt hwy fyned allan (cymeradwyaeth a hwyl fawr). Heblaw hyn, y mae Mr Davies wedi addaw rhoddi cadair at wasanaeth chwareuydd y piano newydd, os bydd John Thomas a James yma yn foddfon myned i Maesffynnon i'w chyrchu oddi-yno, nos Lun nesaf. Hefyd, y maent yn addaw nifer dda o lyfrau at ein gwasanaeth yma. Ond, cawn glywed am y rhai hynny eto" (clywch, clywch).

Fel y nodwyd, yr oedd y Bachan o'r Pant yn awr a'i fryd ar fyned am wibdaith i Switzerland. Erbyn hyn, un o brif ragoriaethau Switzerland oedd fod yn rhaid myned trwy Lundain wrth fyned yno, ac wrth ddychwelyd oddiyno drichfe'n. Ond ar wahan i hynny, taith hynod oedd hon yn hanes Shoni o'r Pant: taith lawn o'r rhamantus a'r dyddorol, fel y ceir dangos yn y man. Do, aeth Shoni, yr haliar adnabyddus o Aberdar, i berfeddion Cyfandir Ewrop, a gwelodd a chiywodd fwy na llawer yno.

(I'w barhau.)

F7654

SHONI O'R PANT:

(UN O ENWOGION ABERDAR.)

Gan IFAN BRYNDU.

PENNOD XII.—TAITH SHONI I SWITZERLAND.

NI sibrydodd Shoni air wrth undyn, ond y gweinidog, am ei fwriad i fyned am daith mor bell. Fel rheol, arferai ein harwr ddyweyd wrth bawb i ba le yr oedd yn myned, a pha fath leoedd a phethau fwriadai weled. Y tro hwn, dim. Peidied neb a meddwl fod ei natur yn fwy crebachlyd ac anghynhes nag arfer. Na, na: yr oedd mor llawen a'r gog, ac yn llawn ysmaldod a bywiogrwydd. Yn unig, cadwai ei gyfrinach ei hun. Braidd yn swil y teimlai ar adegau yn nghwmni ianto Caeglas, oblegid hoffai yr olaf dafu rhyw awgrymiadau go gellweirus a dywedyd:—

“Shwd ma'r hen wedjan fach benddu hyny yn Llundan, wni nawr, Shoni?”

Dro neu ddau mewn cwmmi hefyd, cyfeiriodd ianto at y cusanu hyny pan ddaeth Mrs Reynolds i'r golwg. Gwridai y Bachan o'r Pant yn awr ac eilwaith, ond y fynydd nesaf, pasiai y cyfan heibio, a chwaddai yn ei lawes, a dywedai wrtho ei hun:—“Beth pe bysa ianto yn gwpod, beth basws y nosweth hyny y gadewas i fa yn y ty wrtho'i hunan? Dyw a'n gwpod dim am Lucy, yto, fel ma'r lwc.”

Yr oedd Mr Cynon Jones ei hun wedi bod ar y cyfandir gydag un o gwmmiau Dr Lunn; a mawr fel y bu yn cyngori y Bachan o'r Pant cyn i'r olaf gychwyn i'r daith. Heblaw hyn, yr oedd cyfaill i'r gweinidog yn myned gyda'r un parti a Shoni, a threfnwyd eu cyflwyno y naill i'r lall.

Methai Cynon Jones ddyfalu i ba beth yr oedd ein harwr yn myned i Lundain ddeuddydd cyn pryd. Wrth gwrs, gwyddai Shoni ei fusnes ei hun yn iawn. Cyrhaeddodd y brifddinas, ac aeth yn syth i Granville-crescent, a chafodd groesaw helaeth gan Mr a Mrs Hughes. Ychydig arosodd cyn myned allan y noson hono, ond gwnaeth ei ffordd yn syth i gyfeiriad ty Mrs Reynolds.

Yr oedd yn cerdded yn gyflym ar hyd y palmant, yr ochr arall i'r ystryd, gan droi ei lygaid o hyd at y ty. Yn union dacw guro ar ffenestr y llofft, a dacw law wen y lances benddu yn taflu cusan iddo. Safodd y Bachan o'r Pant fel delw am fynydd, gan wrido at ei glustiau, a syllu yn syth ar y ty. Gyda hyny gwelodd rywun a adwaenai yn ffenestr y drawing-room, ac i ffwrdd ag ef nerth ei draed, gan gadw ei wyneb draw. Ond, druan ohono, yr oedd Mrs Reynolds wedi ei adnabod, a gellid ei gwled yn edrych ar ei ol dan chwerrthin. Cyn pen chwinciad llygad, canfyddai Lucy, wedi gwisgo, yn prysur fyned i lawr y grisiau gyda basged fechan ar ei braich, ac yn brasgamu i'r un cyfeiriad a'r Bachan o'r Pant.

“O! felly, mae pethau yn myned yn mlaen,” ebai Mrs Reynolds, wrthi ei hun.

Nid ydym yn bwriadu ceisio darlunio cyfarfyddiad Shoni a Lucy y tro hwn. Digon yw dyweyd ei fod fod mor bwysig ac mor felus a dyddorol, ag oedd cyfarfyddiad Livingstone a Stanley, neu Wellington a Blucher, i'r enwogion hyny.

Wedi y cyfarchiadau cynhes cyntaf, ac holi hynt y naill y lall, a llongyfarch eu gilydd am nad oedd neb yn gwybod eu cyfrinach, penderfynasant fyned am walk trwy Hyde Park. Credai Shoni fod yna fwy o hwyl a blas ar garu tipyn yn swil ac yn ddirgelaidd, nag yn y dull presaidd presennol, pan y bydd pob glaslanec pymtheg oed, difarf, yn myned a'i gariad at ei

F7656

fam! Yr oedd ein harwr yn bur sicr hefyd ei fod wedi dianc rhag llygaid Mrs Reynolds, ond druan ohono, yr oedd Betsy yn rhy gyflym o lawer iddo.

Tra yr oedd y myfyrdodau a'r ymddyddanion hyn yn cymeryd lle, pwy ddaeth i'w cyfarfod, gan sefyll yn stond o'u blaenau, a chwerthin, a chodi ei ddwyllaw, ond Bili Lloyd, yr heddeidwad!

"Beth yw hyn?" gofynai Bili yn synedig a digrifol. "Wel, wel, dyma hi!"

"Beth sydd yn bod, Mr Lloyd?" gofynai Lucy yn swil ac yn gwrido.

"Pa le cawsoch o hyd i'r llanc yma, Lucy?" atebai y swyddog yn gellweirus.

"Yn Aberdar, wrth gwrs, lle ceir y dynion da i gyd," ebai y lances benddu.

Yr oedd Shoni yn wenu ac yn wrid i gyd, ac ysgydwodd law yn iachus gyda Bili Lloyd.

"Ond sut yn enw pobpeth i chi'n napod y'ch gilydd cystal?" holai ei gyfaill.

Erbyn cael pethau allan, byddai Bili Lloyd yn fynych yn galw yn nhy Betsy Reynolds, a mawr yr hwyl a geid wrth fyned dros hen helyntion y dyddiau gynt yn "Sweet Byrdar." Wrth gwrs, yr oedd yn adnabod y morwynion yn iawn, a chafodd Bili aml i swper flasus yno, pan ar ei daith y nos yn y rhanbarth hono.

Diwedd y peth fu, ffarwelio a'r heddeidwad, ac yn lle myned tirwy y parc, awd i weled Mrs Lloyd, ar gais Bili, a chafwyd croesaw cynhes yno drachefn. Merch o Aberdar oedd Mrs Lloyd, a chwaer i Sam Mishdir Haliars. Erbyn edrych i bethau yn mbellach yr oedd Lucy wedi arfaethu galw gyda Mrs Lloyd ag anrheg fechan i'r baban bythefnos oed oedd ganddi. Hynny, ac ychydig ddanteithion i Mrs Lloyd oedd ganddi yn y basged oedd yn ei llaw.

Yr oedd yn rhaid iddi gael magu y babi, wrth gwrs.

"Dear me! dyna bwysau sydd ynddo; teimlwch ef, John," meddai Lucy, gan osod y bychan yn nwyllaw y Bachan o'r Pant.

Edrychai ein gwron yn swil dros ben, yn neillduol pan oedd y ddwy yn canmol ei ddehurwydd yn dal y plentyn.

Dyna ddigon eto ar hanes ein gwron a Lucy i'r cyfeiriad yna; ac i'r sawl sydd am holi a gwybod ychwaneg nag a dybiwn yn briodol draethu iddynt, dywedwn yn ngeiriau y diweddwr Ishmael Jones, Rhosllanerchrugog:—
"Myn'd i garpet bag dyn ydi peth fel yna, frindie."

Daeth yr adeg i gychwyn tua Switzerland. Yr oedd y cwmni yn un hapus dros ben, ac wedi ei wneyd i fyny o offeiriad a phregethwyr o bob enwad. Rhai o'r Werddon a'r Ysgotland; un o'r America, tri o Gymru, heblaw Shoni o'r Pant, a'r gweddill o Loegr. Yr oedd pob un mewn dillad gwyliau o bob lliw a llun. O ran y wisg ni fuasai undyn yn meddwl fod yno bregethwr nag offeiriad yn y fintai. Edrychai y Bachan o'r Pant mor debyg i offeiriad ag un ohonynt, ac yr oedd yn llawer mwy myfyrgar yr olwg arno yn sicr.

Chwareu teg i Lucy, yr oedd hi wedi taffu ei llygad bychan, cyftym dros ein harwr, ac a'i bysodd meinion wedi taclu tipyn o gylch ei wddf a'i arddyrrau ef. Rhoddodd iddo gadaach sidan tlws, wedi ei berarogli yn helaeth. Gosododd hefyd botel fechan o scent yn ei logell a chyfarwyddodd ef pa fodd i'w ddefnyddio i bwrsus. Yr oedd Shoni yn gymaint swell a'r un yn y cwmni. Heblaw hyn, un o gynghorion penaf Cynon Jones oedd ar i'r cyfaill ofalu peidio bod yn rhy barod i siarad yn y cwmni. Yr oedd i siarad faint fynai gyda'r Parch Hirben Hughes, cyfaill Cynon Jones. Profodd y Cymry ereill oedd yn y fintai yf fechgyn rhagorol, ac yr oedd y Bachan o'r Pant gartref yn eu cwmni llawen.

Un peth oedd yn blino Shoni oedd yr hyn a ad-

F7657

roddodd Lucy wrtho am y bwydydd yn Ffrainc. Yr oedd wedi dyweyd wrtho, cyn iddo gychwyn, fod y Ffrancod yn hoff iawn o fwyta malwod, brogaod a draenogod. Ar y cyntaf nis gallai gredu y fath beth, ond pan daerodd Lucy mai felly yr oedd, nid oedd dim i'w wneyd ond credu. Troai coluddion ein gwron o'i fewn wrth feddwl am y peth, a thystiai y buasai ar ei wyladwr-iaeth cyhyd ag y byddai ei draed ar diroedd yr estron.

Cychwynodd y llong yn hwylus a llawen. Teimlai y gwron o Aberdar nad oedd gwaith Columbus yn darganfod America yn ddim at ei waith ef yn gwynebu yr eigion am y "cyfandir pell,"—am Ewrop! Nid oedd smartiach dyn yn rhodio y bwrdd. O'r hwyl a gafodd wrth fyned i lawr y Dafwys, a gweled yr adeiladau mawrion yn cael eu gadael ar ol. Yr oedd newydd gael pryd da o fwyd cyn cychwyn, a theimlai mor iach a'r crieyn.

Nid oedd y llong wedi hwylio ryw lawer allan o'r afon cyn i Shoni deimlo ei ben yn myned yn ysgafn, a'i draed yn ansicr. Gwelodd Mr Hirben Hughes ei fod yn welw a gwasgedig iawn yr olwg arno, ac holodd os oedd yn wael ei iechyd.

"O, nagw i ddim yn dost, thenciw, Mr Hughes, ond fod tipyn o hurtwch yn 'y mhen i," atebai Shoni, gan geisio gwenu tipyn, a chwerthin y peth i fwrdd.

Gwaeth-waeth yr oedd yn myn'd. Symudodd oddiwrth Mr Hughes, ac aeth i lawr i'r saloon; ond nid oedd dim yn tycio. Gallasai dystio fod y llong yn troi, wyneb-i-fyny-i-waered. Yr oedd ei ben yn curio, ei lygaid yn llaw, ei gluniau yn ei ollwng, a theimlai ei dufewn fel pe ar fyned yn ddarnau. Lle gwael oedd y saloon i ddyn yn nghyflwr ein harwr y foment hono. Wrth gwrs, gwyddai Shoni beth oedd yn bod yn iawn. Yr oedd wedi clywed llawer o chwerthin am ben clefyd y mor. Rheddodd nerth draed i fyny i fwrdd y llestr, a gyda ei fod yno, gwelodd y Parch Hirben Hughes a golwg ofnadwy arno, yn gorwedd ar fainc gerllaw, ac yn ysgafnhau ei lwyth yn egniol. Bu yr olygfa yn ormod i'r Bachan o'r Pant, a rhuthrodd at ochr y llong, gan efelychu y gwr parchedig.

Son am och'neidio! Braidd na ddywedwn fod gruddfanau ac ocheneidiau Hirben Hughes a Shoni o'r Pant yn ysgwyd yr holl lestr. Un fynydd, teimlai y blaenaf fod yr eigion yn agor i'w dderbyn, a theimlai bron yn foddlon myned i lawr y foment hono. Yna coffodd am Lucy, a daeth chwant byw drachefn. Y fynydd nesaf, teimlai fel pe yn cael ei gludo, yn nghrafangau eryr mawr, trwy yr uchelion, uwchben y gwagder mawr! Oddifewn, teimlai fel pe buasai wedi llyncu dwsin o danbelenau, ac fod y rhai hyn yn ffrwydro un ar ol y llall yn ei gylla! Ymladdodd yn ddewr yn erbyn yr ymosodiadau ffyrnig hyn, ond yn y diwedd, syrthiodd yn swp ar lawr, fel un wedi ei lwyr orchfygu. Er hyny, wrth weled y Parch Hirben Hughes yn ei ymyl, ac yn yr unrhyw gyflwr, nis gallodd lai na gwenu; ond gwen ddiffas dros ben ydoedd. Tynodd ei gadael allan i sychu ei lygaid, a thynodd yn ddiamwybod iddo ei hun ddogon o berarog! Lucy i'w firoenau; llonodd a dadebrodd hyny ef yn fawr.

Cyrhaeddwyd y lan arall yn ddyogel, ac nid hir y bu ein gwron cyn cael cwpanaid o de, ymolchi, ac adenill ei nerth a'i fywiogrwydd cyntefig. Fel y dywedai wrth Mr Hughes:

"Peth net yw dishgled o de i rywun tost, yntefa, Mr Hughes?"

"Te, yn wir, Mr Thomas. Ond peth difrifol yw clefyd y mor, onite?" atebai Hirben Hughes, gan grynu ac arswydo wrth feddwl am y fordaith.

"Un drychrynllyd yw a, Mr Hughes. O'n

F7658

ni'n meddwl os na fysa Ffraine yn dod waff, y byswn i yn y swmp cyn 'i gwel'd i, ta beth," ebai Shoni.

Yma, eto, rhaid dethol a gadael, oblegid ni wiw meddwl adrodd holl hanes y daith. Yn ngwyneb hyn, ni thalwn fawr sylw i amseriaeth pethau, ond ceisiwn gyfleu gerbron ychydig bethau a wasanaethant er dwyn teithi meddyliol a chymeriadol Shoni o'r Pant i'r golwg. Yn y cwmni urddasol yr oedd ynddo, adnabyddid ef fel "Mr Thomas, of Aberdare," ond i ni eto, "Shoni o'r Pant" ydyw o hyd. Dim perygl i'r Bachan o'r Pant ymfalchio fel ag i anghofio ei hen gyfeillion, a gwadu yr hen enw. Yr oedd yn ormod o foneddwr i hyn.

Yn fuan wedi iddo lanio yn Ffraine, digwyddodd un peth allasai fod yn brofedigaeth chwerrw iddo, oni buasai am gyfrwysdra Griff y Teiliwr yn Aberdar. Aeth y cwmni gyda'u gilydd i westy uwchraddol, ac yno y buont beth amser, yn cael eu cyflwyno y naill i'r llall, yn ysmocio, ac yn cael te gyda'u gilydd. Aeth pobpeth yn mlaen yn hapus a dymunol, ond wedi gorphen te, a phan oedd Shoni yn symud oddiwrth y bwrdd, clywyd ysgrech oerllyd yn llanw yr ystafell. Dychrynwyd pawb drwy'r lle, ac nis gallai neb ddyfalu beth oedd yn bod am beth amser. Erbyn edrych, synwyd pawb gan un o'r golygfeydd rhyfeddaf!

Yr oedd y dyn a eisteddai yn ymyl Shoni a'i wyneb yn coch i ac yn gwelw bob yn ail. Ymddangosai mewn poenau dirdynol, ac yr oedd ei law yn llogell cot ein harwr! Yr oedd y dyn mewn dychryn, ac edrychai pob un yn surllyd, ond Shoni. Yr oedd y Bachan o'r Pant yn chwerrthin yn iachus. Gwthiodd Mr Hirben Hughes yn mlaen gan ofyn:

"Beth yw hyn, Mr Thomas??"

"Gofynwch iddo fe," atebai y llall yn ddi-reidus.

Tynodd yr ysgrech wr y gwesty yno, yr hwn, pan welodd fod rhywbeth o'i le, a alwodd heddeidwad i fewn.

"Tynwch eich llaw allan o logell y boneddwr yna," ebai yr heddeidwad.

"Ie, go on," ebai Shoni, gan chwerrthin, "tynwch hi allan."

Edrychai perchen y llaw fel ellyll ar ein harwr, a rhoddodd oernad arall pan gydiodd yr heddeidwad yn ei law, gan geisio ei phlycio allan.

Esboniodd Shoni bethau yn bur fuan i'r cwmni synedig. Yr oedd y stori fel y canlyn:—Pan aeth ein harwr at Griff y Teiliwr i geisio cot newydd erbyn y daith, awgrymodd iddo mai cot deithio oedd eisieu arno, ac am iddo ei gwneyd yn y ffasiwn ddiweddaraf. Holodd y teiliwr i ba le y bwriadai y Bachan o'r Pant fyned. Fel y nodwyd, ni ddywedwyd y gyfrinach, ond awgrymodd Shoni y carasai gael y pocedi yn ddyogel rhag iddo syrthio i ddwylaw sharpers a pickpockets.

Ceir llawer i stori dda yn mhllith y glowyr am sharpers trefydd Lloegr, ac nid heb beth o ofn y gwelw hwnw y gwynebodd ein gwron tua'r Cyfandir. Ar y llaw arall, teiliwr cyfrwys a chelfydd oedd Griff. Mawr yr hwyl fu rhwng y ddau pan yn cynllunio pocedi y got newydd. Yn ol marchog y nodwydd, yr oedd y pilyn newydd fel y canlyn:—Y pocedi oll o'r tufewn, gyda shams y tuallan. Ond y boced ddeheu, ac agoriad iddi o'r tufewn ac o'r tuallan. Yr oedd y fynedfa allanol i'r boced wedi ei ffitio yn ofalus ac yn ddirgelaid, a thua dwsin o fachau pysgota. Felly, er y gallai Shoni dafu ei arian i fewn y ffordd hono, nid oedd yn bosibl gwthio y llaw i fewn a'i thynu allan drachefn heb i'r bachau gydio gafael!

Wedi ymuno a'r cwmni yn Llundain, ac am ran o'r daith ar ol hyny, arferiad Shoni pan yn

F7659

prynu rhywbeth oedd tafu y newid trwy boced allanol y got. Yr oedd wedi sylwi fod un boneddwr yn hynod barchus ohono, ac yn hynod siaradus. Cynnygiodd ddyferyn o framdi iddo unwaith o botel fechan oedd ganddo; ond, wrth gwrs, yr oedd ein harwr yn ddirwestwr — yn ddirwestwr gonest felly, a dyna ddigon.

Yn y gwesty drachefn, yr un boneddwr oedd ei gymydog agosaf wrth y bwrdd. Wedi y cythrwfi a nodwyd, bu rhaid tynnu cot Shoni oddiam dano, a thori y boced allan, yr hyn a wnaed yn nghanol chwerthin mawr yr holl gwmmi. Edrychai yr adyn anffodus oedd yn y ddalfa fel llew mewn rhwyd. Cyn gynted ag y tynwyd y bach pysgota olaf o'i gnawd, tarawodd yr heddeidwad i'r llawr, a neidiodd tua'r drws. Ond yr oedd llygad y Bachan o'r Pant arno, a chyn iddo gael myned ddecllath oddi wrth y gwesty, gwelwyd y ddau yn y gafael a'u gilydd, ac yn rhodio ar lawr. Mewn fflachiad, gwelwyd llaw y dyhiryn yn codi i fyny ddagr finiog, ac yn ei anelu at galon y Cymro dewr-galon.

PENNOD XII.—PARHAD O'R DAITH.

Ond nid cynt y cafodd ei chodi nag y tarawyd y llaw a ffon drom oedd yn llaw Mr Hirben Hughes, nes oedd y ddagr wedi ei lluchio latheni o'r fan.

Rhegai a chlafoerai ac ymwingai y lleidr gyda ffyrnigrwydd teigr, ond yr oedd Shoni yn gafael yn ei wddf erbyn hyn, fel nas gallai symud llaw na throed, heb glywed ei anadl yn pallu, a'i lygaid yn tywyllu. Erbyn hyn, yr oedd yr heddeidwad wedi dyfod ato ei hun. Ar ol cyrchu y ddagr a'i rhoi y ngofal gwr y gwesty am ychydig, gosododd addurniadau o haiarn am ddwyllaw cryfion y carcharor oedd ar lawr, ac yna dechreuodd ymholi pwy ydoedd.

Cafwyd allan fod dau neu dri o'r cwmmi wedi colli eu watches, ac un wedi colli swm o arian; a chafwyd yr oll ar y gwr oedd yn y ddalfa. Yr oedd y creadur wedi dyfod gyda'r cwmmi vn enw clerigwr parchus, wedi gwyllo symudiadau pob un, ac wedi dal ar ei gyfle. Gwelodd Shoni yn tafu yr arian oedd yn ei ddwyllaw yn awr ac yn y man i boced ei got, a chymerodd yn ganiataol mai gwaith rhwydd oedd eu cael allan. Druan ohono; ychydig feddylodd am gael ei ddal a bachau pysgota.

Ar ol hyn, y Bachan o'r Pant oedd arwr y parti. Synai pawb at ei dalent yn cynllunio y fath logell, a syntent at ei gyflymder, a'i gryfder corphorol, a'i fedr yn llorio yr yspelliwr. Ond, da oedd i Shoni am ffon Hirben Hughes!! Rhedai iasau trwy bob un wrth goffo am fflachiad y gyllell hono, ac am ergyd effeithiol ac amserol y gweinidog Cymreig. Buasai ein gwron yn gorwedd, yn ddigon oer, yn naear estronol Ffrainc er's blynyddau bellach, pe buasai ei gyfaill eiliad yn hwy cyn dyfod ato. Dychryna: Shoni ei hun ar ol hyn wrth feddwl am y tro; ond ar y pryd, nid oedd ofn o gwbl yn agos ato. Ond, yr hen lelo; y peth cyntaf a wnaeth wedi myned i'r ty, ar ol hyn, oedd tynu allan ddarlun bychan o boced ei frest, a rhoddi cusan iddo, a dyweyd wrth y cerdyn: "Beth wyt ti'n feddwl am y tro yna, Lucy?"

Ymholwyd a Mr Hirben Hughes pwy a pha beth oedd ein gwron, ac wrth gwrs, dywedodd yntau hyny o wir a wyddai. "Fellv." ebai rhyw greadur balch a phenwag wrth glywed adrodd y stori, "cafodd yr haliar ei droi ymaith, ac attaliwyd ef i deithio yn mhellach gyda chwmmi mor urddasol."

Dim o'r fath. Buasai yn anhawdd adrodd yr holl arwyddion o barch a ddangoswyd gan bawb ohonynt i'r Bachan o'r Pant. Cystadleuent a'u gilydd am gael talu drosto, yna ac acw, ac am gael eistedd agosaf ato wrth y bwrdd. Dyna

F7660

hefyd y ffon eboni a'r pen arian gafodd ganddynt: onid yw yr argraph sydd ar hono yn ddigon o brawf o deimladau da y cwmni oll at ein harwr?

Yn fuan wedi cyrhaedd Geneva, ymranodd y cwmni un diwrnod yn wahanol finteioedd. Penderfynodd un mintai geisio mordaith ar y llyn gerllaw. Ymlwybrodd un arall tua'r mynyddoedd, tra y penderfynodd y Parch Hirben Hughes roddi y diwrnod gydag ereill i gael golwg ar rai o brif hynafiaethau dinas enwog John Calvin.

Am ryw reswm neu gilydd, ychydig iawn o hynafiaethydd oedd Shoni o'r Pant. Y prif achos yn ddiddadl, fel yr awgrymai oedd: "Dim delight." Digwyddai fôd yna wr ieuanc arall yn y cwmni, a farnai y gwnai taith trwy y wlad fwy o les iddo nag edrych ar hen greiriau o lyfrau a darluniau, a chadeiriau, ac adeiladau, a phethau felly. Bachan fein, a phregethwr melus oedd y Parch Isafon Lewis, ond nid oedd yn rhyw iach iawn. Penderfynodd ef a Shoni, fyned ill dau am dro i'r wlad, a chyfeirasant eu camrau tua glanau y Rhone enwog.

O, mor ddyminol oedd y daith. Cerddent wrth eu plaser a daethant yn gyfeillion mynweol. Y ffaith am dani, er mai haliar a phregethwr oedd yno, bron nad oeddynt yn barod fel Jonathan a Dafydd. Cafwyd ymgom felus iawn, ac yno, ar lan y Rhone, ac yn swm clasurol ei murmuron, y bu y Bachan o'r Pant yn adrodd hanes Cynon Jones a chyfarfodydd nos Sadwrn y Coffee Tavern, wrth y gweinidog ieuanc. Adroddodd iddo pa fodd y dechreuwyd y cyfarfodydd hyn; am y bookcase roddwyd i Cynon Jones, am ymweliad Mri Henry Richard, A.S. a Davies, Maesyfynnon, ac am y mwynhad gafodd yr olaf ar y "Gan Gwn Hela."

"Beth yw hono, Mr Thomas?" holai Isafon.
"Can o gïed i Gwn Hela Mr Perkins, syr, a waith Grawerth," atebai Shoni.

"Pwy oedd yn ei ehanu?" holai y llall yn mhellach.

"O, fi, syr," ebai ein gwron yn gynhes.

Awyddai Mr Lewis yn fawr gael clywed y gan, a chyn pen ychydig, yr oedd Shoni yn ei chanu iddo mewn hwyl, nes oedd bryniau Switserland yn adseiniu. Dyna'r unig dro y mae genym hanes am dano i "Gan Gwn Hela" Gymreig gael ei chanu ar gyfandir Ewrop.

Suddai Isafon i fudandod trwm bob ryw ychydig o hyd, ac yna, dechreuai holi yn ddiball yn nghylch y cyfarfodydd nos Sadwrn.

"Dear me; dear me," meddai, "yn union y peth sydd eisieu. Dear me, dear me. Tybed na fedrem ni eu cario allan yn Ffestiniog?"

Yn mlaen a hwy o hyd, wrthau plaser; Isafon vn gwahodd, a Shoni yn addaw yn ddiffaef, talu ymweliad a Ffestiniog yr haf canlynol. Trefnwyd hefyd fod ein harwr i ganu yno, os byddai y gweinidog wedi llwyddo i gvchwyn y cyfarfodydd nos Sadwrn.

"Y mae yn well i ni ddychwelyd Mr Thomas, neu byddwn yn hwyr i ginio," awgrymai y gweinidog.

"Otti ma'n well i ni fyn'd nol, syr. Ond dyw'r ansar yn mynd waff?" atebai Shoni, ac yn ol a hwy.

Yn union daethant at groesffordd. Mynai Isafon droi ar y dde, ond barnai ei gfaill mai yn syth yn y blaen y dylid myned. Wrth gwrs, ar y dde y troisant, oblegid ni fuasai y Bachan o'r Pant yn dychymygu 'dala her' a phregethwr.

Yn mlaen a hwy gan ymgomio yn ddifyr. O'r diwedd, trodd Shoni at ei gydymaith, ac ebai:—
"Mr Lewis, ni siwr o fod wedi colli'r ffordd. Welas i ddim o hwna o'r blaen. I'ch chi'n gweld y ty mawr yna?"

"Dear me, Mr Thomas; both wnawn ni? Y mae yn rhaid fod genym filldroedd i gerdded i

Geneva. Tybed fod yma drain gerllaw," ebai Isafon.

"Well i fi fyn'd i ofyn i hwnco?" gofynai Shoni gan gyfeirio at ddyn a safai ar ddrws shop gerllaw.

"Ie, gwnewch," atebai y llall dan wenu.

I ffordd a'r Bachan o'r Pant, ac ebai yn Saesneg, "Yn mha le mae y station yma?"

Edrychodd y dyn yn ddieithriol arno, gan barablu rywbeth yn rhigl na fedrai y Cymro neyd rych na gwellt ohono. Cofiodd Shoni yn sydyn pa le yr ydoedd, a phan edrychodd o'i ol, gwelai Isafon yn chwethin allan ei oreu glas. Nis gallodd ein gwron lai nag ymuno gydag ef.

Yn anifodus, nid oedd Isafon yn gwybod gair o iaith y wlad, ond daeth i fyny at y dyn a nodwyd, a cheisiodd trwy arwyddion a rhyfeddodau, ei wneyd i ddeall eu ymholiad, ond nid oedd dim yn tycio. O'r diwedd, gwnaeth amnaid ar y Swisiad i ddyfod ato i ganol yr heol, ac yna ymaflodd mewn carreg fechan gan geisio tynu allan agerberiant a rheilffordd ar y llawr. Erbyn hyn yr oedd holl blant y pentre wedi tyru yno, a mawr yr hwyl a gafwyd wrth weled y ddau Gymro yn ymgrymu ar yr heol, ac un ohonynt yn tynu llumiau yn y llwch. Llwyddwyd i aeg deall y gwr dyleithr, yr hwn a dynodd ei oriadur allan, ac a gyfeiriodd a'i fys fod yn rhaid aros tair awr arall cyn y gellid cael train.

Trwy arwyddion eto, cafwyd ar ddeall fod tua chwe' milldir rhyngddynt a'r ddinas o'r fan hono. Cydnodd y ddau Gymro mai doeth oedd iddynt eistedd ychydig a chael llunsaeth, a chymerodd y siopwr hwy i fewn i'w dy ei hun.

"Beth gawn ni, Mr Lewis?" holai y bachan o Aberdar, yn bryderus braidd.

"Mae yn debyg y bydd yn rhaid bwyta beith gawn ni, Mr Thomas," ebai y llall.

Ceisiodd y siopwr eu holi pa beth a fynent, trwy yr unrhyw gyfryngau. Ar hyn tynodd Isafon Lewis ddarn o bapur o'i boced, a gwnaeth lun mochyn arno, gan ei ddangos i'r boneddwr, ac ar hyn cydiodd Shoni yn y papur, gan osod ei fys mewn man neillduol ar y mochyn, a gwaedda'i allan "Ham, Ham."

Chwarddodd pob un ohonynt yn iachus, ond ysgydwai y siopwr ei ben, yn gystal a dyweyd: "Dim i gael."

Ar hyn gwahoddodd y ddau Gymro i'r shop i gael eu dewis. Gwelsant salmon yno mewn tins.

"A ydych yn hoff o salmon, Mr Thomas?" holai y gweinidog.

"Ottw yn ffamws, thenciw, Mr Lewis. Fe naiff y tro yn net," atebai ei gyfaill.

Te, brechdan, a salmon felly am dani; ac eisteddodd y ddau deithiwr yn amyneddgar am y bwyd. Taclwyd y bwyd yn drefnus, a gweinid arnynt gan feneddages ieuanc lanbryd. Yn union, yr oedd y cyfan yn barod, ac amneidiwyd ar ein cyfeillion i ddynesu at y bwrdd. Edrychai Shoni yn gilwsgus iawn ar yr hyn oedd wedi ei dywallt i'r ddysgl oedd ar y bwrdd. Wedi gofyn bendith a chodi cig y pysgodyn i Shoni, dechreuodd Isafon fwyta yn awchus.

"Beth yw hwn sydd yn y ddwpler yna, Mr Lewis? Nid salmon yw a," ebai Shoni.

"Nage, gan feddwl, yn wir," atebai y llall.

"Dear me. Ie, salmon oeddem wedi geisio, onite? Mae'n rhaid eu bod wedi camsynied dau din, a dod a lobster i ni yn ei le. Dear me. A ydych yn hoffi lobster, Mr Thomas, neu ni geisiwn salmon eto? Dywedwch y gair."

"O, ottw, thenciw, Mr Lewis; fi na i yn biwr os taw lobster yw a," ebai Shoni.

Yr oedd Shoni wedi clywed lawer o ganmol ar lobsters gan Sam Mishdir Haliars, ond nid oedd erioed wedi eu profi; ac erbyn cael golwg ar yr hyn oedd ger ei fron, cofiodd am eiriau Lucy

F7662

(delwedd F7662) (28 Ebrill 1900)

am y pethau yr arferai y Ffrancod fwyta. Ar yr un pryd yr oedd chwant bywd rhyfedd arno. Ymdafodd i'r gorchwyl o fwyta o ddifrif, a gofalai Isafon Lewis fod digon o lobster ar blat ein harwr.

Yn sydyn dacw y Bachan o'r Pant yn codi oddiwrth y bwrdd, ac yn tynu at y lle tan gynted ag oedd posibl, ac yn dechreu gwneyd yr un fath a phan oedd clefyd y mor arno!

Cafodd y gweinidog fraw a neidiodd i gydio yn ei gyfaill, gan holi:

"Beth sydd yn bod, Mr Thomas?"

"Oh, w i'n dost," cwynfanai Shoni, gan ail ymroddi i gael gwaredigaeth oddiwrth y lobster.

Mewn eiliad yr oedd yr holl deulu yno, mewn arswyd, a phob un yn siarad ac yn brygawthan y pethau mwyaf dyeithr.

Cyrcwyd dwfr i'r claf, ac ymolchwyd ei wyneb a'i ddwyllaw. Glanhawyd y lle yn fuan, a gosodwyd y Bachan o'r Pant i orwedd ar esmwythfaïne yn yr ystafell. Ond mawr oedd gofid Isafon Lewis, oblegid ofnai rhag fod rhyw glefyd wedi ymaflyd yn ei anwyl gyfaill. Daeth Shoni i'w liw a'i le yn bur fuan, ac wedi cwpanaid o de ffres a sleishen o ham cartref dan-teithiol, yr oedd Shoni fel ceffyl. Chwareu teg i wraig y ty: pan ddeallodd fod ein harwr wedi awgrymu y carasai gael gorlwyth o ham, ni fu yn dawel cyn danfon allan at gymydoges iddi, i ofyn am ychydig i'r foreigner ieuanc oedd yn sal.

Pan welodd Shoni yn gwella mor fuan, holodd Isafon ef yn bur fanwl, beth oedd achos y salwch. Ceisiodd y Bachan o'r Pant osgoi y gofyniadau, ond ni fynai y gweinidog ei wrthod.

"Wel, a gweud y gwir i chi, Mr Lewis," ebai Shoni, gan chwercin, "own ni wedi clywad bod nhw yn byta malwod a brogaid a phetha felly, yn Ffrainc, ag own ni'n meddwl wrth i golwg nhw taw rwpeth felly odd ar y mlat i. Ag fe geso rwpeth soft yn y men odd 'run peth a malwotan yn gwmws."

Chwarddodd Isafon yn iachus pan ddeallodd bethau, ac ebai: "Ond rhaid i chwi gofio mai yn Switzerland yr ydych yn awr, Mr Thomas, ac nid yn Ffrainc."

Synodd y teulu weled y claf yn gwella mor fuan. Gyda hyn yr oedd yn amser myned i ddal y tren. Gofalodd Shoni beidio bod yn brin gyda'r teulu. Ni wnaeth gymaint a gofyn y pris, ond gosododd ddarn sylweddol o aur yn nwrn gwraig y ty, a darn llai yn llaw y ferch fu yn gweini arno. Ni fynai ychwaith dderbyn dim gan ei gyfaill, Isafon Lewis. Ymaith a'r ddau tua'r orsaf yn cael eu harwain gan wr y ty. Ni chawsant aros yn hir, ac felly cyrhaeddasant Geneva yn bur fuan.

* * * * *

Fel pob taith arall, daeth y wibdaith i Switzerland i ben, a dychwelodd y Bachan o'r Pant i Aberdar. Wrth gwrs, trwy Lundain y daeth ac nid bychan y croesaw gafodd yno. Y peth cyntaf gafodd o enau Lucy, a hwy mewn Cymraeg llawn oedd,

"Wel, shwd wyt ti, Jack bach?"

Synai ein gwron glywed y llances benddu yn siarad yn iaith Adda. Un bychan er hyny oedd geiriadur Cymreig Lucy hyd yn hyn, a buan y cyrhaeddodd ben y tenyn. Mawr y pleser gafodd ein gwron wrth glywed Mrs Lloyd, gwraig Bili, yr heddeidwad, yn adrodd hanes Lucy: fel yr oedd yno bob moment gawsai, yn ceisio dysgu geiriau a brawddegau Cymreig. Yr oedd gan Lucy lais canu pur swynol, ac ni thawai Shoni heb iddi ganu "Hen wlad fy nhadau," gydag ef.

Yn ol fel y gallem gasglu, yr oedd Lucy yn canu yr hen gerdd genedlaethol Gymreig, mewn dull tebyg iawn i'r hwn y canwyd hi gan Arglwydd Salisbury unwaith. Y mae y darlennydd, yn ddiau, yn cofio am Arglwydd Salisbury

F7663

a'r enwog Dafydd Dafis, gwr Claudia, yn cyddeithio i gymanfa fawr wleidyddol Caerdydd; ac hefyd iel yr oedd Arglwydd Salisbury yn ymarfer ar y daith fel y gallai ganu "Hen wlad fy nhadau" yn y cyfarfod mawr yn Nghaerdydd. Os myn rywun weled yr argraphiad diwygiedig hwn o'r gan, onid yw yn ganiyddadwy yn y gwaith gorchestol hwnw, "Hunangofiant Dafydd Dafis?"

Er gwaethaf Lucy a phobpeth, teimlai Shoni yn falch o gael golwg ar "Sweet 'Byrdar" unwaith yn ychwaneg. Tra yr oedd y tren yn gadael Abercynon, neu y Basin, fel yr adnabyddid y lle yn y dyddiau hyfryd gynt, gellid clywed ein harwr yn canu dros y lle:

"Caf lath yn Ynyscynon,
A dwr yn Manc-yr-afon,
A diod yn mentra Aberdar—
Lle gora gar fy nghalon."

Ychydig allodd eistedd nes cyrhaedd ei hoff gartref; oblegid edrych allan drwy y ffenestr y bu bob cam o'r ffordd, gan gyfarch pob bryn a dol, a thy a thwlc a welai, a chan ddrachtio yr awelon oeddynt fel halm i'w galon. Yr oedd cymaint o ddiwyddiadau wedi cymeryd lle yn ystod y daith i'r Cyfandir ac yn ol, fel ag y gallai ein harwr dybio fod o leiaf i'wyddyn er pan yr aeth o Aberdar.

Ni cholodd ddim amser cyn ceisio y Parch Cynon Jones, ac yno y bu yn myfyrgell y gweinidog am oriau yn adrodd hanes y daith. Chwarddai Cynon Jones dros y lle wrth glywed am yr hwyf a'r mwynhad a gafodd ein harwr.

"Ond," ebai Cynon Jones. "Beth yw yr holl scent yma sydd gyda chwi, John? Fyddwch chi ddim yn arfer defnyddio peth fel hyn."

Gwridodd y Bachan o'r Pant at ei ddau glust, ac atebai yn swil, ond gan geisio ymddangos yn ddifater: "O cal poteled fach yn Llundain netho i, er mwyn cael bod yn debyg i'r gwyr mawr erill, odd yn y cwmpini, syr."

Edrychodd y gweinidog i fyw llygad ein harwr, am eiliad, a theimlai Shoni fel pe buasai yn darllen ei feddwl ac yn gwybod holl hanes y botel scent. Cymhellai ei gydwybod ef i ddyweyd yr hanes a pheidio twyllu ei gyfaill, fel yr oedd yn gwneyd; ond daeth pwnc y cyfarfod nos Sadwrn nesaf i fyny, ac ebai Cynon Jones: "Cofiwch, John, y byddwn yn disgwyl i chi roddi adroddiad o hanes eich taith ar y Cyfandir, nos Sadwrn nesaf. Ni fydd eisieu i chi ddyweyd hanes y botel scent a'r bobol a welsoch yn Llundain," parhai, gan wenu.

"Wni oti a'n gwpod rwpeth?" myfyriai Shoni rhyngddo ag ef ei hun: "mae a yn towli hen snaps lled od, ta beth."

"O, na, Mr Jones; fi garca i bido gneud hyny, achos alla i byth gwni ar y nhrad i wilia miwn lle felna," atebai ein gwron.

"Fe fyddwch ar y programme; felly byddwch yn barod," ebai y gweinidog, ac aeth yn mlaen gan ddywedyd: "Y mae genym raglen ardderchog erbyn nos Sadwrn nesaf."

"Beth sydd i fod, Mr Jones?" holai ein gwron.

"Byddwch chi yno mewn pryd, John, a chewch weled. Yr wyf yn disgwyl dyleithriaid yno; rhai y bydd yn dda gan bawb eu gweled; ac heblaw hyny, y mae genyf ddefnydd cyfarfod ardderchog yn ein plith ein hunain," atebai yr esgob.

Wrth i Shoni ymadael estynodd sypyn i Mr Jones, gan ddywedyd: "Hwrwch hwna, Mr Jones, yn bresant; fe fyswn yn lico i chi gal rwpeth gwell; ond w i wedi dod ag e o Lundan, achos odd Mr Isafon Lewis yn gwed y bysa chi yn i lico fa."

"Beth ydyw, John? Aroswech," ebai y gweinidog, gan agor y pecyn yn gyflym, a dyweyd wrth ganfod y gyfrol hardd: "Wel, diolch yn fawr i chi. Dyma gyfrol yr wyf wedi bod yn

F7664

awyddus am dani, er nan ddaeth allan, chwe' mis yn ol. Aroswech fynydd."

Rhedodd Cynon Jones i'w fyfyrgeall mor ysgafndroed ac ysgafn galon a'r plentyn pum' mlwydd oed; cydiodd mewn cyfrol fechan hardd oddiar yr astell; lapiodd mewn mewn papyr ac aeth a hi at y drws, gan ei hestyn i Shoni, a dywedyd: "John bach, fedra i ddim diolch digon i chwi am feddwl am danaf, ac am y fath anrheg werthfawr. Cymerwch hon, a danfonwch hi i Miss Lucy, a chofiwch fi ati."

Gyda hyn ysgydwedd y gweinidog law ein harwr yn gynhes a throdd ar y sowdl i'r ty gan gau y drws.

Safodd y Bachan o'r Pant yn stond ar y palmant, gan agor ei lygaid led y pen, a gofyn iddo ei hun: "Wel, tawni marw i shwd ma hwna wedi dod i wpod am Lucy? Own ni'n meddwl wrth i snaps a! Ma gwraig Bili Lloyd siwr o fod wedi clecan arno ni wrth Sam i brawd, ne rywun!"

Gyda hyn cychwynodd chwerthin wrtho ei hun, oblegid yn ei galon, teimlai yn hynod falch fod Mr Jones yn gwybod am Lucy.

Yn nesaf rhoddwn fynegiad o'r cyfarfod nos Sadwrn, yn yr hwn y cyfarfyddwn ag aml i hen gyfaill ac y ceir surprises dyddorol.

(I'w barhau.)

F7665

SHONI O'R PANT:

(UN O ENWOGION ABERDAR.)

Gar IFAN BRYNDU.

PENNOD XIV.—CAN SIMON PHYLIP.

NOS Sadwrn a ddaeth, ac yr oedd y Long Room yn llawn. Naill ai am fod Shoni wedi bod yn taenu y stoni, neu ynte am fod y pwyllgor yn arfer dod a phethau newyddion yn annisgwyladwy i'r bwrdd yn barhaus, yr oedd y si ar led fod tebygolrwydd am hwyl arbenig y noson hono. Yr oedd ymweliad Mr Henry Richard a'r cwmni wedi bod yn foddion i'w dyrchafu yn ngolwg y bobl, ac i dynu llawer i'r cyfarfodydd.

Ar y dechreu, nid oedd neb na dim neillduol i'w ganfod, ac i bob golwg, pan gymerodd Mr Cynon Jones y gadair, gellid disgwyl mai cyfarfod fflat a chyffredin fyddai yno.

Wedi y gan agoriadol, cafwyd anerehiad byr gan y Cadeirydd, yr hwn a ddywedodd fod yn dda ganddo weled "John Thomas" wedi dychwelyd o'i daith yn Switzerland, a'i fod ef yn teui er mwyn rhoddi cyfle i'n harwr i adrodd hanes ei daith. Derbyniwyd hyn gyda chymerafwyaeth calonog. Ond bu rhaid hanner gario y Bachan o'r Pant at y bwrdd, cyn iddo ymfoddloni. O'r diwedd, dechreuodd ar y gwaith, gan ddyweyd, "Mishdir Cadeirydd." Ond pa le y cawsai ddechreu, ni wyddai yn ei fyw; oblegid, er ceisio dylalu llawer, ni fedrai gael pen na chynffon i ddechreu.

Ebai Cynon Jones wrtho: "Gadewch Llundain a'i phobl ar ol, a dywedwch sut fordaith gawsoch chi o Loegr i Ffrainc."

Tafodd Shoni lygad chwith at y gweinidog, oblegid gwyddai beth a olygai wrth "bobl Llundain," ond dechreuodd eim harwr draethu ei stori gyda rhwyddineb a blas. Distawodd, er hyn, wedi adrodd hanes y fordaith.

"Ond sut y bu hi gyda'r lleidr hwnw?" holai Cynon Jones, gan dynu y Bachan o'r Pant allan.

Adroddodd Shoni yr hanes hwnw drachefu, gydag awch; ac i'w cefwyl yr oll ganddo, o dipyn i beth. Amlygodd eim harwr lawer o elfennau y gwir areithiwr, oblegid llwyddodd i gadw pob un i wrando yn astud arno. Ar adegau, methai yn lan a deall pa fodd yr oedd Cynon Jones yn gwybod am rai o'r troion a awgrymai, er cadw Shoni yn myn'd, canys nid oedd ef ei hun wedi dyweyd gair am danynt wrth y pregethwr. Er engrapht, dyna hanes y lobsters; buasai yn well gan y Bachan o'r Pant beidio dyweyd dim am y peth. Terfynwyd yr adroddiad yn nghanol cymeradwyaeth galonog, a thystiodd llawer un y carasai yntau roddi tro i'r Cyfaudir.

"Yn awr, y mae yn bleser genyf," ebai y Cadeirydd, "i alw ar y telynorion yn mlaen at eu gwaith."

Ar y gair, gwelwyd pedwar o wyr, dau ieuanc, un canol oed, ac un hen wr dall,—yn dynesu at ymyl y cadeirydd, a thynwyd allan o'r gornel bedair o delynnau, oeddynt wedi eu cuddio yn ofalus hyd y foment hono, a darn mawr o gynfas.

Agorai y gwyddfololion eu llygaid led y pen, fel pe yn ymholi, "O ba le y daeth y gwyr hyn?" Braidd na thybiai rai ohonynt mai ryw "dlyn hysbys" oedd y cadeirydd, a'i fod yn gallu gorchymyn i lyny o'r cyfnder du ysprydion i wneyd yr hyn a orchymynai efe iddynt. Wrth graffu, gwelwyd mai hen gyfeillion adnabyddus oedd y telynorion ill pedwar. Yr oedd yr hen wr dall

F7767

a'r gwallt cyrliog, gwyn, yn hen ffafryn gan-
ddynt er cyn cof bron. Ond sut y daeth y ped-
war gyda'u gilydd i'r Coffee Tavern y noson
hono?

Cafwyd esboniad tua diwedd y cyfarfod. Yn
eu hymddanion wythnosol, deallodd y "pwyll-
gor," hynny yw, y Parch Cynon Jones a Sam
Mishdir Haliars, mai dymunol fyddai cael nos-
waith gyda'r telynau.

"A oes yma delynorion gerllaw, Samuel?"
holai y gweinidog.

"Os, sopyn, syr; ma' na bedwar ne' bump o'r
Cap lan i Hirwan," atebai Sam.

Wedi holi sut yr oeddynt yn byw, a pha le y
cartrefent, a phothau felly, gwelodd Cynon
Jones fod pethau yn goleuo.

Wrth fyned a'r delyn o dafarn i dafarn y
byddai rhai o'r telynorion hyn yn enill bywol-
iaeth. Gwahoddid hwy gan y tafaruwr, yr hwn
a estynai iddynt ddeuswllt neu hanner coron.
Eisteddient yn nghanol y gyfeddach, gan yfed a
chwareu y delyn, ac yna gwneid casgliad iddynt
gan y cwmni. Weithiau, caent bymtheg swllb
neu bunt ar nos Sadwrn; ond, y rhan fynyachaf,
byddent yn rhy feddw i symud, ac heb geiniog
ar eu helw erbyn cyrhaedd garref.

Penderfynodd y "pwyllgor" a nodwyd wneyd
stroke ohoni, a chyflogwyd pob telynor posibl,
fel na chlywid swn telyn yn un dafarn yn y Cwm
y nos Sadwrn hwnw. Yr oedd cwmni y Coffee
Tavern wrth eu bodd yn swm y tanau. A phed-
air o delynau yn cydchwareu i Ymddangosai
y telynorion, hefyd, wrth eu bodd, ac edrychent
yn sobr ac yn hardd. Nid peth hawdd fydd
anghofo yr olwg ar yr hen delynor dall. Ym-
ddangosai fel pe buasai ryw ysprydoliaeth wedi
disgrya arno, tra y disgryai deigr yn tryloew o'i
lygaid tywyll dros ei ruddiau heirdd.

Sen am guro dwylaw a bloeddio encore, dy-
lasech glywed y pethau hyn ar ol i'r telynau
orphen!

"Ni gawn encore," ebai y Cadeirydd, "ond y
mae genyf un peth arall gyntaf, sef araeth arall
ar y daith i Switzerland, ac yn awr, y mae yn
bleser genyf adw ar y Parch Isafon Lewis, Ffes-
tiniog, i anerch y cyfarfod."

Yr oedd Shoni o'r Pant yn methu credu ei
glustiau, ond pan welodd Mr Lewis yn dyfod
yn mlaen, ni wyddai beth i'w ddyweyd. Oyd-
rhwng llawenydd wrth weled ei hen gyfaill, a
chywilydd wrth gofio yr hyn fu yn ddyweyd am
y daith a nodwyd, safai fel post am hanner
mynyd, ac yna yn mlaen ag of, gan ysgwyd llaw
ag Isafon hyd fon braich, a dyweyd yn druan-
llyd: "Too bad, Mr Jones; too bad, Mr Lewis;
ar mecws i, ma' hyn yn wa'th na too bad."

Wrth gwrs, nid oedd y cwmni yn deall hebwl
Shoni, a phan esboniwyd pethau iddynt gan Is-
afon Lewis, mawr y difyrwrch a gafwyd.

Yn ei anerchiad, hysbysodd y pregethwr
ieuan o Ffestiniog sut y daeth yno. Yr oedd
stori y Bachan o'r Pant am gyfarfodydd nos
Sadwrn wedi dal cymaint arno, fel nas gallai or-
phwys heb gael dyfod i un ohonynt. Cafodd
gyfle i ddod am Sul i Aberdar; ac, wrth gwrs,
ceisiodd am Mr Cynon Jones ar unwaith.
Medrai Isafon adrodd stori gyda'r goreu, ac yr
oedd hanes dal y lleidr, y lobsters, ac helyntion
ereill y daith, yn cael perffith chwareu teg
ganddo. Gofalodd ddwyn allan ran Shoni o'r
Pant yn mhobpeth, gyda gofod a theilyngdod;
fel yr oedd ein harwr yn gymaint o ffafryn a nod
llygaf gan bawb, ag oedd y noson y cynnaliwyd
wledd hono er ei fwyn. Terfynodd Isafon Lewis
ei araeth yntau, fel y lleill, yn nghanol cymera-
dwyath uchel, gan ddatgan y carasai yn fawr
glywed can neu ddwy cyn ymadael.

"O, chwi gewch," ebai y Cadeirydd, "ond
rhaid i mi gadw fy ngair, a galw am y telynau
unwaith eto."

F7668

Yr oedd peroriaeth y telynorion yn fwy swyn-
ol nag erioed, a phob un oedd yn bresennol wrth
ei fodd.

"Y mae yn bleser genyf yn awr," ebai Cynon
Jones, "alw ar Simon Phylip i roi i ni gan yu
nhafodiaith gwyr sir Benfro ar 'Wreca.'"

Clamp o ddyn bochgoch, mawr, braf, gyda
llais main, gwanaidd, oedd Simon, yr hwn a
ddaeth yn mlaen ar uuwaith, ac a ganodd gyda
chyfeiliad yr hen delynor dall y gan ganlynol:—

"Hen ddiin trichwantus wedd Twm Rhys,
A chrao ambeidus hefid;
Os croesid rhwbeth arno fe,
Fe drawe in 'i finid.

Wi'n cofio'n burion, 'slawer dddd,
In ansur llong Porthmilgan,
Pan wedd i mi yn arw show,
A'r gwrec in llenwir citan.

A phan wedd casgis lon'd i mor,
In llawn o'r liewrs orifa,
I Twm a fi, fel pawb o'n bath,
Fin'd lawr i'r tra'th i wreca.

Ni welsom jar ma's in i mor,
In ochor i don dori,
A stidiodd Twm ddim, druan wr,
Nad liewr wedd indi.

Fe redodd ma's heb bwslo dim,
Jwst hid at 'i gescile,
A'r tone mowron uwch 'i ben
Yn tori fel minidde.

Fe gas i drawo gida'r jar
Is wedd 'i war e'n crwmi,
A lawr fe a'th o don i don
Is wadd e' bron a poddi.

Fe gododd whap fach ar 'i dra'd,
A'r twad lon'd 'i liged,
A miwr ag e' ar ol 'i jar,
Heb feindio'i war un tamed.

Fe ddari 'dala hi'n bur gwic,
Fe sticodd dini'r coreyn—
Agore 'i ben—striche fri,
A lawr a hi bob dropin.

Ond 'n union fach, mi gwelswn e'
Yn gwneyd rhiw linie imbed,
A'n hwdi rwbeth fini fri,
Is wedd e'n ddi bob tamed.

Fe gang-gymerodd i'r hen Dwm,
Nid gin, na rwm, na brandy!
Na gwin, na phorter, diod fain,
Na dim, ond—ink wedd indi!

Mi wherthes i is o'wn i'n wau
Am ben 'rhen garan wancus;
A gimbod gwelodd inte hyn,
Fe a'th yn grac ambeidus.

Fe dowlodd i'r hen jar i'r llawr,
A'i natur fowr e' 'i fini,
Ac ar ing ol fe a'th in gwic
I roi i fi gie, neu'i nghrasi.

Mi rhoies inne nhra'd in tir,
A baat a fi'n bur heini';
A dina'r cwbul gesin i
Wrth wreca i prid hini.

Ond wrth wel'd trichwant i'r hen ddiin,
Mi benderfynes pwrni,
Na phrofw'n bith in drop o ddim
Ond dwr; a sana'i wedi."

F7669

"Ardderchog," ebai Isafon Lewis, gan guro ei ddwyllaw.

"Well done, Simon Shir Benfro, ffanws bach-an," ebai ereill.

Gwueddai llawer "Encore," ond fel yr oedd yn digwydd, dyna'r unig gan a wyddai Simon, ac nid oeddi yn credu mewn canu yr un peth ddwywaith.

"Na, na," meddai yr hen lwynog, yn ei lais main, "os od ihi wedi mind in weddo: fach i tro cunta, ma'n well pido spwylo pethe. Beth mae e'n weud, Mistir Jones?"

"Eithaf da, Mr Phylip," ebai Cynon Jones, gan alw ar y peth nosaf, a dywedodd:

"Yn awr, y mae yn bleser genyf i alw ar Mr Ramwna Gaglioni Deradv i roddi can i ni. Cyn i'r boneddwr ganu, dylaswn ddywedyd ei fod braidd yn swil, ac nad yw yn foddlon sefyll ar y plattform yna; felly, gobeithiaf y gwnewch gydymdeimlo gydag ef. Y mae wedi teithio dros dair fil o filldroedd i ddod yma, a dyma'r tro cyntaf iddo ymddangos gerbron cynulleidfa yn Nghymru. Dylaswn ddywedyd hefyd mai nid dyn gwyn ydyw, a'i fod yn hollol ddall a byddar, ac nid yw wedi profi tamaid o fwyd er's o leiaf dri cirmod."

O'r olwg oedd ar y cwmni pan glywsant y desgrifiad uchod. Chwarddai rhai, edrychddai ereill yn synllyd, hurt. Ar wyneb Isafon Lewis dawniai gwen gymysgedig o ddigrifwch ac anghrediniaeth, fel pe yn gofyn iddo ei hun: "Beth, yn enw y Brenhin George sydd ganddo yn awr?"

"Mr Deradv, yr ydym yn aros am dauoch, os gwelwch yn dda," ebai y Cadeirydd, a gyda hyn clywid llais gwanaidd, pell, yn canu yn swynol ac yn felus. Dechreuodd pawb glust feinio ac edrych ar eu gilydd. Hytrach, yn aneglur yr oedd y geiriau ar adegau, ond yr oedd y nodau yn berffaith. Ni fu erioed y fath ddistawrwydd a'r fath gywreinerwydd ag a arddangosid yn y Leng Room y noson hono. Wrth derfynu, cododd y canwr ei lais, a therfynodd yn nerthol ac yn orchfygol. Yr oedd y curo dwyllaw a'r bloeddio encore yn tyddarol, tra yr oedd pawb ar flaenau eu traed yn ceisio gweled y cantwr. Mynent fod y swm yn llifo dros ben cadair y cadeirydd, ond nid oedd dim na neb i'w weled.

"Wel, os rhaid cael encore," ebai Cynon Jones, "gwel fydd gofyn i Mr Deradv ganu i ni "Hen Wlad fy Nhadau" yn Gymraeg, oblegid nid yw bwys yn y byd ganddo pa un o ieithoedd masurion Ewrop ac America. Bydd y cyfarfod drasodd ar ol cael y gan genedlaethol, a bydd yn bleser genyf eich cyflwyno, bob yn un ac un, ar y diwedd, i Mr Deradv."

Gyda syndod a llawenydd y derbyniwyd y geiriau hyn eto; ond gyda bod y cadeirydd yn galw ar enw y boneddwr, yr oedd pob un yn ddistaw fel y bedd. O'r un lle ag o'r blaen, clywid nodau o geiriau yr hen ganig anwyl yn rholio allan, yn llawn ac yn wrësog, fel pe buasai Eos Morlais yn ei channu; ac er fod pawb yn uno yn galonog yn y cydgan, yr oedd llais Mr Deradv yn codi yn giir yn uwch na'r cyfan.

Terfynwyd hyn eto, ond nid oedd son gan neb am ymadael. Gwthiai pob un yn mlaen at y cadeirydd, a phan welodd Cynon Jones ei bod yn myned yn galed arno, ebai:

"Nawr, Samuel, codwch Mr Deradv i ben y bwrdd."

Ar hyn, daeth Sam Mishdir Haliars o'r tu ol i'r gadair, a gosododd beiriant bychan, hardd, ar y bwrdd, gan ddywedyd yn olwertbingar:

"Wel, dyna fe, boys."

"Ond b'le mae'r cantwr?" holai Shoni o'r Pant.

"Wel, dyna fe, bachan," atebai Sam.

Ni fynai y cwmni gredu llai na bod Sam a'r

F7670

Cadeirydd yn eu twyllu, hyd nes i'r blaenaf, ar gais Cynon Jones, osod y peiriant casu i ganu can arall iddynt, ac iddo wedi hyn droi yn beiriant siarad a bhraddodi unerchiad iddynt.

Pan welwyd trwy bethau, mawr fu y llawenydd a'r canmol, a chadwyd y cadeirydd yno brawd yn hwyr y noson hono, yn ceisio egluro egwyddor y peiriant bychan.

Aeth Shoni o'r Pant i hebrwng Isafon Lewis i'w lety, a gwnaeth drefniadau gydag ef am ei ymweliad a'r Gogledd. Yr oedd y gweinidog ieuanc o Ffestiniog wedi dotio ar y erfartod, a mynai gael gan y Bachan o'r Pant fyned i weithio i Ffestiniog, er mwyn cael helpu i gael rhai tebyg iddynt yno.

"Mi ddewa i felco am dro, Mr Lewis," atebai ein harwr, "ond 'Sweet Byrdar' i fi cyf a bydda i, ta beth. I chi'n gwel'd: haffar w i. Fi alla i hala ceffyl, a thrafod drams, a sprags, a bar-wes, a shackles, a phetha felna, gitag undyn; a fydda i ddim shaffad—ddim wincad—yn cwni dram i'r rails, os bydd 'no le; ond yn i ddim byd am y gwaith sy' gita chi lan yco."

Ymadawyd ar y ddealltwriaeth fod Shoni o'r Pant i gyfeirio ei wyneb tua Gogledd Cymru yn mhen ychydig amser. Yn ol ei ffyddlondeb arferol i'w air, cyflawnwyd yr addewid i'r tipyn, a chafwyd taith ramantus a dyddorol dros ben, fel y cawn ddangos yn y man.

PENNOD XV.—TAITH I'R GOGLEDD.

Gwawriodd y boren i'r Bachan o'r Pant fyned i'w daith tua Gogledd Cymru. Anturiaeth fechan iawn oedd hon yn ei olwg. Onid oedd Isafon Lewis yn ei aros yn Ffestiniog? Ac onid oedd yntau wedi bod dros y mor a thros gyfaudir Ewrop cyn hyn? Yn naturiol, ychydig oedd ei bryder, ac ychydig o ymgynghori fu rhyngddo a'i gyfaill, Cynon Jones, ar y mater. Teimlai braidd yn falchaid, ynddo ei hun; ac awgymodd y Bachan o'r Pant i John Thomas fwy nag unwaith, mai "rhaf lled dwp yw'r Northryn yna," ac y buasai efe yn "dangos twtsh ne ddoi iddi nhw," cyn dychwelyd. Fel gyda Iaf Caisar gynt, felly, bwriadai ein harwr "ddyfod, gwelod, a choncro." Ond gwaethaf y modd, nid felly y bu yn hollol y tro hwn.

Pan aeth i drain y Gogledd yn Mbontypool-road, syrthiodd i gwmni difyr dros ben. Yr oedd yn yr ystafell hen wr a hen wraig, yn ymddangos yn anwyl a phatriarchaid; par ieuanc serchog, sirid, fel pe ar gychwyn i'w nis mel; dau ddyn canol oed, trwsiadus, siaradus; a dynes welw, wannidd yr olwg, a chanddi faban tua m's oed. Credodd Shoni fod y cwmni oll yn berthynasau, neu yn gyfeillion adnabyddus o leiaf; oblegid yr oeddynt oll yn siarad trwyddi-draw, am bersonau adnabyddus i'r oll ohonynt. Yr oedd un o'r gwyr canol oed hefyd yn siarad, ac yn talu cryn sylw i'r baban, a chymerodd ein harwr yn ganiatol ei fod yn dad iddo. Yn bur fuan tynwyd y Bachan o'r Pant i fewn i'r ymddyddan, a daeth pob un i ddyweyd wrth bob un arall, i ba le yr oedd yn myned ac o ba le yr oedd yn dyfod.

Yn Abergavenni, disgynodd y par hynafol a nodwyd, ac, hefyd, un o'r gwyr canol oed. Cyrhaeddwyd Henffordd, a disgynodd y cwpl ieuanc a'r gwr canol oed arall. Erbyn hyn nid oedd neb ond Shoni, a'r wraig, a'r baban, yn yr adran hono. Tra yr oedd y train yn aros, cerddodd ein harwr yn ol ac yn mlaen ar hyd y platform, yna dychwelodd ac eisteddodd yn ei le.

"Wnewch ehwi ddal y baban yma am fynydd, os gwelwch yn dda, syr? Y mae arnaf eisien ychydig lefrith iddo," ebai y wraig yn foesgar ac yn Seisnig.

Fel gwir foneddwr, cydiodd y Bachan o'r Pant yn y bychan yn dyner ac yn ofalus, ac aeth y wraig allan gan gau y drws ar ei hol.

F7671

"Bysu Lucy ddim ond ca'l pip arto i nawr, fe fysa'n werthin fel gnath hi pan gitshas i yn mabi bach Bili Lloyd," ebai Shoni wrtho'i hun.

Ond cyn pen eiliad, chwythodd y swyddog ei chwibanogi, ac er ei syndod a'i ddychryn, clywodd y teithiwr y train yn cychwyn linc-lonc allan o'r orsaf! Ceisiodd hoeddio, ond yr oedd y ffenestri wedi eu codi. Rheddodd at y ffenestr, ond yn ei wylltineb aeth i'r ochr bellaf oddiwrth y platform. Pan welodd nas gallai dynu sylw, eisteddodd i lawr, gan edrych yn synllyd ac yn fud ar y tlws, diniwed oedd yn cysgu yn dawel yn ei freichiau.

"Wel, dyma hi'n ddechra o'r diwadd," ebai pan ddaeth ato ei hun; "beth sy' well i fi neud ag e, wni?"

Tra yr oedd y train yn chwyrnellu yn y blaen, cynhesodd calon Shoni at y baban, a siaradodd lawer ag ef, er fod y bychan yn cysgu yn braf o hyd. Ond nis gallai yn ei fyw ddyfalu beth i'w wneyd ag ef. Yr oedd wedi clywed am famau yn taflu allan eu plant, tra yr oedd y gerbydres yn symud, a chrynodd mewn arswyd drosto wrth gofio a meddwl am y fath beth. Gellid gweled ei ddyrnau a'i wefusau yn cau yn dyn yr adeg hono, a rhuthrai ei lygad pau ddywedai wrtho'i hun eto:—"Shwd gall undyn neyd drwg i beth bach fel hyn? Fe ddylsa unrhyw ddyrn ne fenyw gal i shibedo am neyd los i fabi bach. Gobitho na naiff a ddim di'no. Fe weta i wrth y guard am dano fa, yn y station nesa'. Ond beth, os na chymeran nhw fa? Fydd a ddim iws i fi fyn'd ag e i Ffesiniog. Wel, os na chymeran nhw fa, fi a i nol ag e i Byrdar."

Ar hyn crynodd ein gwron drosto, oblegid rhoddodd y bychan sgrech wanaidd, a chwareuai ei wefusau, fel pe yn galw am y deth.

"Yr argol anwl! Beth na i nawr?" ebai Shoni, gan chwilio y basged fechan oedd ar y set yn ei ymyl. Yr oedd y bychan yn gyru iddi yn iawn erbyn hyn, er gwaethaf holl lwlian, ac ysgwyd a sio y Bachan o'r Pant. Er ei lawenydd, cafodd o hyd i botel sugno, ac ychydig o lefrith ynddi. Tynodd y botel allan; gosododd hi yn ngenau y dadganwr bychan, a mawr oedd ei lawenydd pan gafwyd gosteg, ac y gwelwyd gwen o foddlonrwydd yn lledu dros y gwyneb bychan, glân. Ond ychwanegodd y tawelwch at ei helbul, oblegid ail-ddechreuodd feddwl pa beth i wneyd a'r plentyn.

Er ei fawr lawenydd, yr oeddynt yn arafu yn ngorsaf yr Amwythig. Penderfynodd ein gwron fyned yn syth at y guard, ond cyn icdo gael amser i droi bron, wele heddgeidwad, y station-master, gwraig mewn ffedog wen, a dyn cymharol ieuanc, yn dyfod ato.

"Beth yw y baban yma sydd genych?" holai yr heddgeidwad.

Edrychodd Shoni yn ddyeithr arno, ond pan welodd y padwar yn gwenu-chwerthin, daeth ato ei hun, ac ebai yn llon,

"O, fi wela'ch bod chi'n gwpod gystal a fina'."

"Ydym, mae'n debyg," ebai yr heddgeidwad, gan gyfeirio at y dyn a nodwyd, a dywedyd:

"Dyma dad y plentyn," yr hwn, erbyn hyn, oedd yn cydio yn ei drysor o law Shoni.

"Diolch o galon i chwi, syr, am ofalu am dano," ebai y tad gyda deigrin o lawenydd yn ei lygad.

Erbyn hyn teimlai y Bachan o'r Pant hiraeth ar ol y bychan: yr oedd wedi syllu cymaint i'w wyneb hardd ar hyd y ffordd, a braied na theimlai fod ganddo ryw gymaint o hawl iddo. Pan welodd y plentyn, er hyny, yn mreichiau y tad, a hwnw yn ei gyflwyno i ddwyllaw ei chwaer, yr hon oedd gydag ef, teimlodd fod yna faich o gyfrifoldeb wedi myned oddiar ei ysgwyddau. Difyr oedd clywed y cwmni yn adrodd sut y bu pethau. Shoni yn dyweyd ahi y fam yn myned allan yn Henffordd, a'r lleill yn dyweyd am y

frysneges oedd wedi dyfod yno, yn gorchymyn iddynt gyfarfod y train, ac yn rhoddi desgrifiad o Shoni. Mawr yr hwyl a gafwyd hefyd pan ddeallwyd mai hen lanc oeddwein harwr, ac am ei waith yn arswydo wrth glywed y plentyn yn crio, ac yn rhoddi y botel iddo.

"Wna i ddim cynnyg arian i chwi, syr, am eich caredigrwyd mawr, ond byddwch cystal a derbyn hwn, yn rhodd genyf," ebai y tad yn ddiolchgar, gan estyn i'n harwr y medal aur bychan oedd wrth ei gadwen.

Diolchod Shoni yn gynhes am y rhodd, a gosododd hanner sofran yn llaw y tad, gan orchymyn iddo brynu bonet ac esgidiau i'r bychan, pan fyddai yn barod am darynt. Nid oedd digon o arian yn y cread i brynu medal Shoni ar ol hyn. Ond yr oedd yn rhaid myned eto.

Cyn i'r train ail-gychwyn, gelwid yn uchel ar bawb i ddangos eu tocynau. "Tickets, tickets," a glywid drwy y lle. Daeth gwr i fewn a gofynodd am docyn y Bachan o'r Pant, yr hwn a'i estynodd yn ddimacac a difeddwl. Cymerodd y dyn y tocyr ac i fwrdd ag ef. Cofiodd Shoni mai tocyn i Fangor oedd ganddo, ac y byddai ei eisieu weddiill y daith. Rhuthrodd i'r ffenestr i alw y dyn yn ol, ac i'w hysbysu nad oedd y tocyr i gael ei roddi i fyny yn yr Amwythig. Nid oedd golwg am y dyn yn un man! Gyda hyn dyma swyddog mewn cot las a botymau gloewon yn dod at y drws, gan ddal gefail fechan, tebyg i siswrn, yn ei law, a gofyn am docyn.

"Rwy i wedi rhoi y ticket," ebai Shoni.

"Naddo, naddo; dowch ar unwaith," ebai y dyn, yn ddiamynedd.

"Do, yn wir, y fynyd yma," tvstiodd ein harwr, yn gynhyrfus.

"I bwy?" "Does neb ond y fi i fod yn y pen hwn i'r train; felly dim o'ch lol chwi. Policeman, dowch yma," ebai y swyddog, yn groes ac yn benderfynol.

Daeth yr heddeidwad, a synai weled y bachgen fu mor ofalus o'r baban, yn y fath helynt. Tra yr oedd efe yn sefyll gyda'r Bachan o'r Pant, aeth y casglwr tocynau yn ei flaen trwy y cerbydau ereill. Mynai yr heddeidwad i'n cyfaill edrych ei logellau, ond taerai hwnw ei fod wedi rhoi ei docyn ac mai ofer fyddai chwilio.

"Fyddwch chwi ddim gwaeth o chwilio tipyn eto; dewch da fachgen; fedra i ddim bod yn gas wrthoch yn awr," ebai gwas y Llywodraeth, yn garedig.

Toddodd hyn galon ein gwron, ac ystythodd ei ewyllys. Dechreuodd chwilio ei logellau, ac er ei syndod, cafodd o hyd i'r tocyr. Nis gallai gredu ei fysedd na'i lygaid. Chwarddodd yr heddeidwad, a chydiodd yn y tocyr ac aeth ag ef at y casglydd, yr hwn a'i tociodd ac a'i rhoddodd yn ol gan ddywedyd:

"Dowch yn ol yma yn union, mae y dyn yma yn awr yn ceisio fy ngwneyd i."

Rhoddwyd y tocyr yn ol i Shoni, yr hwn oedd fel un wedi ei syfrdanu, oblegid yr oedd yn barod i dyngu ei fod wedi rhoddi dau docyn i fyny. Aeth yr heddeidwad yn ol ac ebai y casglwr tocynau wrtho:

"Y mae y dyn yma wedi rhoddi y tocyr hwn i mi: "Aberdare to Cardiff," a cheisio dyweyd ei fod yn meddwl mai hwn gafodd yn Henffordd heddyw! Beth sydd ar y bobl? Yr ydym eisoes chwarter awr yn ddiweddar, a chawn ni mo'r train yma i fwrdd heddyw fel hyn. Yr wyf yn rhoddi y dyn yma i fyny i chwi, fel un yn ceisio twyllo y cwmni."

Cymerwyd y dyn i'r ddalfa ac i fwrdd a'r train hebdo. Erbyn hyn, yr oedd y teithwyr yn llaw y ffenestri, ac yn eu plith y Bachan o'r Pant, yr hwn, pan welodd pwy oedd y carcharor, a neidiodd, gan ddywedyd:

"Ar mecws i! dyna'r boy gas y nicat i gynta! Shwd ma hyn yn bod?"

Gwelodd y llall Shoni, yr un adeg, a gwylltiodd yn ofnadwy. Ysgyrnygai ei ddannedd, codai ei ddwrn yn fygythiol, a gwnceth ruthr am ein harwr, ond yr oedd yr heddeidwad yn gafael yn rhy dyn yn ei goler iddo allu ymryddhau. Methai y bobl ddeall ei gynddaredd at Shoni, a cheisiai aml i un wthio ei ben allan gan holi beth oedd yr achos.

Yr oedd ein cyfaill yn tertuno wrtho ei hun erbyn hyn, ac wedi synfyfyrto yn hir, ebai o'r diwedd: "O, ho! fel na iefa, machar i? Paid ti beco d.m. Nawr w i yn diall pethach. Medawl dweid y nicat i oit ti, fe wela, a gatal i finna fyn'd i'r cook-shop lle wyt ti myn'd nawr! Ond beth odd y ticat roias i iddo fa? Ond buo'i yn lweus?"

Gyda hyn edrychodd Shoni ar ei docyn, a darllenodd ei yn ofalus; arswydai wrth feddwl y gallasai y foment hono fod yn y ddalfa, a hyny yn mhell oddicartref, heb gar na chyfaill yn agos!

Yr oedd y cnaf a ddaliwyd wedi ffugio mai efe oedd y casglwr tocynau; wedi rhuthro i fewn a chymeryd tocyn ein harwr, ac wedi esgeuluso edrych ar y tocyn a gafodd. Ar yr un pryd, yr oedd y bachgen o Aberdar wedi bod mewn cymaint o ffwdan gyda'r babar, ac wedi teimlo yn ei logell, gan estyn y tocyn cyntaf ddaeth i'w law. Trwy ryw ffawd rhoddodd hen docyn, "Aberdar i Gaerdydd." Wrth gwrs, fel un oedd yn teithio llawer ceid hen docynau beunydd yn mhocedi y Bachan o'r Pant. Trwy gydol y gweddill o'r daith y tocyn a'r medal gafodd bron yr oll o'i sylw.

Yn Rhiwabon cafodd gwmi ar y daith. Daeth dau Gymro cynhes, canol-oed, i fewn i'r cerbyd, ac aeth yn ymgom felus ar unwaith. Cydrhwng Cymraeg fflipant Shoni, a Chymraeg llydan y Gogleddwyr, nid gormod yw dyweyd fod gagendor fawr wedi ei gosod. Ac, yn wir, nid rhyw lawer o dramwy fu drosti ychwaith, oblegid yr oedd y Gwyneddigion mcr werinol a'r Deheuwy: bob tipyn.

"Ydan ni yn mynad i Gaer," ebai un o'r Gogleddwyr.

"B'le ma hyny?" holai Shoni.

"Wel yn Shir Gaer, fan yma," ebai y llall.

"Yn Shir Gar! Yn y South ma Shir Gar; i chi myn'd o with w!" ebai y Bachan o'r Pant, yn gyflym.

"Na, na; yn tydi hi yn ymyl. Yn Lloegr mae Shir Gaer, yn siwr i chi," dadleuai y llall.

Chwarddai Shoni at anwybodaeth y dyn, ond goleuwyd ef gan y llall, yr hwn a daywedodd mai i Gaerleon yr oeddynt yn myned ac nid i Shir Gaerfyrdin, ac yna chwarddodd y tri yn Gymreig ac yn iachus.

"Beth yw hwnco, gwetwch?" gofynai y Deheuwyr.

"Be' di 'hwnco'! Wyt ti'n i ddallt o, dywad?" ebai un o'r Gogleddwyr wrth y llall.

"Fedra i wneyd na berfa na throfa ohono fo rwan." oedd yr ateb, ac edrychai y tri ar eu gilydd fel llei am beth amser.

Dangosodd Shoni y medal iddynt, a cheisiodd ddyweyd y stori am y babar. Yr oedd ein cyfaill mewn hwyl yn adrodd ac yn chwertthin, tra ei gyd-deithwyr yn gwrando fel cau Stoic. Wrth eu gweled felly, ofnodd y Bachan o'r Pant ei fod wedi dyweyd rhywbeth o'i le a'u bod wedi digio. Cofier, yr oedd croen Shoni mor deneu ag eiddo yr un chwanel, ac hawdd iawn oedd ei siomi.

"Ottich chi wedi pwti ne wedi dicio wrtho i am rwpeth?" ebai wrthynt, gan edrych yn fyw eu llygaid.

"Digio! Nac ydan yn siwr i chi. Methu'ch dallt chi'n lan ulw 'rydan ni," atebent hwythau.

"Bechgyn budur i chi'r Northmen yma, ta beth," ebai'r gwr o'r South.

"Budr? Budr, ddedsoch chi? Ydach chi'n deud yn bod ni'n fudr?" ebai yr ieunegaf o'r

F7674

ddau Ogleddwr, gan godi ar ei draed ac edrych yn ffyrnig.

Siomodd Shoni ychydig, oblegid deallodd fod rhywbeth o'i le, ac meddai: "Gwed own ni w, y'ch bod chi yn wila yn od.

"Od? Ond tydach chitha yn od, ddylwn i," atebai y llall, gan dawelu i lawr ychydig.

Ar ol hyn teyrnasodd distawrwydd ar y tri am beth amser ond yr oedd dal dig yn beth na fedrai y Bachan o'r Pant wneyd. Hefyd, pan fyddai dyrswch yn ymgodi pwy mor fuan a'n cyfaill i gynllunio ffordd i'w symud? Tarawodd ar gynllun effeithiol y tro hwn. Anerchodd ei gyd-deithwyr yn yr iaith fain, a thrwy fod un ohonynt yn Sais pur dda, deuwyd i ddealltwriaeth yn bur fuan. Esboniwyd ymaith y geiriau dyeithr ar y dechreu a daethant yn hynod gyfeillgar. Yr oedd y ddau Ogleddwr yn adnabod Cynon Jones ac Isafon Lewis yn dda, ac, wrth gwrs, yr oedd y Deheuwyr felly a chanddo ddigon o destynau siarad.

Cyrhaeddwyd gorsaf Rhyl, ac aeth Shoni allan, i gerdded ychydig, yn ol ac yn mlaen, nes byddai y tren yn cychwyn, oblegid yr oedd wedi hen flino ar y daith. Ond yn ddjarwybod iddo, cychwynodd y tren. Am eiliad nis gallai goffio yn mha le yr oedd ei gerbyd; yr eiliad nesaf dacw ef yn rhedeg, yn neidio, ac yn ymaflyd yn y dwrs. Yr oedd un o'r swyddogion wedi gorchymyn iddo beidio, ac ymaflodd un ohonynt yn ei goler gan geisio ei dynu i ffwrdd; ond glynu yr oedd Shoni a'r bobl yn y tren ac ar y platform yn dal eu hanadl mewn dychryn.

(I'w barhau.)

F7675

(delwedd F7675) (5 Mai 1900)

SHONI O'R PANT:

(UN O ENWOGION ABERDAR.)

Gan IFAN BRYNDU.

PENNOD XVI.—DIWEDDGLO.

WRTH weled nad oedd Shoni yn argoeli gollwng ei afael, ac fod y train yn prysur adael y platform, gollyngodd y swyddog Shoni, ac i fewn a'n harwr i'r cerbyd, fel un wedi enill buddugoliaeth. Cafodd, er hyny, fraw rhyfedd, a churai ei galon yn gyflym, tra yr oedd y chwys yn llifo drosto. Ond sut y byddai pan arosai y train? Dyna'r ewestiwn oedd yn dechreu pwyso ar ei feddwl erbyn hyn.

Ni safodd mwyach hyd nes cyrhaedd Llandudno Junction, lle yr oedd ein gwron i ddisgyn, a lle y disgwyliai gyfarfod a Mr Isafon Lewis. Gyda bod y train yn aros, i lawr ag ef, ac allan i ganol y bobl. Yn mhen ciliad, welo heddeidwad ac un arall yn chwilio trwy bob cerbyd.

"I hwn yr aeth i fewn, rwy'n sicr," ebai y guard, gan dafu golwg i blith y bobl, lle yr oedd Shoni yn ysgwyd llaw yn gynhes gyda'r Perch Isafon Lewis.

"Yr ydych yn sicr o fod yn camsynied," ebai y policeman, "oblegid yr oeddwn i yn sefyll yn y fan yma, ac ni ddaeth neb allan oddiyma, ond boneddwr a chot oleu am dano, a spectol ar ei lygaid."

"Nage, nage, nid hwnw ydyw; rhaid ei fod wedi dianc rhwng ein dwylaw. Rwy'n sicr mai creadur cyflym, cryf ydyw. Beth pe buasech yn ei weled yn neidio ar y train yn Rhyl, ac yn ysgwyd y llanc hwnw i fwrdd! Yr oedd tie goch ganddo. Byddaf yn sicr o'i adnabod," ebai y guard.

"Dewch ma's ar unwaith odd'yma, Mr Lewis," sibrydai Shoni wrth ei gyfaill y peth cyntaf.

"Wel, John bach, beth sydd yn bod? Wyddoch chi, fuaswn i byth yn eich adnabod. Beth yw y spectol yna sydd genych, a pha le maa eich tie?" holai y gweinidog.

Cyn gynted ag yr aethant y tuallan i'r dorf, adroddodd ein gwron ei brofedigaethau. Yn Rhyl, cap teithio bychan oedd ar ei ben. Pan ddeallodd y byddent yn debyg o fod yn chwilio am dano, gosododd hwnw yn ei logell, a gwisgodd ei het. Tynodd y tie goch oddiam ei wddf, a gosododd ef gyda'r cap, a gwisgodd y got oleu ysgafn oedd ganddo. Yn olaf, cofiodd fod Cynon Jones wedi gofyn ganddo ddod a gwydrau gleision Isafon Lewis gydag ef, a gyda hyny gosododd hwy ar ei lygaid. Yr oedd Isafon wedi eu gadael ar ol yn Aberdar.

Yr oedd y Bachan o'r Pant wedi ei lwyr gyfnewid. Beth ddywedai Lucy, neu Sam Mishdir Haliars, neu Cynon Jones, pe cawsent weled ein harwr a spectol las ar ei lygaid? Chwarddodd Mr Lewis allan pan ddeallodd sut yr oedd pethau yn sefyll; ond bu Shoni yn bur hir cyn boddioni tynu y gwydrau, a phallodd yn lan a gwisgo y tie goch ar ol hyny, cyhyd ag y bu yn y Gogledd.

Yr oedd golwg lwynogaidd ar Shoni pan ym myned i'r train am Ffestiniog. Teimlai fel pe buasai pob swyddog neu heddeidwad ddenai yn agos ato, ar fedr ei gipio ef vmaith. Edrychai yn hynod amheus ar y casglwr tocynau. Er hyny, sugnai lawer o gysur o gyndeithas Mr Isafon Lewis.

Cyrhaeddwyd Ffestiniog heb lawer o helynt, ond fod y gweinidog wedi chwertlin nes bod ei ochrau yn boenus, wrth glywed hanes helyntion Shoni; ac yn neillduol am ei waith yn rhoddi y

F7677

botel i'r baban. Rhyngoch chwi a minnau, yr oedd iaith a brwdamaeth Shoni yn elfen bwysig yn nifyrwrch Isafon Lewis.

"O," meddai wrtho'i hun, "sut bydd hi pan fydd fy nghyfaill yn adrodd ei hanes wrth bobl Ffestiniog, bron yn union?"

Cyflwynwyd y boneddwr o'r Deheudir i wraig y ty lle letyai Mr Lewis, yr hen oedd yn wreigan fechan, serchog, lanwaith, a siaradus dros ben.

"Ydach chi yn o iach, syr?" gofynai Mrs Peters.

"Ottw net, thenciw; shwd i chi?" atebai Shoni.

"Be' ddeudodd o, Mistar Lewis?" holai y wraig.

"O, dyweyd ei fod yn iach, ac yn gofyn am eich iechyd chwithau, Mrs Peters," ebai y gweinidog.

"O, ydw, syr; diolch i'r Tad gora, ynte; ydw, ond fod y riwmitis a'r brontitis wrtha'i ar adega, ynte. Be' gym'wch chi i fwyta, Mr Lewis?" holai Mrs Peters.

"Wn i ddim; beth sydd genych, Mrs Peters?" atebai Isafon, a chan droi at ei gyfaill, meddai yn gellweirus: "Garech chwi gael lobster, Mr Thomas?"

"Gadewch i yn y man 'na, nawr, Mr Lewis; ne fi fydda i yn siwr o ga'l 'y merfedd nol yto," ebai y Bachan o'r Pant, gan gofio am y pryd o fwyd bythgofiadwy hwnw yn Switzerland.

"Tipyn o ham cartre', ynte?" holai y gweinidog, gyda gwen ddiurus.

"Ia, dyna fe'n fflamws," oedd yr ateb parod. "Be' fynwch chi efo fo: te, coca, ynte coffi, rwan?" holai y wraig yn mhellach.

"Dishgled o de," meddai Shoni.

"O'r goreu, dishgled o de, Mrs Peters, a golwyth o ham," ebai Isafon.

Agorodd y wraig fach ei dau lygad led y pen gan ddyweyd, wrth fyned at ei merch i'r gegin:

"Jane, mae'r llane diarth yna eisho disgled o de! Glywast ti ffashwn beth oriod? Be' na i, dywad? Dos geni 'run ddyagl i osod te ynhi ar felw. Pe'm na neith cwpan y tro iddo, dywad? Sut bydda nhw yn gneud te yn y South ene, dywad?"

Galwyd y gweinidog i'r gegin, ac ebai gwraig y ty yn llawn ffwdan: "Fath ddyagl ydach chi eisho, Mr Lewis?"

"Mrs Peters bach, ddygl fyddan' nhw yn galw cwpan yn y South. Am gael cwpanaid o de y mae o," esboniai Isafon.

"Glywsoch chi fath gabolfa 'rioed? Ond ddygl ydi ddygl, a chwpan ydi cwpan! Be' ma nhw yn 'i bonsho tua'r South acw, Mr Lewis? Os mynan' nhw alw cwpan yn ddyagl, pa enw sydd gynyn nhw ar ddyagl, deudwch?" ebai Mrs Peters yn rhigl ac yn ddoniol.

Methai Isafon a chofio, ond pan ddygwyd y bwyd i fewn, gofynodd i Shoni, yn nghlyw Mrs Peters, fel y canlyn:

"Mr Thomas, beth fyddwch chi yn alw y restr yma a'r golwyth ham arno?"

"Golwyth?" ebai y Bachan o'r Pant, yn syn: "beth yw hwnw, Mr Lewis?"

"Wel, beth fyddwch chi yn ddyweyd am gig wedi ei dori fel yna?" gofynai Isafon, gan gyfeirio at y cig.

"Sleishan o ham, wrth gwrs, dyna beth yw a yn Gymraeg," atebai Shoni gan wenu.

"Beth yw hon, ynte?" holai y gweinidog.

"Wel, am dwpliar yw i w, syr," meddai ein gwron, gan synu at anwybodaeth y gwr dysgedig.

Mawr y difyrwrch gafodd Mrs Peters am ben Shoni, a mawr yr hwyl gafodd yntau am ben gwraig y ty.

"Ma hi yn boddran ac yn potshach fel Frenchman, ag w i yn diall dim byd ma hi yn weud," ebai ein gwron.

F7678

"Be' andros sy' gynof fo, yn tydi o fel Gwyddal. Sut na bysa pobol y South ene yn dysgu siarad Cymraeg, deudwch, Mr Lewis?" holai Mrs Peters.

Cydrhwng y ddwy blaid, yr oedd Isafon mewn lle doniol. Yr oedd rhyw gamddealltwriaeth yn codi, ac angen am dano yntau i wastadhau pethau, ac i gyfeithu rhwng gwraig y ty a'r ymwelydd newydd. Ond un diwrnod, aeth pethau yn bur ddrwg. Cyfarfyddodd Shoni Mrs Peters rhyw ganllath oddiwrth y ty, ac ebai hi: "Wyddoch chi lle mae Mr Lewis?"

"Mae a yn nhre'," atebai Shoni.

"Mr Lewis, yn y dref? Mae galwad am dano ar unwaith. Tybad lle caf fi o hyd iddo?" ebai hithau yn syn, ac yn ol a hi i lawr yr ystryd.

Yn mhen amser, dychwelodd, a chafodd y gweinidog gartref.

"Fuoch chi yn y dre', Mr Lewis?" gofynai yn llym.

"Na, fu'm i ddim o'r ty, Mrs Peters. Pa'm?" atebai y gweinidog.

"Ydi'r gwr diarth yma yn fy ngwawdio fi, dedwch? Och yn i galon o. Y fynydd yma, dedodd o y'ch bod chi yn y dre'," ebai hithau yn gynhyrfus.

"Ddywedsoch ehwi, Mr Thomas, mod i wedi myned i'r dref?" gofynai Isafon i Shoni.

"Naddo i, yn y wir i, Mr Lewis. Fi wetas y'ch bod chi yn y ty," atebai y llall.

"Taw a dy glwdda," ebai Mrs Peters, yn boeth, pan ddeallodd fod Shoni yn gwadu.

Cafodd Isafon Lewis lawer o waith cyflafar-eddu ar ol y tro hwn, ac nid oedd Shoni heb fod ag vchydig o ofn Mrs Peters byth er hyny.

Dyna'r tro hwnw y cafodd wningen wedi ei berwi yn botes i'w ginio, yr oedd yn rhy ofnus i egluro y camsynied dybryd a wnaeth.

Wedi bod yn teithio allan trwy y boreu, daeth ein gwron a'r gweinidog i ginio, a themlai y ddau awch at fwyd. Gwyddis am Shoni nad oedd dyn yn y wlad fedrai fwyhau pryd o fwyd yn well nag ef. Ac os oedd Mrs Peters yn rhagori mewn rhywbeth neillduol, rhagorai fel cogyddes. Nid oedd well bwrdd yn Mlaenau Ffestiniog, na bwyd mwy blasus ychwaith.

Rhodddwyd yn helaeth i Shoni o'r wningen, a'r stew, a'r tatws, oeddynt wedi eu malu, a'u ystwytho ag ymenyn. Yr oedd yn bleser gweled y Bachan o'r Pant ya cuddio y bwyd. Pan yr oedd ar orphen, gydag ond vchydig gig ar y plât, gofynodd Mrs Peters iddo, os carai gael ychwaneg o'r hash. Credodd ein cyfaill mai cynnyg tatws iddo yr ydoedd, a dywedodd y buasai yn cymeryd ychydig ohonynt. Er ei syndod, hanner llanwodd y wraig fechan ei blat a chig a photes! Ni wyddai Shoni beth i'w ddyweyd na'i wneyd. Yr oedd wedi bwyta yn helaeth yn barod, a charasai orphen ar hyny. Ond ofnai yn ei galon ddeffroi llid Mrs Peters eto. Nid oedd dim am dani ond cymeryd ychwaneg o datws, ac ailymosod ar y gwaith o fwyta. Ar ol hyny, dyna'r pwdin reis: druan o'n cyfaill, hiraethai am Aberdar trwy ei galon erbyn hyn.

Ond fel pob gofid arall, daeth hwnw eto i ben, gan roddi lle i lawenydd.

Yr oedd yn mwriad v Bachan o'r Pant gael golwg ar y Wyddfa, a'chytunodd Isafon Lewis, ac yntau, a mab amaethdy y Llwyngwyn, fyned i'w phen gyda'u gilydd. Cyn cyrhwyn, gwahodddwyd y gweinidog a'i gyfaill i gael cwpanaid o de i Llwyngwyn. Gan fod Mr Lewis yn bwriadu galw i weled rhai o'i gleiffon wrth fyned, cerddodd Shoni ran o'r ffordd ei hun. Er mwyn bod yn sicr, ymofynodd a gwreigan a gyfarfyddodd:

"Shwd ma myn'd i dy Mr Morris, Llwyngwyn, ys gwelwch yn dda?"

"Llwyngwyn, syr? Ewch i fyny efo'r gwrych acw; trowch ar y ddeche, dros y gafna; mae'r

F7679

ty yn y llwyn fan acw," atebai hithau yn gyflym.

"Beth f'ch chi'n foddran, fenyw?" gofynai ein harwr yn hurt. "Ty yn y llwyn! Nid wilo am nythod atar w i!"

"Welweh chi'r gwrych acw, syr?" ebai y ddynes eiwaith, yn awyddus i'w gyfarwyddo.

"Na wela i, na mochyn ohwaith," atebai Shoni yn swrth, a gyda hynny dechreuodd ar ei hoff gynllun o syrthio yn ol ar y Saesneg, ond ychydig fedrai y llall ar yr iaith hono; felly, gorfu iddnt ymadael heb fod fawr callach ill dau. Er ei gysur, gwelodd ein harwr ei gyfaill yn dod i fyny y ffordd, ac yna gwyddai fod y cyfan yn iawn. Ond ceisiodd adrodd am anwybod-aeth yr hon fu yn ceisio ei gyfeirio.

"O'dd hi'n gofyn," ebai Shoni, "os own i yn gwel'd rhyw wrych, ac am i fi fyn'd dros ben cafan, a bod y ty yn y llwyn! Glywsoch chi shwd glebar ariod? O'wn ni'n wilo am dwlc mochyn ne rwrpath."

"Ho, ho, Mr Thomas bach," esboniai Isafon, gan guro a'i ffon, "dyma beth yw gwrych yn y Gogledd yma—perth."

"Beth yw cafan, 'ta?" holai y Deheuwyr yn llawn cywreinrwydd.

"Dyma hi; camfa, neu gafna, fel y dywed rhai pobl. Beth fyddwch chi yn galw peth fel hyn yn y South, Mr Thomas?" atebai y gweinidog.

"Wel, sticil, wrth gwrs," oedd geiriau parod y Bachan o'r Pant, yr hwn a synai fod neb yn meddwl galw dim arall ar y fath beth.

Cyrhaeddwyd y Llwyngwyn, a phasiwyd y prydawn yn ddedwydd yno. Gyda llaw, dydd Sadwrn ydoedd, a'r noson hono, yr oedd y cyn- taf o gyrgherddau nos Sadwrn Isafon Lewis i gael ei gymal. Nid bychan oedd y disgwyliad wrth y "canwr enwog o Aberdar" yn mhllith pobl Blaenau Ffestiniog, oblegid yr oedd Isafon wedi rhwystro Shoni i ganu o gwbl mewn cwmni yno, ac eithro ychydig ar "ganeuon cwn hela" yn y ty, i glyw Mrs Peters, a Jane, ac yntau. Ni wyddai y wraig fechan beth i wneyd o'r can- twr diarta: weithiau, tystiai ei fod wedi gwir- ioni, ac y dylid ei gymeryd yn syth i Ddinbych; bryd arall, hanner farna ei fod yn un o ddyn- ion mwyaf dawnus y byd, ond ei bod hi "yn mishio yn lan ulw gyrbibion a dallt yr un gair a ddeuai o'i safn o."

Aeth Isafon a Shoni i'r cyfarfod. Yr oedd yno ystafell eang, brydferth, a chwmi parch- us, trwsiadus. Teimlodd y Bachan o'r Pant yn bur fuan fod yr awyr yn drymaidd ac yn fy- gythiol iddo ef. "O," ochneidiai ynddo ei aun, "na all'swn i drwpo doi gwrdd, a bod gyda'r boys yn 'Berdar, yn lle yn yr hen ddwnjwn ty- wyll hyn." Gellir gweled mai braidd yn isel yspryd oedd ein harwr.

Dechreuodd y gyngherdd, ac aeth pethau yn mlaen yn ddigon deheuig ar un olwg; ond o'r tu arall, yr oedd pobpeth o'i le. Bobol y capeli oedd yno i gyd, ac nid pobol y tafarnau. Yr oedd y cyfan yn cael ei ddwyn yn mlaen yn ol y drefn fanylaf. Er fod yno gantorion ac adroddwyr da, a chlapio ac encore digon ffar- iwnol, nid oedd yno ddim o'r peth hwnw a eilw y Ffrancwr yn abandon—y bywyd nwyfus, ys mala, direidus, diniwed hwnw sydd a'i hol! annhrefn yn drefn i gyd yn y diwedd. Yr oedd yn rhy debyg i gyngherddau cyffredin ereitl. Ys dywedai Shoni: "Yr odd pob un yn llawn starch i gyd, fel'sa pawb o'dd yno yn 'wyr mawr' i gyd."

Galwyd ar y Bachan o'r Pant i ganu. Pan ddaeth i'r llwyfan, gofynodd y chwareuwr iddo os oedd ganddo ddau gopi.

"Doi?" ebai Shoni, "nag os gen i ddim un."

"Fedra i ddim chwareu i chwi heb gopi," ebai'r pianydd.

"Dos din isha i chi wara i fi," ebai y Bachan

o'r Pant, gan ymollwng i'r "Gan o Glod i Helgwn Bedlinog." Edrychai y chwareuwr a'r cerddorion ereill oedd yno yn ddigrifol ac yn wawdus ar eu gilydd, wrth wrando ar nodau rhyfedd ac iaith rhyfeddach Shoni. Ymollyngodd ereill i chwerrthin, ac i chwerrthin yn ddireol a dilywodraeth. Daliodd Shoni ati fel cawr, nes o'r diwedd i'w lais gael ei lwyr ioddi gan y chwerrthin, ac nas gallai neb ddyweyd ei fod yn canu o gwbl, oni buasai fod ei geg yn symud o hyd. Trwy y cyfan, edrychai mor ddigrifol a delw fren. O'r diwedd, aeth y bobl i waeddi allan, ac i ledorwedd ar drawsiau eu gilydd; a zbrodd Shoni olwg drist at Mr Isafon Lewis, y cadeirydd. Er ei drallod, yr oedd hwnw yn ymnyddu yn y gadair, yn gwasgu ei ddwyllaw ar ei ochrau, gyda'r dagrau yn rheiddeg dros ei ruddiau yn ddiattal. Aeth ein harwr at y cadeirydd, a gofynodd yn hollol ddigrifol:

"Beth sydd ora i fi neud, Mr Lewis, canu bant ne stoppo?"

"O, ho ho! ha, ha, ha; ha, ha, ha! O, ho, ho!" oedd yr unig ateb allodd y cadeirydd roi iddo; ac ar hyny, trodd Shoni yn drist ac yn siomedig, gan eistedd ar y gadair, wrth ochr y cadeirydd, fel delw. Yno y bu am beth amser yn sylu ar y gynnulleidfa, a'r gynnulleidfa arno yntau.

Methwyd gwneyd dim yn mhellach yn y cyngherdd y noson hono, a chychwynodd Shoni i dy Mrs Peters wrtho ei hun, mewn tymher hytrach yn ddrwg. Nid peth bychan i ddyn o safle ac enwogrwydd y Bachan o'r Pant yn Aberdar gael y fath dderbyniad yn Mlaenau Ffestiniog. Mae'n wir nad oedd Shoni wedi astudio fawr ar gerddoriaeth fel gwyddor nac fel celfyddyd, ond am "Gan Gwn Hela," yr oedd i fyny unrhyw ddiwrnod a hyd yn nod Jim y Cantwr ei hun.

Canlynwyd ein cyfaill allan gan y Parch Isafon Lewis. Cerddasant i'r ty heb siarad gair, ond wedi myned i fewn, syrthiodd y gweinidog ar yr esmwythfaine, ac ymollyngodd i chwerrthin yn ddireol o'r newydd. Wrth edrych arno, cododd tymher Shoni, ac ebai yn fygythiol:

"Beth sydd arnoch chi'r fwl? Oti'ch chi'n werthin am y mhen i, gwetwch?"

Sobrodd hyn ychydig ar Isafon, a cheisiodd ddwyn ein harwr i well hwy, ond gydag ychydig iawn o lwyddiant.

Gyda hyn, clywid curo ar y drws, agorwyd ef, a chafwyd fod yno frysneges i Mr John Thomas, yn ei hysbysu fod Sam Mishdir Haliars yn wael ei iechyd, ac fod eisieu i'r Bachan o'r Pant fyned gartref ar unwaith i gymeryd ei le fel Mishdir Haliars, hyd nes y byddai wedi gwela.

Er fod yn ofidus ganddo glywed am Sam, yr oedd y newydd yn felusach na'r mel i'w galon. Hiraethai am "Sweet Byrdar" er's dyddiau, ond wedi'r methiant ofnadwy yn y cyngherdd, goreu po gyntaf ganddo y cawsai droi ei gefn ar y Gogledd.

Er cymaint y ceisiodd y gweinidog ganddo aros hyd ddydd Mawrth, fel y gallont fyned i ben y Wyddfa, a gweled y lleoedd cylchynol; nid oedd dim yn tycio. Wedi gwneyd yn anrhydeddus tuagat Mrs Peters a Jane, cychwynodd boreu Sul mewn cerbyd i gyfarfod y train, fel y gallasai gyrhaedd Aberdar yn gynnar ddydd Llun.

Nid yw y pennodau hyn ond ychydig o ddi-gwyddiadau o lawer yn hanes ein gwrthdrys. Gwaith rhydd fuaasai ysgrifenu cyfrol drwchus am dano. Hyderwn, er hyny, y gweina yr uchod i roddi i'r byd syniad cymharol gywir am berson ac hanes y gwr rhyfedd hwn. Felly, am y tro, cymerwn eich cenad, gan dafu ar drugaredd y dysgedig hyn o hanes bywyd a thethiau yr enwog Shoni o'r Pant.

[DIWEDD.]

F7681

